

Agenda

Teitl y cyfarfod: Cyfarfod Bwrdd CNC, Diwrnod 2 – Sesiwn Gyhoeddus

Dyddiad y cyfarfod: 26 Mai 2022

Amser y cyfarfod: 9.30-15.50

Lleoliad:

Microsoft Teams:

Ymunwch ar eich cyfrifiadur neu ap symudol

[Cliciwch yma i ymuno â'r cyfarfod](#)

Neu ffoniwch (sain yn unig)

[+44 29 2105 5545,333792432#](tel:+442921055545333792432) Y Deyrnas Unedig,

Caerdydd

Rhif Adnabod ar gyfer Cynadledda dros y Ffôn: 333 792

432#

Amser

Eitem

9.30
(5 munud)

1. Cyfarfod Agored

- Croeso
- Datganiadau o fuddiant
- Egluro'r dull o gynnal y cyfarfod

Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)

Crynodeb: NODI unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

9.35
(5 munud)

2. Adolygu'r Cofnodion a'r Log Gweithredu 2A. Adolygu Cofnodion Cyfarfod Cyhoeddus 24 Mawrth 2B. Adolygu'r Log Gweithredu Cyhoeddus

Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)

CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r log gweithredu.

9.40
(10 munud)

3. Diweddariad gan y Cadeirydd

Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw

Crynodeb: NODI diweddariad y Cadeirydd i'r Bwrdd.

9.50
(20 munud)

4. Adroddiad gan y Prif Weithredwr

Noddwr a Chyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr

Crynodeb: NODI'R sefyllfa bresennol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am weithgareddau allweddol.

Cyfeirnod y Papur: 22-05-B09

10.10
(30 munud)

5. Adroddiadau Diweddarau gan y Pwyllgorau

Noddwyr a chyflwynwyr: Cadeiryddion y Pwyllgorau

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg – ni chynhaliwyd cyfarfod

Y Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth – ni chynhaliwyd cyfarfod

Y Pwyllgor Cyllid - 14 Ebrill a 28 Ebrill

Cyfeirnod y Papur: 22-05-B10

Y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd – 7 Ebrill

Cyfeirnod y Papur: 22-05-B11

Y Pwyllgor Pobl a Thaliadau - Ni chynhaliwyd cyfarfod

Y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig – ni chynhaliwyd cyfarfod

Crynodeb: NODI'R diweddariadau gan bwyllgorau'r Bwrdd, mewn unrhyw gyfarfodydd a gynhaliwyd a'r tu allan iddynt.

10.40
(10 munud)

6. Newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol (SaLS)

Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol

Cyflwynydd: Clare Jones, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Llywodraethu

Crynodeb: CYMERADWYO newidiadau i'r SaLS ar gyfer y Bwrdd Busnes Rheoleiddiol

Cyfeirnod y Papur: 22-05-B12

10.50
(20 munud)

Egwyl

11.10
(60 munud)

7. Strategaeth Goedwigaeth

Noddwyr: Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu; Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Masnachol

Cyflwynwyr:

- a) Ruth Jenkins, Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol
 - b) Miriam Jones-Walters, Cynghorydd Arbenigol, Stiwardiaeth Tir
 - c) Andrew Wright, Uwch Gynghorydd Arbenigol, Iechyd Planhigion a Throsglwyddo Gwybodaeth Ymchwil, Stiwardiaeth Tir gyda Dominic Driver, Pennaeth Stiwardiaeth Tir; Elsie Grace, Pennaeth Datblygu Masnachol Cynaliadwy
-

Crynodeb:

- a) **CYMERADWYO'R cynnig ar gyfer Pwyllgor Cyngori Rhanbarthol ar Goedwigaeth**

Cyfeirnod y Papur: 22-05-B13

- b) **CHYMERADWYO Adran 83 ar gyfer cynnal yr ardal o goetir ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru a'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer Ystad CNC.**

Cyfeirnod y Papur: 22-05-B14a

- c) **TRAFOD y gwaith dilynol ar y drafodaeth strategol ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru.**

Cyfeirnod y Papur: 22-05-B14b

**12.10
(80 munud)**

Cinio

**13.30
(60 munud)**

8. Trafodaeth Strategol ar Reoli Perygl Llifogydd

Noddwr: Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu

Cyflwynwyr: Jeremy Parr, Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Digwyddiadau

Crynodeb: TRAFOD y dull strategol o Reoli Perygl Llifogydd

Cyfeirnod y Papur: 22-05-B15

**14.30
(15 munud)**

9. Adroddiad Blynyddol Lles, Iechyd a Diogelwch 2021-22

Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol

Cyflwynydd: Charlotte Morgan, Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch

Crynodeb: CYMERADWYO Adroddiad Blynyddol Lles, Iechyd a Diogelwch 2021-22.

Cyfeirnod y Papur: 22-05-B16

**14.45
(5 munud)**

10. Rhagolwg y Bwrdd

Noddwr: Syr David Henshaw

Cyflwynydd: Natalie Williams, Arweinydd Tîm, Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

Cyfeirnod y Papur: 22-05-B17

**14.50
(5 munud)**

11. UNRHYW FATER ARALL

I'w gymeradwyo drwy ohebiaeth:

a) Newidiadau i'r SaLS ar gyfer Bwrdd Busnes y
Gwasanaethau Corfforaethol
Cyfeirnod y Papur: 22-05-B18

b) Datganiad Caethwasiaeth Fodern CNC
Cyfeirnod y Papur: 22-05-B19

14.55 **Egwyl**
(10 munud)

Diwedd Cyfarfod Cyhoeddus y Bwrdd

15.05 **12. Sesiwn holi ac ateb gyhoeddus**
(45 munud)

15.50 **Diwedd y cyfarfod**

Cofnodion heb eu Cadarnhau

Teitl y Cyfarfod: Cyfarfod Bwrdd CNC – Sesiwn Gyhoeddus
Yn bresennol yn bersonol a thrwy Microsoft Teams

Dyddiad y Cyfarfod: 24 Mawrth 2022

Aelodau'r Bwrdd a oedd yn bresennol: Syr David Henshaw (Cadeirydd)
Clare Pillman, Prif Weithredwr
Yr Athro Steve Ormerod, Is-gadeirydd
Karen Balmer (Teams, bore yn unig)
Catherine Brown (Eitemau 1 i 12)
Julia Cherrett
Geraint Davies
Paul Griffiths
Zoë Henderson
Mark McKenna
Yr Athro Peter Rigby

Aelodau'r Tîm Gweithredol a oedd yn bresennol: Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu
Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol
Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Masnachol
Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau

Unigolion ychwanegol a oedd yn bresennol: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd (Pob eitem)
Caroline Hawkins, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad ac Asesu Strategol Eitem 6 (Teams)
Sarah Williams, Pennaeth y Swyddfa Strategaeth Gorfforaethol a Rheoli Rhaglenni Eitem 6 (Teams)
Sue Ginley, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad Eitem 6 (Teams)
Julia Allen, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Adnoddau Dynol Eitem 7 (Teams)
Charlotte Morgan, Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch Eitemau 8 a 12 (Teams)
Fen Turner, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Strategaeth Adnoddau Naturiol a Lles Eitem 9
Bill Purvis, Rheolwr Iechyd, Mynediad at Addysg a Hamdden Eitem 9
Ruth Jenkins, Pennaeth Rheoli Adnoddau Naturiol Eitem 9
Catrin Hornung, Pennaeth Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol Eitem 11
Naomi Lawrence, Pennaeth Profiad y Cwsmer Eitem 11
Heledd Evans, Arweinydd y Tîm Gwasanaethau Digidol Eitem 11 (Teams)

Martin Parkinson, Pennaeth TGCh Eitem 11 (Teams)
Christopher Collins, Pennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth Eitem 11 (Teams)
Dominic Driver, Pennaeth Stiwardiaeth Tir Eitem 12 (Teams)
Elsie Grace; Pennaeth Datblygu Masnachol Cynaliadwy Eitem 12 (Teams)
Gavin Bown, Pennaeth Gweithrediadau Canolbarth Cymru Eitem 12 (Teams)
Paul Johnston, Rheolwr Gwerthiant a Marchnata Eitem 12 (Teams)
Adrian Hodgkinson, Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch Eitem 12 (Teams)
Sarah Wood, Rheolwr Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau Eitemau 13 ac 16 (Teams)
Nadia De Longhi, Pennaeth Rheoleiddio a Thrwyddedu Eitem 13 (Teams)
Adam Cole-King, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Polisi Bioamrywiaeth Eitemau 13 ac 16 (Teams)
Patrick Lindley, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Cynefinoedd a Rhywogaethau Daearol Eitemau 13 ac 16 (Teams)
Katherine Morris, Prif Gynghorydd, Gwasanaethau Cyfreithiol Eitem 13 (Teams)
Sian Williams, Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru Eitem 16 (Teams)
Ben Wilson, Prif Gynghorydd, Pysgodfeydd Eitem 16 (Teams)

**Arsyllwyr
CNC:**

Mike Evans, Pennaeth Gweithrediadau, Canol De Cymru
Kate Evans, Materion Cyhoeddus ac Ysgrifennydd Personol
Luke Henry, Rheolwr Prosiect, TGCh
Ben Dickinson, Rheolwr Newid a Ffurfweddu Gwasanaeth
Ian Johns, Prif Bensaer Technegol (Eitem 11)
Phil Mostyn, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Lles, Iechyd a Diogelwch (Eitem 12)
Jessica Poole, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Dulliau Rheoleiddio (Eitem 13)
Ian Williams, Arweinydd Tîm, Trwyddedu Rhywogaethau (Adar) (Eitem 13)
Rachel Jarvis, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Dulliau Rheoleiddio (Eitem 13)
Danielle Phillips, Chwarae Teg

**Arsyllwyr
Cyhoeddus:**

Kim Waters – Undeb Afonydd Cymru
Rachel Evans - Y Gynghrair Cefn Gwlad
Steve Griffiths - BASC
Glynn Evans – BASC
Gareth Wardell
Ruth Tudor
Douglas Knox, Forestry and Land Scotland (Eitem 11)
Rachel Hodson - Llywodraeth Cymru (Eitem 12)
Julian Hughes – RSPB (Eitem 12)
Aelodau ychwanegol o'r cyhoedd

Datganiadau:

Yr Athro Steve Ormerod – Cyn-gadeirydd y Cyngor (2012-2017) ac Is-lywydd presennol yr RSPB; Cadeirydd Grŵp Adar sy'n Bwyta Pysgod CNC; Aelod o ddwy ymddiriedolaeth bywyd gwyllt; Aelod o amryw o gymdeithasau dysgedig a sefydliadau proffesiynol sy'n ymdrin â materion bywyd gwyllt, gan gynnwys adar (Ymddiriedolaeth Adareg Prydain, Cymdeithas Ecolegol Prydain, Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth

Amgylcheddol). Wedi cyhoeddi dros 70 o bapurau gwyddonol ar adar - gan gynnwys eu rôl fel ysglyfaethwyr.

Geraint Davies – Ymddiriedolaeth Gwarchod Bywyd Gwyllt, RSPB, Undeb Amaethwyr Cymru, Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol,

Julia Cherrett – Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain, curwr rhan-amser ar helpa leol (di-dâl)

Karen Balmer – RSPB, Derbynnnydd Grantiau, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Catherine Brown – RSPB, Yr Ymddiriedolaeth Natur, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Zoe Henderson – Y Gynghair Cefn Gwlad, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

Peter Rigby – Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Clare Pillman – Yr Ymddiriedolaeth Natur, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Parc cenedlaethol newydd arfaethedig

Syr David Henshaw – Parc cenedlaethol newydd arfaethedig

Ymddiheuriadau: Yr Athro Calvin Jones
Dr Rosie Plummer
Karen Balmer (o 1pm)
Yr Athro Steve Ormerod (12.15 – 2.00)
Catherine Brown (Eitemau 13 i 16)

Ysgrifenyddiaeth: Jocelyn Benger
Natalie Williams

Eitem 1. Agor y Cyfarfod

1. Agorodd y Cadeirydd y Cyfarfod a chrosawu pawb. Gwnaed datganiadau o fuddiant fel y nodwyd uchod. Roedd datganiadau wedi'u hystyried ymlaen llaw a daethpwyd i'r casgliad nad oedd yn ofynnol i unrhyw aelodau o'r Bwrdd gael eu heithrio o'r trafodaethau. Esboniodd y Cadeirydd y modd y cynhelir y cyfarfod a'r broses a fyddai'n cael ei dilyn ar gyfer unrhyw gwestiynau nas trafodwyd yn ystod y sesiwn holi ac ateb gyhoeddus.

Eitem 2. Adolygu'r Cofnodion a'r Cofnod Gweithredu

2A. Adolygu Cofnodion y Cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 28 Ionawr

2. Adolygwyd a chytunwyd ar gofnodion y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Ionawr.

2B. Adolygu'r Cofnod Gweithredu Cyhoeddus

3. Adolygwyd a nodwyd y cofnod gweithredu.

Eitem 3: Diweddariad gan y Cadeirydd

4. Parhaodd amryw o gyfarfodydd i gael eu cynnal, gan gynnwys y Grŵp Adferiad Gwyrd a chyfarfodydd pwyllgor arferol.
5. Cytunwyd ar y penodiadau canlynol mewn perthynas â Chadeiryddion Pwyllgorau'r Bwrdd ymlaen llaw drwy ohebiaeth: Julia Cherrett i Gadeirio'r Pwyllgor Pobl a Thaliadau (PaRC); Paul Griffiths i weithredu fel Cadeirydd dros dro'r Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd (FRMC) hyd nes y bydd y broses bresennol o recriwtio aelodau'r Bwrdd wedi'i chwblhau;

Syr David Henshaw i barhau fel Cadeirydd dros dro'r Pwyllgor Cyllid (FC). Diolchwyd i Zoe Henderson am ei gwaith fel Cadeirydd y PaRC.

6. Nododd y Cadeirydd y byddai Catherine Brown yn ymddiswyddo o'r Bwrdd ar 31 Hydref. Llongyfarchwyd Catherine ar ei phenodiad fel Cadeirydd y Bwrdd Ymddygiad Gorfodi. Diolchodd y Bwrdd i Catherine am ei holl waith i CNC.

CYMERADWYWYD: Cymeradwywyd newidiadau i Gadeiryddion y Pwyllgorau.

Eitem 4: Adroddiad gan y Prif Weithredwr

7. Ystyriwyd bod y papur wedi'i ddarllen, a thynnwyd sylw at yr eitemau canlynol.
8. Bu newid byd ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd, yn enwedig o ran y sefyllfa yn Wcráin. Roedd yr effaith ar staff, rhwydweithiau a materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi yn cael ei hystyried a'i hadolygu gan y Tîm Gweithredol (ET).
9. Roedd y barnwr yn yr adolygiad barnwrol o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 wedi gwrthod hawliad Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) yn ei gyfanrwydd.
10. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu (EPP) y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ganlyniad Adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar reoleiddio diogelwch tomenni glo, a gychwynnwyd yn dilyn llithriad tomen Tylorstown yn ystod Storm Dennis. Rhannwyd argymhellion yr Adroddiad. Cydnabu'r Adroddiad hefyd mai dim ond un o'r materion etifeddiaeth ddiwydiannol y mae angen mynd i'r afael â nhw yw tomenni glo, a gwnaed argymhellion ar y mater hwn. Byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, ac roedd Papur Gwyn yn debygol o gael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn y flwyddyn ar sut i weithredu hyn. Roedd gan CNC ddyletswyddau a chyfrifoldebau o ran gweithgarwch amgylcheddol yn ogystal â'r tomenni glo ar Ystad CNC ac roedd wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Gyfraith i gyfrannu at yr ymgynghoriad.
11. Byddai Martin Parkinson, Pennaeth TGCh, a Chadeirydd presennol Grŵp y Tîm Arwain (LTG), yn mynd all-lein wrth gadeirio'r grŵp hwnnw i weithio gyda'r Tîm Gweithredol, y Tîm Arwain a'r tîm Llywodraethu ar waith i drawsnewid llywodraethu ac effeithiolrwydd y grwpiau hyn. Byddai Pennaeth TGCh newydd yn cael ei recriwtio.
12. Croesawodd aelodau'r Bwrdd y gwaith ar y Gofrestr Gyhoeddus ar-lein a gofynnwyd am i ddiolch gael ei gyfleu i'r tîm am eu gwaith ar hyn. Nodwyd bod hon yn elfen bwysig o atebolrwydd ac ymchwil drwy fynediad at sylfaen wybodaeth CNC.

CAM GWEITHREDU: Yr Ysgrifenyddiaeth i ddiolch i'r tîm Cwsmeriaid am eu gwaith ar y Gofrestr Gyhoeddus ar-lein.

Eitem 5: Adroddiadau Diweddarau'r Pwyllgorau

13. Cyflwynodd Catherine Brown, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC), y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mawrth. Cafwyd trafodaeth sylweddol ar y Gofrestr Risg. Cafwyd archwiliad dwfn o'r risg o beidio â chydymffurfio, a nodwyd bod cynnydd yn cael ei wneud. Arweiniodd trafodaeth ar y risgiau sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas ag Wcráin a chostau byw at drafodaeth a argymhellir gan y Bwrdd ar hyn. Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran lleihau'r risg sy'n gysylltiedig â chontractau. Roedd hyn wedi bod yn ddefnyddiol iawn ac roedd yn galonogol gweld y camau'n cael eu cymryd ar hyn. Roedd rhai pryderon ynghylch defnyddio Memoranda Cyd-ddealltwriaeth, ond roedd yr ET yn adolygu hyn, a

byddai archwiliad yn dilyn yn ystod y misoedd nesaf. Adroddwyd am dri adroddiad archwilio a dau adroddiad dilynol ac anogwyd yr ARAC i weld gwelliannau yn yr ymateb i archwiliadau. Diolchwyd i'r tîm Archwilio Mewnol a'r tîm rheoli am y gwaith dilynol ar adroddiadau archwilio. Roedd cynllunio'r gweithlu wedi cael barn archwilio anfodhaol, a oedd yn peri pryder i'r ARAC, er y cydnabuwyd bod y PaRC wedi bod yn rhan o drafodaethau. Roedd yr ARAC yn parhau i bryderu am y bwlch rhwng cofnodion y Bwrdd Glo a CNC ar domenni glo. Roedd gwaith yn cael ei wneud i gysoni hyn ac roedd yr ARAC yn parhau i fonitro.

14. Rhoddodd Zoe Henderson, Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Thaliadau (PaRC), y wybodaeth ddiweddaraf am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mawrth. Roedd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol (OD) Dros Dro newydd wedi ymuno â'r PaRC, ac roedd eisoes yn gwneud gwahaniaeth mawr. Nid oedd y PaRC yn synnu ar y farn archwilio ar Gynllunio'r Gweithlu gan nad oedd Pennaeth OD wedi bod yn y rôl ers peth amser. Ystyriwyd y Wybodaeth Reoli gyda ffocws ar heriau recriwtio ac o ystyried sut i reoli cyllidebau tymor byr a Phenodiadau Tymor Penodol (FTAs). Roedd grŵp yn ystyried hyn yn fanwl er mwyn gwneud awgrymiadau ar sut i symud ymlaen. Adolygwyd nifer y staff yn y sefydliad, ynghyd â nifer y swyddi gwag, a thynnwyd sylw at bwysigrwydd sicrhau adnoddau a ffocws cywir y Gwasanaethau Pobl. Cynhaliwyd sesiwn ar Les, Iechyd a Diogelwch. Cynhaliwyd archwiliad dwfn ar absenoldebau iechyd meddwl, a nodwyd bod rhywfaint o hyfforddiant wedi'i roi ar waith i reolwyr ar iechyd meddwl, ond roeddent yn cydnabod bod mwy o waith i'w wneud ar hyn. Roedd cynnydd yn cael ei wneud o ran cynllunio ar gyfer olyniaeth, ond byddai angen parhau i ganolbwyntio ar y maes hwn.
15. Gwnaeth aelodau'r Bwrdd sylwadau ar yr heriau o ran recriwtio a'r swyddogaeth Adnoddau Dynol (AD). Nodwyd bod recriwtio wedi'i godi i risg lefel strategol a bod gwaith yn cael ei wneud i fynd i'r afael â hyn. Diolchodd y Prif Weithredwr i Zoe Henderson ar ran yr ET am ei gwaith fel Cadeirydd y PaRC.
16. Rhoddodd Peter Rigby, Cadeirydd y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth (EAC), y wybodaeth ddiweddaraf am waith ers y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ionawr. Roedd y cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 7 Mehefin. Roedd gwaith yn cael ei wneud ar recriwtio i'r Pwyllgor i ehangu'r sylfaen arbenigedd, yn enwedig ym meysydd coedwigaeth a'r môr. Roedd recriwtiaid rhagorol wrthi'n cael eu recriwtio, ond nid oedd hyn wedi'i gwblhau eto.
17. Rhoddodd Syr David Henshaw, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid (FC), y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 10 Chwefror ac 11 Mawrth. Derbyniwyd y wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad y flwyddyn bresennol. Roedd y tîm Cyllid wedi nodi y dylai hyn fod ar y trywydd iawn erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd coedwigaeth ac atebolrwydd wedi'u trafod a byddai'r ffocws ar hyn yn parhau. Ystyriwyd y gweithlu a'r rheolaethau. Cafwyd trafodaeth ar y Llinell Sylfaen a'r gwaith pwysig ar hyn o ran nodi blaenoriaethau. Derbyniwyd y cynigion ar godi tâl a rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf am grantiau. Cynhaliwyd yr adolygiad effeithiolrwydd blynyddol. Yn y cyfarfod ar 11 Mawrth, ystyriwyd y Gyllideb ddrafft a Chynllun Busnes 2022/23. Nodwyd bod y Gweinidog wedi cymeradwyo'r Cynllun Codi Tâl Blynyddol.
18. Rhoddodd Julia Cherrett, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd (FRMC), y wybodaeth ddiweddaraf am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr. Darparwyd ymateb i'r cynllun drafft adnoddau gan yr Is-bwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Cefnogwyd y rhan fwyaf o'r cynigion i'r dyfodol, er y cydnabuwyd bod hon yn rhestr hir o argymhellion y byddai angen eu blaenoriaethu. Roedd sesiwn strategol ychwanegol wedi'i hychwanegu at gyfarfod nesaf yr FRMC i alluogi trafodaethau ar fesurau nawr ac yn y dyfodol ar gyfer

rheoli perygl llifogydd, sut i fwrw ymlaen â'r sgysiau ar berygl llifogydd gyda chymunedau a'r dull o ymdrin ag atebion sy'n seiliedig ar natur i lifogydd.

19. Trafododd aelodau'r Bwrdd y ddadl ar faterion coedwigaeth yng nghyfarfod preifat y Bwrdd, a nodwyd pwysigrwydd coetiroedd o ran darparu atebion sy'n seiliedig ar natur i lifogydd, yn ogystal â'u manteision eraill y gellid eu cyflawni drwy reoli tirwedd yn briodol.
20. Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Bwrdd y rhagwelwyd cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru ar ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu ar gyfer adolygiad o'r llifogydd yn 2020. Nodwyd hefyd fod Archwilio Cymru yn ystyried ei ddull o gynnal adolygiad o lifogydd. Trafododd aelodau'r Bwrdd y dull o ymgysylltu â chymunedau ar lifogydd. Cydnabuwyd bod cyfle i gyfrannu at yr adolygiadau gan gyrrff eraill ar yr hyn y gellid ei wneud, yn ogystal â'r hyn a wnaed. Nodwyd hefyd fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn awyddus i gymryd rhan mewn sgysiau ehangach ar y mater hwn.
21. Rhoddodd yr Athro Steve Ormerod, yn dirprwyo dros Gadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig (PrAC), y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Chwefror. Rhoddodd y papur fanylion y cyfarfod. Tynnwyd sylw at y meysydd canlynol. Roedd y trafodaethau wedi cynnwys y meddylfryd sy'n esblygu ar ddiben dynodiadau ardaloedd gwarchoddedig, er enghraifft, eu pwysigrwydd o ran hamdden ac adsefydlu ar ôl Covid, a mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Ystyriwyd effeithiau bioamrywiaeth sy'n dirywio yn yr amgylchedd daearol, yn ogystal â'r amgylchedd dŵr croyw a morol a'r effeithiau ar safleoedd dynodedig. Y targed 30x30 a ddaeth i'r amlwg ar lefel fyd-eang o'r CBD (Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol) oedd y byddai 30% o'r tir a'r môr mewn statws gwarchoddedig erbyn 2030, a'r bwriad oedd bod yn Gadarnhaol o ran Natur erbyn 2030. Roedd y parc cenedlaethol newydd arfaethedig yn eitem barhaus. Rhoddwyd gwybod i'r PrAC hefyd am ymateb Llywodraeth y DU i Adolygiad Glover ar dirweddau, yn enwedig Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) a Pharciau Cenedlaethol. Ystyriwyd gofynion ac adnoddau monitro ar safleoedd gwarchoddedig CNC. Hysbyswyd y PrAC am gynigion ar gyfer cais am gyllid o £7.4 miliwn erbyn 2025 i wella'r ffordd y rheolir yr ardaloedd gwarchoddedig ar Ystad CNC.
22. Trafododd aelodau'r Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am y PrAC a nodwyd cynnwys Adolygiad Glover. Esboniodd Cyfarwyddwr Gweithredol EPP y gwahaniaeth yn yr adroddiad sy'n ymwneud â Chymru, ond nododd fod y ddeddfwriaeth yn gysylltiedig. Roedd y tîm mewn trafodaethau gyda Natural England a Defra i rannu gwybodaeth am y gwahanol ddulliau gweithredu. Trafododd y Bwrdd y dull o ymdrin â'r parc cenedlaethol newydd arfaethedig. Datganodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr fuddiant yn y pwnc hwn. Nodwyd bod gan CNC rôl ffurfiol yn y broses ddynodi, ond cytunwyd y gellid ystyried datblygu barn ar y broses ddynodi ar gyfer y dyfodol.

Eitem 6: Adroddiad Chwarter 3 Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes

Cyflwynwyr: Caroline Hawkins, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad ac Asesu Strategol; Sarah Williams, Pennaeth y Swyddfa Strategaeth Gorfforaethol a Rheoli Rhaglenni; Sue Ginley, Ymgynghorydd Arbenigol Arweiniol, Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad

23. Rhoddodd y Prif Weithredwr gyflwyniad i'r Bwrdd. Ystyriwyd bod y papur a'r Adroddiad Chwarter 3 wedi'u darllen a nodwyd bod adrodd yn digwydd yn erbyn y Cynllun Busnes a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn gynharach yn y flwyddyn a'r pum blaenoriaeth strategol. Roedd mesurau perfformiad mewnol wedi'u cynnwys yn yr adroddiad am y tro cyntaf hefyd. Roedd y rhan fwyaf o'r targedau ar y trywydd iawn, ond disgwyliad rhai heriau, yn enwedig o ran recriwtio, ac yn enwedig ym maes Rheoli Perygl Llifogydd. Nodwyd y gallai'r targed creu coetir fod yn Oren erbyn diwedd y flwyddyn oherwydd oedi gyda phlannu wrth ymgysylltu â'r gymuned. Tynnwyd sylw at y meysydd canlynol o'r adroddiad.

24. Cafodd y mesurau eu graddio fel 19 Gwyrdd, naw Oren a dau Goch. Ar hyn o bryd, roedd cynlluniau rheoli basnau afonydd wedi'u graddio'n Goch, gan fod staff yn cael eu symud all-lein i weithio ar afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a materion ansawdd dŵr eraill. Cafodd y rhaglen Mwyngloddiau Metel ei graddio'n Goch hefyd, er y nodwyd bod y rhaglen yn mynd yn dda, a bod penderfyniad wedi'i wneud i aildrefnu rhywfaint o'r gwaith fel rhan o gynllun mwy o faint. Rhagwelwyd y gallai'r rhaglen fod yn Oren erbyn diwedd y flwyddyn.
25. Cafodd y gwaith o weithredu argymhellion yr Adolygiad o Lifogydd ei raddio'n Oren. Byddai hyn yn parhau i gael ei fonitro'n agos gan yr FRMC a'r ET. Mae cynnydd ar brofiad y cwsmer wedi'i raddio'n Oren hefyd. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol y byddai'r ateb digidol Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid ar waith ym mis Ebrill. Roedd y Cynllun Ymgysylltu â Rhanddeiliaid wedi'i ohirio ar gyfer gwaith ychwanegol. Cafodd y Rhaglen Adfywio/Adnewyddu ei graddio'n Oren. Roedd y rhaglen hon wedi'i gohirio oherwydd cyfyngiadau ychwanegol, ond roedd bellach yn gwneud cynnydd. Roedd Rheolwr Prosiect newydd yn ei swydd ac roedd ffocws gwirioneddol ar y bwriad i weld model gweithredu CNC yn y dyfodol yn lleihau'r effaith carbon. Tynnwyd sylw at y ffaith bod gwaith ar safleoedd gwarchoddedig bellach wedi'i raddio'n Wyrdd, a byddai arian ychwanegol ar gyfer y flwyddyn nesaf yn parhau â'r gwaith ar hyn. Bu mwy o ddisgyblaeth o ran her ar y mesurau, felly disgwyliadau diwedd y flwyddyn oedd un Coch, chwech Oren a 23 Gwyrdd.
26. Tynnwyd sylw at yr eitemau canlynol o'r adroddiad ar fesurau mewnol. O'r 11 mesur, cafodd un ei raddio'n Goch, un yn Oren a naw'n Wyrdd. Roedd y mesur a raddiwyd yn Goch yn ymwneud â gwneud taliadau ar amser. Nodwyd bod hyn wedi'i achosi gan faterion staffio yn y tîm Cyllid. Roedd y taliadau bellach yn 89% ac roedd hyder y byddai'r targed o 94.5% yn cael ei gyflawni erbyn diwedd y flwyddyn. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd fod taliadau ar y trywydd iawn bellach, er y byddai hyn yn parhau i gael ei fonitro'n ofalus. Nodwyd bod llawer o waith wedi'i wneud ar y Wybodaeth Reoli yn ystod y flwyddyn i weld y wybodaeth a fyddai'n canolbwyntio ar fonitro a sbarduno gwelliannau.
27. Trafododd aelodau'r Bwrdd gynnwys yr adroddiad. Cwestiynwyd y cynlluniau tymor byr ar gyfer y tir a brynwyd yn dilyn yr oedi cyn plannu coed. Esboniwyd y byddai dull gweithredu gwahanol yn dibynnu ar bob darn o dir ac y byddai'r Prif Weithredwr yn rhoi mwy o wybodaeth am y manylion am hyn.

CAM GWEITHREDU: Dylai aelodau'r Bwrdd gael manylion am yr ymagwedd at ddefnydd tir tra bod oedi gyda phlannu coed oherwydd gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned.

28. Mynegwyd pryderon ynghylch yr effeithiau posibl ar fusnesau llai o faint o ganlyniad i'r oedi wrth dalu, a chwestiynwyd y cyfathrebiadau ynghylch hyn. Esboniodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yr ymatebwyd i unrhyw ymholiadau, a thynnwyd sylw at y cynnydd ar y mater hwn.
29. Cafodd y rhaglen Mwyngloddiau Metel ei chanmol a'i chydabod fel gwyddoniaeth o'r radd flaenaf. Awgrymwyd ymweliad safle i weld y gwaith ar lawr gwlad. Tynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol EPP sylw at y gwaith asesu rhagarweiniol enfawr, a disgrifiodd y cysylltiadau â rhaglenni eraill, megis y rhaglen cronfeydd dŵr.

CAM GWEITHREDU: Mwyngloddiau Metel i'w hychwanegu at y rhaglen o ymweliadau safle'r Bwrdd.

30. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol EPP y wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Adolygu ac Adfer yn dilyn Llifogydd ac esboniodd y penderfyniad i barhau i fonitro'r

rhaglen a bod amryw o fesurau hirdymor parhaus. Bu rhywfaint o oedi i'r cynnydd ar y mesurau, a disgrifiwyd y rhain. Byddai'n bwysig sicrhau bod y camau gweithredu'n cael eu hymgorffori cyn eu cymeradwyo. Croesawodd aelodau'r Bwrdd y dull hwn. Cadarnhawyd y byddai llinell adrodd i'r FRMC, yr ET a'r Bwrdd ar ôl i'r rhaglen symud i Fusnes fel Arfer (BAU). Nododd aelodau'r Bwrdd y byddai'n ddefnyddiol gwybod y risgiau a godwyd gan y tîm ar y symudiad hwn i BAU. Nodwyd yr her o ran recriwtio a nifer y swyddi gwag ym maes Rheoli Perygl Llifogydd a Digwyddiadau ac ystyriwyd cynnwys y Bwrdd yn y maes hwn. Disgrifiodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol y camau sy'n cael eu cymryd ar y mater hwn a datblygiad risg strategol o ran recriwtio.

31. Trafodwyd materion yn ymwneud ag ansawdd dŵr. Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol bod â mesur mwy tryloyw a hygyrch o amgylch hyn, a oedd yn canolbwyntio ar nifer yr achosion o ddiffyg cydymffurfio a'r camau gorfodi. Byddai angen cynnwys nifer yr achosion o ddiffyg cydymffurfio a adroddwyd hefyd. Cadarnhawyd y byddai'r mesur manwl ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cael ei ystyried yn y cyfarfod nesaf. Awgrymwyd y gellid cynnal ymweliad safle i ystyried materion yn ymwneud ag afonydd ACA a Gorlifoedd Stormydd Cyfunol (CSOs) yn y cyfarfod nesaf. Nododd aelodau'r Bwrdd, yn dilyn canlyniad yr adolygiad barnwrol o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021, y byddai angen blaenoriaethu'r mater hwn.
32. Trafodwyd materion yn ymwneud ag absenoldeb staff a chwestiynwyd i ba raddau roedd rheolwyr yn cefnogi staff. Roedd y PaRC wedi cynnal archwiliad dwfn ar faterion iechyd meddwl ac wedi cael sicrwydd bod hyn yn cael ei ystyried, gyda chymorth yn cael ei gynnis i staff a hyfforddiant yn cael ei roi ar waith i reolwyr. Cydnabuwyd nad oedd yr ardal fusnes AD wedi tyfu law yn llaw â'r sefydliad. Esboniodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol rôl y Rhaglen Adfywio o ran adolygu'r systemau a'r cymorth, er enghraifft, wrth gyflwyno newidiadau i'r system rheoli perfformiad er mwyn sicrhau bod yr offer priodol gan reolwyr. Cydnabuwyd y disgwyliadau ar reolwyr canol. Esboniodd y Prif Weithredwr y byddai'r Pennaeth TGCh yn canolbwyntio ar y gofynion cydymffurfio ac yn gwneud gwelliannau i'r maes hwn, gan weithio gyda'r Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd, LTG a'r Bwrdd Gwasanaethau Corfforaethol. Disgrifiwyd y cysylltiad rhwng y maes hwn, Adfywio a'r Adolygiad Sylfaenol. Trafodwyd iechyd meddwl a'r cysylltiad â phryder yn y byd sydd ohoni heddiw. Disgrifiwyd rôl swyddog cymorth cyntaf iechyd meddwl. Roedd yr ET a'r LT wedi ystyried rôl newidiol arweinyddiaeth mewn cyfarfod diweddar. Nododd y Bwrdd yr heriau parhaus.

CYMERADWYWYD: Adroddiad Chwarter 3 Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes

Eitem 7: Adroddiad Blynyddol Amrywiaeth a Chynhwysiant 2021-22

Cyflwynydd: Julia Allen, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Adnoddau Dynol

33. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol yr eitem a nododd fod amryw o drafodaethau blaenorol wedi'u cynnal yn y Bwrdd ar Amrywiaeth a Chynhwysiant (D&I). Nododd yr Adroddiad Blynyddol y Cynllun D&I, ynghyd â rhai o'r camau gweithredu, a thynnodd sylw at yr Adroddiad Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau a gwaith gyda'r sector ehangach. Codwyd rhai pwyntiau diddorol a dderbyniwyd ar gwynion a'r ffocws ar faterion mynediad, a oedd yn cael eu datrys gyda chydweithwyr yn Gweithrediadau. Roedd yr Adroddiad yn cynnwys gwybodaeth gan rwydweithiau staff hefyd.
34. Trafododd aelodau'r Bwrdd gynnwys yr adroddiad. Nododd Zoe Henderson, Cadeirydd y PaRC, fod llawer o waith wedi'i wneud yn y maes hwn ac y byddai gwaith pellach yn cael ei wneud i fwrw ymlaen â hyn, nid yn fewnol yn unig ond gyda chymunedau yng Nghymru. Gofynnwyd a oedd system basbort ar waith ar gyfer pobl ag anabledau ac, os

felly, a ellid mesur lefelau eu boddhad ag unrhyw addasiadau. Esboniwyd bod system basbort beilot wedi bod ar waith drwy'r rhwydweithiau staff ac y byddai'r Pennaeth Rheoli Pobl yn cynnal sesiwn gyda rheolwyr llinell. Byddai'r defnydd yn cael ei fonitro a gellid ychwanegu mesur boddhad.

35. Trafodwyd yr Adroddiad Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau. Nodwyd bod cynnydd yn cael ei wneud yn y maes hwn. Byddai chwe amcan newydd yn sicrhau ffocws ar ddata ac yn galluogi gwneud penderfyniadau gwell, ac ehangir ar hyn yn yr adroddiad nesaf.

CYMERADWYWYD: Adroddiad Blynyddol Amrywiaeth a Chynhwysiant 2021-22 wedi'i gymeradwyo i'w gyhoeddi.

Eitem 8: Adroddiad Chwarter 3 Lles, Iechyd a Diogelwch

Cyflwynydd: Charlotte Morgan, Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch

36. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol yr eitem. Tynnwyd sylw at yr archwiliad dwfn ar iechyd meddwl yn y PaRC a'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn. Byddai'r adroddiad nesaf yn dechrau tynnu sylw at y camau mwy rhagweithiol yn y maes hwn.
37. Rhoddodd y Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch (WHS) y wybodaeth ddiweddaraf ar y papur. Roedd crynodeb yr Adolygiad o Ddigwyddiadau Difrifol (SIR) wedi'i ychwanegu at y papur i roi syniad o'r ymchwiliadau a'r camau a oedd yn cael eu cymryd. Esboniwyd bod rhai dyddiadau gweithredu ar gyfer y flwyddyn nesaf oherwydd gweithredu camau ar draws y busnes. Mae'r camau hyn yn gysylltiedig â'r Gofrestr Risg Strategol. Nodwyd dau ddigwyddiad yn ymwneud â Syndrom Twannel y Carpws a Dirgryniad Llaw a Braich (HAV). Roedd gwaith arolygu iechyd a monitro dirgryniad yn parhau. Roedd archwiliad mewnol o HAVs wedi cyflwyno sgôr gymedrol. Roedd cynllun gweithredu wedi'i gyflwyno ac roedd y tîm yn gweithio drwy'r argymhellion. Byddai ISO 45001 yn dychwelyd ym mis Hydref i adolygu a oedd y safon yn cael ei chynnal. Bu dau achos difrifol o ddiffyg cydymffurfio ag ISO 45001. Roedd un wedi'i gau yn dilyn adolygiad yr archwilwyr o fewn 6 wythnos. Roedd y llall, a oedd yn ymwneud â hyfforddiant WH&S, wedi'i ostwng i fân achos o ddiffyg cydymffurfio yn dilyn y cyfarfod ailasesu ym mis Chwefror. Roedd cynllun gweithredu wedi'i gyflwyno, a oedd yn adlewyrchu'r camau gweithredu SIR parhaus.
38. Ystyriodd aelodau'r Bwrdd gynnwys yr adroddiad a gofyn a ellid disgwyl mwy o Syndrom Twannel y Carpws gyda gwaith parhaus o bell a pha gamau oedd yn cael eu cymryd ar hyn. Esboniodd y Rheolwr WHS fod hyn yn aml yn gysylltiedig â HAVs, yn hytrach na gweithio wrth ddesg yn unig. Cadarnhawyd bod gwybodaeth ac ymwybyddiaeth yn cael eu darparu drwy ddiweddariad misol y Rheolwyr, a bod angen cynnal asesiadau Cyfarpar Sgrin Arddangos (DSE) yn flynyddol.
39. Trafodwyd y data a gasglwyd o'r watsiau monitro dirgryniad, a gofynnwyd a ellid rhannu hyn. Nodwyd bod hyn yn unigryw i'r cyfarpar, ond gellid cynnal sesiynau ymwybyddiaeth ar HAVs ar gyfer contractwyr. Nododd aelodau'r Bwrdd fod y gwaith contract cyn cymhwyso yn gadarnhaol, ond gofynnwyd pa waith WHS a wneir tra bod y contract yn parhau. Cadarnhaodd y Rheolwr WHS fod y Bwrdd Prosiect Rheoli Contractau wedi cytuno y gellid datblygu polisi a gweithdrefn ar gyfer unrhyw staff sy'n rheoli contractau WHS ar y safle. Roedd Swyddog yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) wedi bod yn ganmoliaethus mewn ymweliad safle diweddar am y dull rhagweithiol o ymdrin â WHS ar y safle a ddefnyddiwyd gan reolwr contract ac y byddai hyn yn cael ei gyfleu fel enghraifft i'r holl staff.

40. Nododd y Bwrdd yr adroddiad a diolchodd i'r Rheolwr WHS a'r tîm am eu gwaith a'r cynnydd sy'n cael ei wneud.

NODWYD: Adroddiad Chwarter 3 Lles, Iechyd a Diogelwch

Eitem 9: Llywodraethu Is-grŵp Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Cyflwynwyr: Fen Turner, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Strategaeth Adnoddau Naturiol a Lles; Bill Purvis, Rheolwr Iechyd, Mynediad at Addysg a Hamdden; Ruth Jenkins, Pennaeth Rheoli Adnoddau Naturiol

41. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol yr eitem. Roedd ail gylch yr asesiadau lles ar fin dechrau, a byddai'r cynlluniau lles yn dilyn hyn. Byddai'n ofynnol i CNC gyfrannu at y pymtheg asesiad lles gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o bob rhan o Gymru, a gwneud sylwadau arnynt. Roedd y papur yn amlinellu'r dull arweinyddiaeth wasgaredig a oedd yn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r cylch cyntaf, gan sicrhau'r llywodraethu i roi sicrwydd i'r Bwrdd ar yr un pryd. Roedd yr ET wedi adolygu a gwneud sylwadau ar y papur ac wedi cymeradwyo opsiwn 3. Ystyriwyd bod y papur wedi'i ddarllen.
42. Rhoddodd y Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Strategaeth Adnoddau Naturiol a Lles, gyflwyniad i'r Bwrdd a dynnodd sylw at yr argyfyngau natur a hinsawdd byd-eang, gan bwysleisio y gallai hanner y rhywogaethau ar y ddaear gael eu colli o fewn yr 80 mlynedd nesaf. Esboniwyd bod y darn hwn o waith yn gyfle i CNC weithio tuag at fynd i'r afael â hyn. Anogwyd y Bwrdd i nodi eu barn ar hyn.
43. Croesawodd aelodau'r Bwrdd y cyflwyniad. Nodwyd y cynnydd sy'n cael ei wneud yn y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o ran ymgysylltu rhwng CNC ac aelodau eraill. Byddai'r berthynas ag aelodau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn allweddol i sicrhau bod negeseuon yn cael eu cyflwyno'n effeithiol. Roedd yn bwysig cyfrannu a herio'n gynnar yn y broses o ddatblygu'r cynlluniau. Rhoddwyd enghraifft o'r math o her a ddarparwyd yn y cylch cyntaf.
44. Cydnabuwyd hyder cynyddol llais CNC ond gofynnwyd sut y byddai'r cyfeiriad yn cael ei gydgyssylltu'n fewnol. Cadarnhaodd y Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Strategaeth Adnoddau Naturiol a Lles, fod fframwaith wedi'i sefydlu ledled Cymru mewn ymateb i'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR), a oedd yn sicrhau cysondeb, yn magu hyder ac yn galluogi rhannu dysgu. Roedd y llais cyffredin hwn yn ymwneud â chyflawni'r pedwar nod ar Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) ac integreiddio'r negeseuon hynny i'r fframwaith. Byddai Natur a Ni yn cael ei gynnwys yn y fframwaith hefyd, gan ddarparu rhywfaint o'r cyfeiriad angenrheidiol. Byddai meithrin ymddiriedaeth a datblygu cysylltiadau â phartneriaid yn allweddol i ddylanwadu'n llwyddiannus ar y meddylfryd ar y daith i'r asesiadau. Nodwyd cyrhaeddiad ac adnoddau cyflenwi'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
45. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd am y gofynion ariannol ac adnoddau a sut roedd y rhain yn gysylltiedig â'r Ymarfer Llinell Sylfaen. Cadarnhawyd bod penderfyniadau wedi'u gwneud yn ddiweddar ar statws parhaol rhai o'r staff sy'n gysylltiedig â hyn.
46. Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith y gallai'r cylch trafod hwn fod yn heriol, yn enwedig ym maes polisi cynllunio, a chynigiodd y dylid newid yr argymhelliad i gynnwys tri aelod o'r Bwrdd yn hytrach nag un yn y rôl graffu ddirprwyedig. Roedd yr Athro Calvin Jones wedi mynegi diddordeb cyn y cyfarfod. Gwirfoddolodd Paul Griffiths a Geraint Davies i gael eu cynnwys yn y ddirprwyaeth. Diolchodd y Cadeirydd iddynt a chynigiodd ei gefnogaeth i'r broses hefyd.

47. Cymeradwyodd y Bwrdd y camau arfaethedig fel y'u hargymhellwyd yn y papur yn amodol ar gynnwys aelodau ychwanegol o'r Bwrdd yn y rôl graffu ddirprwyedig fel y nodir uchod.

CYMERADWYWYD: Yr argymhellion yn y papur yn amodol ar gynnwys aelodau ychwanegol o'r Bwrdd yn y rôl graffu ddirprwyedig.

Eitem 10. Newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol (SaLS)

Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd

48. Rhoddodd y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd drosolwg o'r cynnig ynghylch rhannu gwybodaeth a data. Byddai'n gwahaniaethu rhwng cytundebau a oedd yn ymwneud â rhannu data yn unig yn hytrach na chytundebau a allai gynnwys goblygiadau cyllid neu adnoddau, a oedd eisoes wedi'u cynnwys yn y SaLS.
49. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd am eglurhad ynghylch a oedd hyn yn cyfeirio at ddata personol hefyd. Cadarnhawyd bod data personol yn dod o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Awgrymwyd bod y rhan hon o'r SaLS yn cyfeirio at ddata personol dienw.
50. Cytunwyd y byddai'r Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd yn gofyn am eglurhad ar hyn ac yn dosbarthu'r wybodaeth i'r Bwrdd. Yna, gofynnir am gymeradwyaeth i'r newidiadau drwy ohebiaeth.

CAM GWEITHREDU: Y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd i ofyn am eglurhad ar y cyfeiriad at ddata personol yn y SaLS a dosbarthu'r wybodaeth i'r Bwrdd. Gofyn am gymeradwyaeth i'r newidiadau i'r SaLS drwy ohebiaeth.

Eitem 11: Strategaeth Ddigidol

Cyflwynydd: Catrin Hornung, Pennaeth Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol; Naomi Lawrence, Pennaeth Profiad y Cwsmer; Heledd Evans, Arweinydd Tîm Gwasanaethau Digidol; Christopher Collins, Pennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth; Martin Parkinson, Pennaeth TGCh

51. Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem, gan dynnu sylw at y gwaith a oedd wedi cael ei wneud a chydabod bod hyn yn ymwneud cymaint â thrawsnewid busnes a sut roedd CNC yn ymwneud â'i gwsmeriaid a'r bobl yr oedd yn eu gwasanaethu â gwasanaethau digidol, ac roedd yn nodi newid sylfaenol yn y ffordd y byddai CNC yn gweithio. Byddai angen cydfynd â'r dull gweithredu ledled Cymru.
52. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol y cyddestun ar gyfer y drafodaeth ac esboniodd rywfaint o gefndir y gwaith ar hyn, a oedd wedi ystyried rhoi'r cwsmer wrth wraidd yr hyn roedd CNC yn ei wneud. Roedd ymgysylltu wedi digwydd ar draws y busnes. Roedd cyfle i fod yn fwy effeithlon ac effeithiol, yn fewnol ac yn allanol.
53. Rhoddodd y Pennaeth Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol gyflwyniad, gan dynnu sylw at y ffaith bod hon yn strategaeth uchelgeisiol gyda her o ran cyflawni. Gofynnwyd am gefnogaeth gan y Bwrdd ar y strategaeth lefel uchel cyn i'r gwaith symud i'r broses fapio, blaenoriaethu a chynllunio ar gyfer cyflawni. Disgrifiwyd cefndir datblygu'r strategaeth. Rhannwyd straeon defnyddwyr go iawn a oedd yn manylu ar rai o'r heriau a gafwyd a'r atebion a roddwyd ar waith.
54. Ystyriodd aelodau'r Bwrdd y wybodaeth a gyflwynwyd. Roedd aelodau'r Bwrdd yn cefnogi ethos y strategaeth, yn enwedig y dyhead i wella gwasanaethau cwsmeriaid. Fodd bynnag, codwyd ymholiadau ynghylch lefelau'r adnoddau sydd ar gael, a rhybuddwyd y

tîm yn erbyn ceisio cael atebion cyflym. Argymhellwyd hefyd fod angen ystyried y gwasanaethau cwsmeriaid nad ydynt yn uniongyrchol a'r canlyniadau strategol nad ydynt yn gysylltiedig â chyflenwi i gwsmeriaid, yn enwedig data. Awgrymwyd bod y strategaeth fel y'i cyflwynwyd yn fwy o ddatganiad o ddyhead heb gyllid, llywodraethu a manylion y mynediad at sgiliau sydd ar waith. Argymhellwyd y byddai angen dull systematig o ymdrin â'r llu o deithiau gan ddinasyddion ac y byddai mabwysiadu'r datganiad yn ymwneud mwy â chefnogi'r dadansoddiad a'r dasg o newid y ffordd roedd CNC yn cyflawni ei fusnes.

55. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch allgau digidol a sut i ymgysylltu â'r rhai na allent gymryd rhan yn yr amgylchedd digidol. Cytunwyd bod y cysylltiad ag Amrywiaeth a Chynhwysiant yn bwysig. Tynnwyd sylw at y ffaith bod yr ymchwil i ddefnyddwyr yn cynnwys yr holl ddefnyddwyr, ac y byddai mapio teithiau cwsmeriaid yn tynnu sylw at feysydd sy'n peri anhawster. Awgrymwyd y gallai edrych ar enghreifftiau o dechnoleg gynorthwyol a oedd yn cael ei defnyddio gan sefydliadau eraill fod yn werthfawr. Argymhellwyd y byddai angen dull analog wrth gefn ar gyfer gwasanaethau digidol er mwyn sicrhau gwydnwch. Sicrhawyd aelodau'r Bwrdd bod dysgu seiberddiogelwch yn digwydd a bod cynllunio parhad busnes yn cael ei adolygu.

56. Nododd Peter Rigby, Cadeirydd yr EAC, fod yr EAC wedi cadarnhau bod dyletswydd ar CNC i sicrhau bod ei dystiolaeth ar gael i bobl a oedd am ei defnyddio. Cydnabuwyd bod data a digidol yn gysylltiedig a nodwyd bod trafodaeth ddiweddar wedi'i chynnal yn yr ET ar ddata.

57. Trafodwyd adnoddau'n fanwl. Roedd trafodaethau ar y gyllideb wedi'u cynnal ynghylch effeithlonrwydd a syniadau buddsoddi i arbed. Byddai cais yn cael ei baratoi i fwrw ymlaen â'r gwaith. Byddai dysgu gyda sefydliadau eraill yng Nghymru a oedd yn ymgymryd â phroses debyg yn bwysig. Cydnabuwyd y byddai ymgymryd â'r newid trawsnewidiol hwn yn heriol ac y gallai fod angen help o'r tu allan i flaenoriaethu'r dull gweithredu.

58. Trafodwyd y ffordd ymlaen. Cytunwyd y byddai angen datblygu cynllun ar ymgysylltu, adnoddau a mapio digidol.

CAM GWEITHREDU: Cynllun cychwynol ar gyflwyno'r Strategaeth Ddigidol i'w ddatblygu a'i gyflwyno i gyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol.

CYMERADWYWYD: Y Strategaeth Ddigidol

Eitem 12: Adolygiad o Ddiogelwch Coedwigaeth

Cyflwynwyr: Charlotte Morgan, Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch; Dominic Driver, Pennaeth Stiwardiaeth Tir; Elsie Grace; Pennaeth Datblygu Masnachol Cynaliadwy; Gavin Bown, Pennaeth Gweithrediadau Canolbarth Cymru; Paul Johnston, Rheolwr Gwerthiant a Marchnata; Adrian Hodgkinson, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

59. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau yr eitem a chroesawodd y cynrychiolydd o'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). Adroddwyd bod coedwigaeth yn rhan o'r sector amaethyddol at ddiben adrodd am ddigwyddiadau a bod y duedd ar gyfer marwolaethau yn y sector hwn wedi aros yn debyg dros yr 20 mlynedd blaenorol. Roedd gwaith wedi bod yn cael ei wneud gyda chwaer-sefydliadau ledled y DU i weithio tuag at newid sylweddol. Eglurwyd y byddai'r dull a arweinir gan y diwydiant a'r dull rheoleiddiol yn arwain at yr un canlyniad, felly'r argymhelliad oedd y dylid dilyn y dull a arweinir gan y diwydiant ond gyda ffocws ar arweinyddiaeth.

60. Tynnodd y Pennaeth Stiwardiaeth Tir sylw at yr angen i sicrhau bod pawb yn ymwybodol, er y byddai CNC yn rhan fawr o'r newid, fod eraill a fyddai'n cymryd rôl arweiniol hefyd.
61. Rhoddodd Adrian Hodkinson, a oedd yn cynrychioli'r HSE, drosolwg o gyfradd yr anafiadau difrifol ac angheuol mewn coedwigaeth, a oedd wedi aros yn eithaf sefydlog, er ei bod yn ymddangos bod tuedd tuag at ffigurau'n gwaethygu. Croesawodd yr HSE adolygiad cryf CNC ar y mater hwn ac roedd yn falch o fod yn rhan ohono. Croesawyd y dull arwain.
62. Ystyriodd aelodau'r Bwrdd gynnwys y diweddariad a gofynnwyd pam nad oedd y duedd yn gwella a beth arall y gellid ei wneud. Cadarnhaodd Mr Hodkinson fod yr ystadegau tymor hwy'n dangos bod y niferoedd yn arbennig o uchel mewn perthynas â llifau cadwyn a lle nad oedd mecaneiddio'n bosibl. Nodwyd bod arweinyddiaeth gref a rheoli risg ar y safle yn y diwydiannau adeiladu a chwarela wedi bod yn effeithiol iawn, ac roedd yr HSE yn falch o weld ffocws CNC ar y dull hwn.
63. Nododd aelodau'r Bwrdd fod y PaRC wedi adolygu'r mater hwn a bod digwyddiadau'n ymwneud ag isgcontractwyr yn ymddangos yn fwy cyffredin, a nodwyd y byddai her o ran y ffaith bod coedwigaeth yn tueddu i olygu gweithio o bell, felly byddai'r hyn sy'n cyfateb i reolwr safle yn fwy anodd a chostus. Disgrifiodd y Rheolwr Gwerthiant a Marchnata Gytundeb Diogelwch y Diwydiant Coedwigaeth (FISA), a oedd yn nodi prif rolau a dyletswyddau safle gwaith coedwigaeth. Roedd FISA wedi dechrau llunio fframwaith ar gyfer rheolwyr gwaith coedwigaeth i ddangos cymhwysedd, a byddai CNC yn cymryd rôl flaenllaw pan fyddai hyn ar gael.
64. Nododd aelodau'r Bwrdd bryderon difrifol am y ffigurau ar gyfer marwolaethau. Nodwyd hefyd, gan fod CNC ddau gam i ffwrdd o'r gwaith cwmpo coed, y byddai angen i'r dull o ymdrin â diogelwch gael ei gipio drwy'r broses werthu. Eglurodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau y dull gwerthu, gan ddisgrifio nad oedd mor bell ag yr oedd yn ymddangos, ac esboniodd rôl arwain CNC o ran dylanwadu ar y sector. Esboniodd y Pennaeth Stiwardiaeth Tir y dewis i symud i ffwrdd o'r rôl gynaeafu i gcontractau allanol, ond o fewn fframwaith clir, a phwysleisiodd ddyfnder y teimlad ynghylch pa mor bwysig oedd hi i bawb fod pawb yn ddiogel. Tynnwyd sylw at y ffaith bod perthynas wedi'i therfynu gyda chontractwr oherwydd pryderon diogelwch. Disgrifiodd y Rheolwr Gwerthiant a Marchnata ddylanwad CNC ar y broses werthu a chadarnhaodd na fyddai ceisiadau'n cael eu derbyn ar werthiannau oni bai bod dull cryf o ymdrin ag iechyd a diogelwch wedi'i ddangos.
65. Cwestiynwyd yr hyn a ddysgwyd o derfynu'r berthynas â'r contractwr a ystyriwyd yn anaddas i weithio ac felly a oedd y dull porth yn addas i'r diben. Esboniodd y Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch y cwestiynau a'r asesiadau wedi'u teilwra sy'n ofynnol gan gcontractwyr a'r dull o gynnal arolygiadau a chyfarfodydd cyn gwaith. Cadarnhawyd bod polisi a gweithdrefn yn cael eu creu i ffurfioli hyn. Cwestiynwyd rheolaeth ar is-gcontractwyr yn y broses hon. Disgrifiodd y Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch y weithdrefn a'r dystiolaeth a oedd yn ofynnol gan gcontractwyr ar hyn.
66. Nodwyd y rhestr o gamau gweithredu pellach a oedd wedi'i chynnwys yn y papur. Dywedodd aelodau'r Bwrdd y dylai hyn gynnwys addysgu pobl ifanc am ddiogelwch, yn enwedig y rhai nad oeddent wedi mynychu'r coleg i ddysgu coedwigaeth. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau y byddai hyn yn rhan o rôl arwain CNC o ran mabwysiadu dull diogelwch ymddygiadol.
67. Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm am eu gwaith ar y mater hwn.

Eitem 13: Adolygiad o Ddull CNC o Reoleiddio Saethu a Dal Adar Gwyllt: Trwyddedau Cyffredinol

Cyflwynwyr: Sarah Wood, Rheolwr Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau; Nadia De Longhi, Pennaeth Rheoleiddio a Thrwyddedu

Yn bresennol: Adam Cole-King, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Polisi Bioamrywiaeth; Patrick Lindley, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Cynefinoedd a Rhywogaethau Daearol; Katherine Morris, Prif Gynghorydd, Gwasanaethau Cyfreithiol

68. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol EPP yr eitem a rhoddodd drosolwg o'r broses adolygu ac ymgynghori a dyletswydd CNC i wneud hyn.
69. Rhoddodd y Rheolwr Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau gyflwyniad ar yr adolygiad o'r dull o reoleiddio saethu a dal adar gwyllt yng nghyd-destun trwyddedau cyffredinol, gan dynnu sylw at y ffaith bod y gwaith a gyflwynwyd wedi'i ddatblygu gan dîm arbenigol. Esboniwyd cefndir y trwyddedau. Roedd adar gwyllt yn cael eu gwarchod gan y gyfraith ond, o dan rai amgylchiadau, gellid rhoi trwyddedau i ganiatáu iddynt gael eu lladd neu eu dal. Cynhaliwyd adolygiad cyflym yn 2019 ac ymrwymwyd i adolygiad llawn bryd hynny. Rhannwyd prif elfennau'r adolygiad hwn. Roedd adolygiad barnwrol o drwyddedau cyffredinol wedi'i amddiffyn yn llwyddiannus ac roedd yr adolygiad wedi mynd rhagddo. Disgrifiwyd yr argymhellion yn y papur. Tynnwyd sylw at y ffaith y byddai'r rhain yn adeiladu ymhellach ar y newidiadau a weithredwyd yn yr adolygiad cyflym. Tynnwyd sylw at y prif newidiadau, a disgrifiwyd y camau nesaf yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd.
70. Trafododd aelodau'r Bwrdd gynnwys yr adolygiad a'r argymhellion. Nododd rhai aelodau o'r Bwrdd, er bod hwn yn ddarn o waith trylwyr a chlr iawn, fod llythyrau wedi'u derbyn gan bartïon â buddiant a oedd wedi mynegi pryderon am golli adar o bryder cadwraethol ac nad oedd digon o hygredd wedi'i roi i'r rhai a oedd yn berchen ar dir ac yn rheoli tir. Gofynnwyd a oedd digon o waith yn cael ei wneud gyda thirfeddianwyr ac argymhellwyd y dylid gwneud mwy wrth symud ymlaen. Roedd pryderon bod dull cadwraeth pwysig ar gyfer cyfran o'r gymuned wledig yng Nghymru wedi'i ddileu. Tynnodd aelodau'r Bwrdd sylw hefyd at eu pryderon ynghylch y risg y bydd poblogaethau o adar o bryder cadwraethol yn cael eu colli.
71. Datganodd yr Athro Steve Ormerod wrthdaro buddiannau, gan y bu'n Gadeirydd yr RSPB tan bum mlynedd yn ôl. Yn ogystal â'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd gan y tîm, nododd fod tystiolaeth ar gael hefyd gan Ymddiriedolaeth Adareg Prydain a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, a oedd wedi edrych ar gadernid y dystiolaeth o effaith ar unigolion a phoblogaethau. Byddai'r dystiolaeth annibynnol yn bwysig wrth symud ymlaen ac roedd wedi'i defnyddio gan y tîm. Nodwyd bod meysydd i'w gwella mewn trwyddedau cyffredinol yn ymwneud ag adrodd ac adborth. Gofynnwyd a oedd y dull rheoleiddio llai manwl a gynigiwyd yn gyson â meysydd eraill lle'r oedd CNC yn gweithredu fel rheoleiddiwr ac a oedd cyfleoedd i gasglu mwy o ddata. Gofynnwyd hefyd a ellid gwneud gwelliannau i'r broses o adnabod trapiau cawell er mwyn mynd i'r afael â defnydd anghyfreithlon.
72. Nododd y Rheolwr Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau y dull o ymdrin â thrwyddedau cyffredinol fel mecanwaith ar gyfer trwyddedu cadwraeth a phwysleisiodd fod yr holl adar gwyllt yn cael eu diogelu a bod mecanwaith i wneud cais am drwydded benodol i ganiatáu i aderyn gwyllt gael ei reoli. Nid oedd yn ymwneud â rhoi'r gorau i reoli ysglyfaethwyr, ond â'r mecanwaith a ddefnyddir i wneud hyn. Lle defnyddiwyd y dull gweithredu, esboniwyd y byddai trwydded cyffredinol yn briodol, y byddai hyn yn gweithredu fel dull rheoleiddio llai caeth ac felly na fyddai angen cofrestru ac adrodd. Esboniwyd bod modd adnabod trapiau cawell yn aml oherwydd y tir lle cafwyd hyd iddynt ac efallai na fyddai cyflwyno gofyniad i gofrestru trapiau cawell yn mynd i'r afael â'r

problem. Fodd bynnag, roedd y dull gweithredu yn yr Alban, lle mae angen cofrestru trapiau cawell, yn cael ei wyllo'n ofalus.

73. Pleidleisiodd aelodau'r Bwrdd ar a ddylid cymeradwyo'r dull gweithredu fel yr argymhellwyd yn y papur. Pleidleisiodd chwe aelod o blaid a phleidleisiodd tri yn erbyn.

CYMERADWYWYD: Y dull o Reoleiddio Saethu a Dal Adar Gwyllt: Trwyddedau Cyffredinol

CYMERADWYWYD: Y camau nesaf fel y'u nodir yn y papur.

Eitem 14: Rhagolwg y Bwrdd

Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd

74. Ystyriodd y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd fod y papur wedi'i ddarllen. Amlinellwyd fformat y cyfarfod ym mis Mai ac esboniwyd y byddai'n cynnwys ymweliadau safle dewisol ychwanegol. Gwahoddwyd y Bwrdd i ofyn am unrhyw ymweliadau safle ychwanegol.

Eitem 15: UNRHYW FATER ARALL

75. Myfyriodd aelodau'r Bwrdd ar gyfarfod y Bwrdd yn gyffredinol. Cytunwyd bod ansawdd y drafodaeth yn gwella drwy gyfarfod wyneb yn wyneb. Roedd y dechnoleg wedi gweithio'n eithriadol o dda, a diolchwyd i'r tîm. Byddai'r dysgu o'r profiad hwn yn cael ei ddatblygu.
76. Cododd Geraint Davies fater gyda chontractau defnydd tir a'r llwyth gwaith ar staff sy'n ymwneud â'r maes hwn. Cytunwyd y byddai Geraint Davies yn trafod hyn gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau all-lein ac yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd fel y bo'n briodol.

- Daeth cyfarfod y Bwrdd i ben -

Eitem 16. Sesiwn Holi ac Ateb Gyhoeddus

77. Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyhoedd ac esboniodd y modd y cynhelir y cyfarfod. Byddai'r cwestiynau a'r atebion yn cael eu cyhoeddi ar y wefan a byddai dogfen fyw 'Cwestiynau Cyffredin' yn cael ei chreu ar y wefan i roi ymateb llawnach i'r cwestiynau ar faterion ansawdd dŵr nag y byddai amser y sesiwn yn ei ganiatáu. Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan y cyhoedd.
78. Gofynnodd aelodau'r cyhoedd gwestiynau i'r Bwrdd a darparwyd ymatebion.

- Daeth y Cyfarfod Cyhoeddus i ben -

Cyfarfod Bwrdd CNC Sesiwn Gyhoeddus – 24 Mawrth 2022

Sesiwn Holi ac Ateb Gyhoeddus

1. Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyhoedd ac esboniodd y modd y cynhelir y cyfarfod. Byddai'r cwestiynau a'r atebion yn cael eu cyhoeddi ar y wefan a byddai dogfen fyw 'Cwestiynau Cyffredin' yn cael ei chreu ar y wefan i roi ymateb llawnach i'r cwestiynau ar faterion ansawdd dŵr nag y byddai amser y sesiwn yn ei ganiatáu. Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan y cyhoedd.
2. Gofynnodd Mr Kim Waters, a oedd yn cynrychioli Undeb Afonydd Cymru, gwestiynau yn ymwneud â'r afonydd ACA, Afon Gwy ac Afon Wysg, a'r bwriad i'w dychwelyd i fanyleb a phwy oedd yn atebol am hyn? Pryd fyddai CNC yn cyrraedd ei dargedau ar y broses fonitro? Beth oedd y sefyllfa gyfreithiol bresennol o ran methiant CNC i reoli ACA?
3. Ymatebodd Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru, fel yr arweinydd ar faterion ansawdd dŵr, i'r cwestiwn. Cynhyrchwyd adroddiad ym mis Ionawr 2021 a oedd yn edrych ar lefelau maetholion mewn afonydd ACA yng Nghymru, a datgelodd nad oedd rhai o'r afonydd ACA yn bodloni'r safonau newydd ar gyfer ffosffadau, er eu bod wedi bodloni'r hen safonau. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd edrych ar yr achosion drwy weithio mewn partneriaeth â'r llywodraeth, awdurdodau lleol, y trydydd sector, tîrfeddianwyr ac aelodau'r cyhoedd fel yr allwedd i gynnydd yn y dyfodol ar y mater hwn. Roedd Pennaeth Gweithrediadau Canolbarth Cymru yn arwain y gwaith yn lleol ar Afon Gwy ac Afon Wysg. Roedd ymgysylltu â rhanddeiliaid yn eithriadol o bwysig i CNC a chroesawyd yr angerdd a'r brwdfrydedd a ddangoswyd gan nifer y cwestiynau a ofynnwyd ar y mater hwn. Roedd y ffyrdd gorau o gydweithio ar y mater hwn yn cael eu hystyried fel rhan o'r camau nesaf.
4. Ymatebodd Mr Waters drwy annog CNC i osod dyddiad targed clir ar gyfer cael yr afonydd ACA yn ôl i gyflwr da erbyn cyfarfod nesaf y Bwrdd.
5. Gofynnodd Mr Waters am y diffyg cynllun eogiaid a brithyll môr a gofynnodd beth fyddai'n cael ei gyflawni, erbyn pa ddyddiad a phwy fyddai'n atebol?
6. Ymatebodd y Prif Gynghorydd, Pysgodfeydd, i'r cwestiwn ac eglurodd fod y cynllun gweithredu'n crynhoi'r camau gweithredu a'r gweithgareddau niferus a oedd yn parhau ac yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau Busnes fel Arfer, prosiectau a gweithgareddau penodol a gweithio mewn partneriaeth. Roedd y cynllun i'w weld ar y wefan ac roedd yn cynnwys y dyddiadau amrywiol sy'n gysylltiedig â'r gwahanol weithgareddau hynny. Cydnabuwyd nad oedd pwynt terfyn penodol ar gyfer y cynllun cyffredinol gan fod y rhain yn gamau gweithredu a fyddai'n parhau am gyfnod hir. Gwahoddwyd unrhyw bryderon penodol i gael eu codi ar wahân. Ymatebodd Mr Waters drwy ddweud bod y ffaith nad oedd unrhyw ddyddiad yn ddiffyg sylfaenol. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai ymateb ysgrifenedig llawn yn dilyn.

7. Cododd Mr Waters bryderon ynghylch hanes Dŵr Cymru mewn perthynas â gollyngiadau carthion o Orlifoedd Stormydd Cyfunol (CSOs) a gofynnodd gwestiynau am erlyniadau, dirwyon a chmau cyfreithiol a gymerodd CNC yn erbyn Dŵr Cymru a'r amserlen a'r cynllun ar gyfer sicrhau bod gollyngiadau carthion yn dod i ben.
8. Ymatebodd Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru i'r cwestiwn. Nodwyd bod hyn yn ymwneud ag achosion gorfodi sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Roedd y data a oedd ar gael o 2013 hyd heddiw ac yn ymwneud â'r achosion yn erbyn cwmnïau dŵr, ac fe'i rhestrwyd fel a ganlyn: 13 erlyniad, 24 rhybudd ffurfiol, pedwar cam gorfodi sifil, 213 o lythrau rhybudd, 31 o achosion o gyngor ac arweiniad. Ni ellid gwneud sylwadau ar achosion parhaus gan y gallai hyn ragfarnu achosion cyfreithiol sydd ar y gweill. Roedd rhywfaint o'r data hwn wedi'i grynhoi ac roedd wrthi'n cael ei rannu ymhellach yn ddata mwy lleol, a fyddai'n darparu mwy o ddata ar amserlenni a chysylltiadau â digwyddiadau. Byddai hyn yn cael ei rannu pan fyddai ar gael.
9. Dywedodd y Cadeirydd wrth Mr Waters fod y gwaith yn mynd rhagddo, a bod cynnydd yn cael ei wneud gyda'r cwmnïau dŵr ac Ofwat ac y byddai cyhoeddiadau ar hyn yn cael eu gwneud yn ystod yr wythnosau nesaf. Tynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol EPP sylw at y ffaith y byddai CNC yn mynd i'r adolygiad nesaf o brisiau gyda'r cwmnïau dŵr ac yn siarad am y rhaglen amgylcheddol a buddsoddi yn y dyfodol. Roedd y drafodaeth gynharach yn eitem 6 ar yr agenda wedi cynnwys ymgorffori dangosyddion perfformiad allweddol ar reoleiddio a gorfodi o fewn y mesurau perfformiad a adroddwyd.
10. Mynegodd Mr Waters bryderon difrifol iawn ynghylch perfformiad Dŵr Cymru a phwysodd ar CNC i ddefnyddio ei holl bwerau i ddwyn y cwmnïau dŵr i gyfrif. Dywedodd Mr Waters ei bod yn warthus mai Afon Wysg, fel afon ACA, oedd y seithfed afon waethaf yn y DU. Canmolwyd cynnwys y cyfarfod ond gofynnodd Mr Waters am fwy o amser ar gyfer cwestiynau cyhoeddus yn y cyfarfod nesaf. Ymatebodd y Cadeirydd drwy gadarnhau nad oedd unrhyw aelod o CNC o'r farn bod y sefyllfa bresennol yn dderbyniol a bod pawb yn parhau i weithio i symud materion yn eu blaen yn gyflymach.
11. Cododd Mr Glynn Evans, a oedd yn cynrychioli Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain (BASC), y pwyntiau a'r cwestiynau canlynol. Yn y cyflwyniad cynharach ar yr Adolygiad o Adar Gwyllt, roedd yn ymddangos bod cysylltiad cynhenid rhwng y trwyddedau cyffredinol a phenodol, ond nid oedd yn ymddangos bod manylion y trwyddedau penodol wedi'u cyflwyno i'r Bwrdd. Roedd yn ymddangos bod rhywfaint o ddryswch yn nogfennau CNC ynghylch yr amserlenni ar gyfer prosesu'r trwyddedau penodol. Nodwyd ei bod yn broses gymhleth iawn, felly pa gamau y byddai CNC yn eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r sefyllfa, yn enwedig gyda nifer y bobl y byddai'n rhaid iddynt wneud cais am drwyddedau penodol ac a fyddai pethau fel gwell gwasanaeth ymgeisio neu fathau eraill o drwyddedu megis trwyddedau dosbarth yn cael eu hystyried? A oedd y Bwrdd yn hyderus, heb i'r wybodaeth am drwyddedau penodol gael ei chyflwyno, fod effaith newidiadau i drwyddedau cyffredinol ar rywogaethau sy'n agored i niwed yng Nghymru wedi'i hasesu'n briodol?

12. Ymatebodd y Rheolwr Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau i'r pwyntiau a'r cwestiynau a nododd fod Mr Evans yn gywir i godi'r berthynas rhwng trwyddedau cyffredinol a thrwyddedau penodol. Cynigiwyd ymddiheuriad am unrhyw ddrysych ynglŷn â'r cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer prosesu trwyddedau penodol, a chadarnhawyd bod y tîm Trwyddedu Rhywogaethau yn gobeithio prosesu ceisiadau newydd neu adnewyddiadau o fewn 40 diwrnod gwaith. Cydnabuwyd bod hyn yn ymddangos fel amser hir, ond roedd ffigurau 2021 wedi'u hadolygu a'r amser cyfartalog a gymerwyd i brosesu ceisiadau newydd neu adnewyddiadau yn ymwneud â rheoli adar gwyllt yn angheuol oedd 9.5 diwrnod gwaith, gyda 58% yn cael eu prosesu mewn pum diwrnod gwaith neu lai. Roedd adnoddau a chapasiti ychwanegol wedi'u cyflwyno i'r tîm i brosesu ceisiadau'n gyflym er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr. Ystyriodd yr eitem heddiw ganlyniad yr adolygiad yng nghyd-destun trwyddedau cyffredinol, ond roedd gwaith yn cael ei wneud ar drwyddedau penodol hefyd, llawer ohono y tu ôl i'r llenni, megis canllawiau staff, ffurflenni cais, ffurflenni adrodd ac eglurder yr amodau ar gyfer trwyddedau penodol.
13. Ailadroddodd Mr Evans y cwestiwn a oedd y Bwrdd yn teimlo'n hyderus bod effaith newidiadau i drwyddedau cyffredinol wedi'i hasesu'n briodol heb y dystiolaeth ar drwyddedau penodol. Cadarnhaodd y Cadeirydd y bu ystyriaeth drylwyr o'r trwyddedau cyffredinol, sut y cawsant eu cymhwyso a sut yr oeddent wedi'u cysylltu â'r trwyddedau penodol. Esboniodd Mr Evans y byddai'n disgwyl cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau oherwydd nifer y rhywogaethau sy'n symud i'r gyfundrefn drwyddedu benodol a bod hyd yn oed pedwar neu bum diwrnod ar drwydded gadwraeth yn cael ei ystyried yn amser eithaf hir. A fyddai trwyddedau dosbarth yn cael eu hystyried?
14. Esboniodd y Cyfarwyddwr Gweithredol EPP fod trwyddedau dosbarth, cyffredinol a phenodol wedi'u hystyried ac y daethpwyd i'r casgliad, pe bai egwyddorion rheoleiddio llai caeth yn berthnasol, y byddai trwydded cyffredinol yn briodol, ond pe bai angen mwy o gyfyngiad, yna byddai hyn ym maes trwydded benodol. Dyma'r sefyllfa a gyflwynwyd i'r Bwrdd heddiw ac a drafodwyd.
15. Cododd Mr Evans yr ystyriaeth bwysig i'r rhai sy'n defnyddio trwyddedu cyffredinol, a argymhellwyd yn y trwyddedau cyffredinol tebyg yn Lloegr, o ran lleihau'r mater o adar ifanc dibynnol, drwy reolaeth farwol y tu allan i gyfnod bridio'r adar targed lle bynnag y bo modd. Wrth benderfynu cyflwyno amserlen gul ar gyfer trwyddedau cadwraeth cyffredinol, pa ystyriaethau roedd CNC wedi'u rhoi i'r mater hwn?
16. Ymatebodd y Rheolwr Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau i'r cwestiwn. Diben arfaethedig GL004 oedd gwarchod cywion ac wyau rhywogaethau o bryder cadwraethol a oedd yn wahanol i'r dull gweithredu yn Lloegr. Ystyriwyd y dylid cyfyngu rheolaeth farwol i'r prif dymor bridio adar ac i'r cyfnod yn union cyn hynny pan fo brain yn sefydlu eu tiriogaethau bridio yn gyffredinol. Mewn ymatebion i'r ymgynghoriad, roedd cefnogaeth i'r dull hwnnw, i ddilyn y rhesymeg mai wyau a chywion yw'r buddiolwyr. Cafwyd rhai ymatebion yn erbyn y cynnig hwnnw, a gododd bryder ynghylch lles cywion y rhywogaethau targed. Drwy ganiatáu rheoli brain mor gynnar ag 1 Chwefror, ystyriwyd y byddai hyn yn caniatáu rheolaeth cyn iddynt ddechrau bridio eu hunain a fyddai'n lliniaru rhywfaint o'r effaith. Mewn rhai o'r canllawiau arfer da, gan

gynnwys yr hyn a gynhyrchwyd gan GWCT, awgrymwyd y dylid cyfyngu ar ymdrechion i ddal brain i'r gwanwyn a'r haf, gan mai dyma'r cyfnod mwyaf effeithiol o ran cael gwared ar adar tiriogaethol.

17. Nododd y Cadeirydd fod cwestiwn wedi'i godi gan Robert Griffiths na allai fod yn bresennol yn y cyfarfod.
18. Gofynnodd Mr Gareth Wardell am nifer y gweithwyr CNC sy'n gyfrifol am reoleiddio coedwigaeth, a faint ohonynt oedd yn goedwigwyr proffesiynol achrededig?
19. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau i'r cwestiwn. Roedd gan CNC dîm Rheoleiddio Coedwigoedd ac Iechyd Planhigion yn cynnwys 11 o staff a oedd yn cynnwys y canlynol: un arweinydd tîm; dau uwch swyddog, chwe swyddog coetir rheoleiddiol a dau swyddog cymorth technegol. Roedd dau o'r tîm yn canolbwyntio ar faterion iechyd anifeiliaid. Addysgwyd yr holl dîm i safonau uchel, ac roedd ganddynt gymwysterau perthnasol yn amrywio o HNC i MSc ac roedd ganddynt gymwysterau priodol ar gyfer rheoleiddio yn y sector coedwigaeth. Anogwyd holl aelodau'r tîm i ddod yn aelodau o gyrrff proffesiynol fel rhan o'u datblygiad. Ar hyn o bryd, roedd pedwar o'r tîm yn Aelodau Cyswllt o Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig ac roeddent yn gweithio tuag at Aelodaeth Broffesiynol. Roedd aelodau eraill o'r tîm yn aelodau o'r Gymdeithas Fioleg Frenhinol a'r Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Nodwyd bod angen cymysgedd o gymwysterau yn y maes rheoleiddio. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r ymateb yn cael ei anfon yn ysgrifenedig.
20. Gofynnodd Mr Wardell os oedd nifer y coedwigwyr achrededig yn yr agwedd reoleiddiol ar waith CNC mor dda, pam y cafwyd cwynion mynych a dilys am ddehongliad cyfreithiol eithafol CNC o geisiadau am drwyddedau cwmpo coed a'r cyflymder araf iawn o ran gwirio ceisiadau Glastir. A oedd angen mwy o goedwigwyr achrededig ar CNC?
21. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau fod CNC o'r farn bod ganddo'r nifer priodol i ymdrin â'r niferoedd sy'n dod drwy'r tîm rheoleiddio a chynllun Glastir. Gellid mynd i'r afael ag unrhyw gwynion penodol all-lein.
22. Gwahoddwyd Dr Gary Smith, Rachell Watson a Simon Jones i ofyn eu cwestiynau, ond roeddent wedi gadael y cyfarfod.
23. Dywedodd Ruth Tudor wrth y Bwrdd ei bod yn berchen ar fferm wrth ochr Afon Dysynni a'i bod wedi sylwi bod y stociau pysgod yn llawer is nag yr oeddent yn arfer bod. Gan fod ei gwybodaeth am yr angen dybryd i lanhau'r dyfrffyrdd yn deillio o'i darllen a'i chysylltiadau ei hun, gofynnodd a oedd CNC yn credu ei fod yn gwneud gwaith digon da o ran cyfathrebu â ffermwyr a oedd am wneud mwy, cefnogi'r rhai a oedd am wneud newidiadau cadarnhaol a chymryd camau yn erbyn y rhai a oedd yn torri'r gyfraith?
24. Ymatebodd Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru i'r cwestiwn. Cydnabuwyd bod llawer o rwystredigaeth a llawer o bobl a oedd am wneud mwy a gweithio gyda CNC. Roedd trafodaethau wedi'u cynnal ar sut y gallai CNC ymgysylltu

mwy ag unigolion, gwahanol sefydliadau a grwpiau. Ar lefel leol, roedd llawer o waith wedi'i wneud dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ar gynhyrchu Datganiadau Ardal a oedd wedi cynnwys sesiynau ymgysylltu â chymunedau, grwpiau ac unigolion ledled Cymru. Pwysleisiwyd nad mater i CNC yn unig oedd datrys yr holl broblemau, ac y byddai cydweithio â thirfeddianwyr, diwydiant, busnesau, sefydliadau statudol eraill ac unigolion yn allweddol ac y byddai sut i gyflawni hyn yn cael ei ystyried yn fanylach dros y misoedd nesaf. Pwysleisiodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw un ar y Bwrdd o'r farn bod y sefyllfa bresennol yn dderbyniol. Byddai angen i bawb weithio gyda'i gilydd i greu clymblaid gweithredu, ac ni fyddai gwelliannau'n cael eu cyflawni drwy reoleiddio a gorfodi yn unig.

25. Tynnodd Zoe Henderson, Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru, sylw at y ffaith bod hyn yn cynnwys llawer o aelodau a oedd â diddordeb gwirioneddol mewn sicrhau bod amaethyddiaeth yn rhoi'r gorau i lygru'r dŵr. Roedd yr aelodau'n cynnwys Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Undeb Amaethwyr Cymru, CLA, cynrychiolwyr pysgota a dŵr. Byddai dolen yn cael ei hanfon at y cofnodion a'r gweithgareddau. Argymhellwyd i Ms Tudor, os yw'n aelod o unrhyw un o'r sefydliadau hyn, y dylai anfon ei barn atynt ar y mater hwn, yn enwedig ar gydweithio yn y gymuned ffermio i lanhau'r afonydd.
26. Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r cyhoedd am eu cwestiynau a chadarnhaodd y byddai cynyddu'r amser ar gyfer cwestiynau cyhoeddus yn cael ei ystyried ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Cyfarfodydd Bwrdd										
Rhif Cam Gweithredu	Categori Cyfarfod	Dyddiad Cyfarfod	Rhif Eitem	Rhif Para	Paper Sponsor	Cam Gweithredu	Perchennog	Dyddiad Gweithredu	Statws	Notes/Updates
2	Cyhoeddus	26/11/2020	6	20	Prys Davies, Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Corfforaethol	CAM GWEITHREDU: Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau i drafod gyda Phennaeth Gweithrediadau'r Gogledd-Ddwyrain i gael trafodaeth bellach gyda'r Bwrdd ar y terfyn 4 awr ar ymateb i ddigwyddiadau.	Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r De	23/06/2022	Parhaus	Ychwanegwyd at y rhestr o eitemau trafod strategol posibl, Cyflwyniadau lleoedd, Sesiynau tystiolaeth ac ymweliadau safle. Awgrymu mai hon yw'r eitem drafod strategol ar gyfer cyfarfod mis Medi'r Bwrdd a'n bod ni'n oedi cwblhau'r thema ar drafodaethau strategol blaenorol i gynnwys hyn. Ychwanegwyd at Flaenraglen mis Tachwedd. I'w ystyried fel rhan o'r eitem ar themâu trawsbynciol Cyflwyno Lleoedd, a smudwyd i gyfarfod mis Gorffennaf y Bwrdd
3	Cyhoeddus	24/03/2021	4	10	Clare Pillman, Prif Weithredwr	CAM GWEITHREDU: Ysgrifenyddiaeth i edrych am gyfle i gynnal Diwrnod Datblygu'r Bwrdd ym mis Gorffennaf i ganolbwyntio ar fyfrio a heriau ar ôl Covid.	Ysgrifenyddiaeth	07/07/2022	Parhaus	Mae'r Cadeirydd wedi cadarnhau y dylid oedi Dyddiau Datblygu'r Bwrdd nes y gellir cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Bydd dyddiad addas yn 2022 yn cael ei gadarnhau.
21	Cyhoeddus	24/03/2022	4	12	Clare Pillman, Prif Weithredwr	CAM GWEITHREDU: Ysgrifenyddiaeth i fynegi diolch y Bwrdd i'r tîm am ei waith ar y Gofrestr Gyhoeddus ar-lein.	Ysgrifenyddiaeth	13/04/2022	Cwblhawyd	E-bost wedi'i anfon at Naomi Lawrence 08/04/22
22	Cyhoeddus	24/03/2022	6	27	Clare Pillman, Prif Weithredwr	CAM GWEITHREDU: Aelodau'r Bwrdd i dderbyn manylion y dull o ddefnyddio tir tra bod plannu coed wedi'i oedi oherwydd gweithgareddau ymgysylltu cymunedol.	Dominic Driver, Pennaeth Stiwardiaeth Tir	06/05/2022	Cwblhawyd	E-bost wedi'i anfon at aelodau'r Bwrdd 08/04/22
23	Cyhoeddus	24/03/2022	6	29	Clare Pillman, Prif Weithredwr	CAM GWEITHREDU: Ychwanegu mwylgloddiau metel at raglen ymweliadau safle'r Bwrdd.	Ysgrifenyddiaeth	06/05/2022	Cwblhawyd	Ychwanegwyd at y rhestr o ymweliadau ar gyfer cyfarfod mis Medi'r Bwrdd
24	Cyhoeddus	24/03/2022	10	50	Prys Davies, Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Corfforaethol	CAM GWEITHREDU: Y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd i ofyn am esboniad o'r cyfeiriad at ddata personol yn y SaLS a dosbarthu'r wybodaeth i'r Bwrdd. Gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer newidiadau i'r SaLS drwy ohebiaeth.	Clare Jones, Prif Gynghorydd Arbenigol, Llywodraethu	06/05/2022	Cwblhawyd	E-bost a chais am gymeradwyaeth wedi'i anfon drwy ohebiaeth 25/04/22
25	Cyhoeddus	24/03/2022	11	58	Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol CCC	CAM GWEITHREDU: Datblygu cynllun cychwynnol ar weithredu'r Strategaeth Ddigidol a'i gyflwyno mewn cyfarfod Bwrdd yn y dyfodol.	Catrin Hornung, Pennaeth Cyfathrebu a Chysylltiadau Cwsmeriaid	23/06/2022	Parhaus	

Papur Bwrdd

	Manylion y Papur
Teitl y Papur:	Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol
Cyfeirnod y Papur:	22-05-B09
Noddwyd y Papur gan:	Clare Pillman, Prif Weithredwr
Cyflwynwyd y Papur gan:	Clare Pillman, Prif Weithredwr
Diben y Papur	Gwybodaeth/Trafodaeth

Cyflwyniad

1. Dri mis ers iddo ddechrau, mae'r rhyfel yn Wcráin yn parhau i fod ar frig yr agenda fyd-eang. Mae'n anochel ei fod yn effeithio arnom ni yng Nghymru, ac er i ni fod wrthi'n archwilio sut y gallwn gynorthwyo'r ymateb dyngarol, rydym wrthi'n cynllunio'r senarios ar gyfer effeithiau posibl arnom ni fel sefydliad hefyd - gan gynnwys ystyried y sbardunau a'r peryglon cysylltiedig o safbwynt newidiadau i'r cyflenwad ynni, defnydd tir a rheoleiddio, a'r effaith ar gostau byw.

Recriwtio Aelodau Staff Uwch

2. Rydym wedi derbyn nifer o geisiadau cryf ar gyfer swydd Pennaeth Datblygu Sefydliadol, a bydd cyfweiliadau'n cael eu cynnal ganol mis Mai.

Ymddeol

3. Rydym yn drist iawn ffarwelio ag un o aelodau staff hynod brofiadol CNC, sef Bob Vaughan, ein Rheolwr Tir Cynaliadwy sy'n ymddeol y mis hwn ar ôl 39 mlynedd gyda ni a'r cyrff a'n rhagflaenodd. Mae Bob wedi gwneud gwaith allweddol mewn meysydd amrywiol gan gynnwys adnoddau ac ansawdd dŵr wyneb a dŵr daear, polisi coedwigaeth, amaethyddiaeth a rheoli defnydd tir, tomennydd gwastraff, rheoli perygl llifogydd, ac ymchwil ac arloesi. Mae wedi bod yn allweddol i'r broses o ddatblygu gwaith adfer mwyngloddiau metel, Grangetown Gwyrddach, Pontbren, Prosiect Slyri a datblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ymysg eraill. Dymunwn y gorau iddo ar gyfer ei gynlluniau yn y dyfodol.

Ymgysylltu Allanol

4. Rwyf wrth fy modd y bydd y Gweinidog yn ymuno â ni ar gyfer ein digwyddiad yn y Senedd, 'Wynebu'r Dyfodol Gyda'n Gilydd' ar 18 Mai, lle byddwn yn trafod yr argyfyngau byd natur a'r hinsawdd a sut y gallwn gydweithio i fynd i'r afael â'u heffeithiau ar ein cymunedau a'n tirwedd.
5. Rydym yn gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i ddatblygu cam nesaf y gwaith sylfaenol, ac aethom ati i gynnal digwyddiad cynhyrchiol gydag uwch swyddogion yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn stadiwm Principality ar 25 Mawrth. Byddaf yn cyfarfod â'r Cyfarwyddwr Cyffredinol newydd ar gyfer Newid Hinsawdd, Tracey Burke, a symudodd o bortffolio'r Economi ddechrau mis Mai.
6. Ers ein cyfarfod diwethaf, rwyf wedi cael nifer o gyfarfodydd cynhyrchiol gyda'r Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC), Confor, y Comisiwn Coedwigaeth, Asiantaeth yr Amgylchedd, Hafren Dyfrdwy, Dŵr Cymru, a Chymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain (BASC). Hefyd, ces gyfle i gyfarfod â chyd-Brif Weithredwyr Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Maes Awyr Caerdydd.
7. Bûm ar ymweliad safle â Dyffryn hardd Dysynni i gyfarfod â chynrychiolydd Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) a'r AS Plaid Cymru Mabon ap Gwynfor, sy'n cynrychioli Dwyfor Meirionnydd. Hefyd, cefais gyfarfod digidol â Chartrefi Cymunedol Cymru a Phrif Weithredwyr y Parciau Cenedlaethol.
8. Yn fwy diweddar, roedd Ceri a minnau wrth ein bodd yn cael y cyfle i deithio i Baris ar gyfer Cynhadledd Asiantaethau Rhyngwladol Diogelu'r Amgylchedd (EPA).

Materion Strategol

Dull CNC o reoleiddio saethu a dal adar gwyllt yng Nghymru

9. Mae copïau rhagolwg o bedair trwydded gyffredinol newydd (GL001, GL002, GL004 a GL005) ar gyfer dulliau angheuol o reoli adar gwyllt yng Nghymru wedi'u cyhoeddi yn dilyn penderfyniadau a wnaed yng nghyfarfod diwethaf Bwrdd CNC. Maent yn ganlyniad dros 18 mis o waith, gan gynnwys dadansoddi dros 600 o ymatebion i'n hymgyngoriad, adolygu'r dystiolaeth wyddonol ac Adolygiad Barnwrol. Ochr yn ochr â'r copïau rhagolwg o'r trwyddedau cyffredinol, ceir adroddiad sy'n crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad, dogfen sy'n esbonio'r penderfyniadau a wnaed gennym a sawl dogfen arall sy'n berthnasol i'n hadolygiad o'r trwyddedau cyffredinol hyn.
10. Mae'r copïau rhagolwg o'r trwyddedau'n cael eu cyhoeddi ymlaen llaw er mwyn cynorthwyo'r broses o ymgysylltu â'r newidiadau a wnaed a rhoi cyfle i ni ddarparu

unrhyw eglurhad os oes angen cyn i'r trwyddedau ddod i rym ar 1 Gorffennaf 2022. Mae'r holl ddogfennau ar gael yn ein canolfan ymgynghori.

Dull gweithredu ar gyfer trwyddedu Adar sy'n Bwyta Pysgod

11. Mae'r Grŵp Cynghori ar Adar sy'n Bwyta Pysgod wedi comisiynu a chasglu ystod eang o dystiolaeth fel rhan o'r ymateb i bryderon am effaith adar sy'n bwyta pysgod ar bysgodfeydd naturiol a physgodfeydd wedi'u stocio yng Nghymru yn ogystal ag ar statws cadwraeth rhywogaethau eogiaid. Mae'r grŵp allanol annibynnol hwn yn dibynnu ar gydweithio cadarn rhwng amrywiaeth o unigolion a sefydliadau sydd â safbwyntiau gwahanol.
12. Mae'r Grŵp Cynghori wedi cyflwyno Adroddiad Terfynol ac Argymhellion ffurfiol i CNC. Byddwn yn ystyried yr argymhellion hyn yn ofalus fel rhan o'n dull o drwyddedu dulliau angheuol o reoli adar sy'n bwyta pysgod yng Nghymru.
13. O ystyried natur ddadleuol y gwaith hwn a lefel y diddordeb a'r ymgysylltiad gan Fwrdd CNC eisoes, bydd Bwrdd CNC yn penderfynu a ddylid cymeradwyo unrhyw newidiadau ac argymhellion i'r dull trwyddedu hwn. Bydd yr eitem hon yn cael ei chynnwys ar agenda cyfarfod Bwrdd CNC ym mis Gorffennaf.

Ymgynghoriad UK ETS

14. Mae Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, sy'n cynnwys Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon, yn ymgynghori ar gynigion i ddatblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (UK ETS) er mwyn sicrhau ei fod yn sbarduno gostyngiadau mewn allyriadau i geisio cyrraedd targedau uchelgeisiol y DU a'i fod yn parhau i ddangos arweiniad y DU ar brisio carbon. Mae CNC yn gyfrifol am yr holl weithgareddau rheoleiddio, cydymffurfio, gorfodi, archwilio a chaniatáu (gan gynnwys trwyddedau newydd, amrywiadau, ildiadau, trosglwyddiadau, dirymiadau, hysbysiadau, newidiadau i weithgarwch/capasiti a cheisiadau wrth gefn newydd-ddyfodiaid) yn ymwneud â masnachu allyriadau yng Nghymru.
15. Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn gweithredwyr ynglŷn ag a yw'r cynigion yn briodol, yn gymesur ac yn ymarferol i gyfranogwyr, a byddwn yn defnyddio adborth er mwyn datblygu polisi a deddfwriaeth seiliedig ar wybodaeth. Hefyd, mae'n gofyn am dystiolaeth yn ymwneud â sawl maes er mwyn llywio'r broses o ddatblygu polisi UK ETS.
16. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 17 Mehefin 2022. Ni fydd CNC yn ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad, ond rydym yn mynychu gweithdai Awdurdod UK ETS ac yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru er mwyn ei helpu i ddatblygu ei pholisi a'i deddfwriaeth.

Trwyddedu Morol – Y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol

17. Derbyniwyd ceisiadau am drwyddedau morol gan awdurdodau lleol Ynys Môn, Abertawe a Chonwy (2) mewn perthynas â datblygiadau sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol ym Mlwyddyn 3. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i'r awdurdodau lleol er mwyn cefnogi'r datblygiadau hyn, gan nodi ei bod yn ofynnol sicrhau pob trwydded a chaniatâd erbyn mis Mawrth 2022 ar gyfer datblygiadau Blwyddyn 3 o'r rhaglen.
18. Llwyddodd y tîm Trwyddedu Morol, ar y cyd â'n cyngorwyr mewnol, i gwblhau'r broses o benderfynu ar bob cais sy'n gysylltiedig â datblygiadau Blwyddyn 3 cyn y dyddiad cau ym mis Mawrth. Bydd hyn yn galluogi'r awdurdodau lleol hyn i sicrhau'r cyllid angenrheidiol gan Lywodraeth Cymru yn awr. Hefyd, rydym wedi hysbysu swyddogion Llywodraeth Cymru am y canlyniad hwn ac rydym yn parhau i gysylltu â nhw'n barhaus mewn perthynas â rhaglen Blwyddyn 4.

Trwyddedu Gosodiadau – Y Sector Bwyd/Llaeth/Diod

19. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn llunio dogfennau cyfeirio technegau gorau sydd ar gael (Nodiadau BREF), sy'n cynnwys y 'technegau gorau sydd ar gael' (BAT) ar gyfer Gosodiadau diwydiannol er mwyn llywio safonau trwyddedu.
20. Roedd angen gweithredu'r nodyn BREF diweddaraf ar gyfer y sector Bwyd, Llaeth a Diod yn ystod 2021/22 drwy amrywiad trwydded, ac effeithiodd hyn ar 23 o safleoedd yng Nghymru. Er mwyn paratoi ar gyfer yr amrywiadau hyn, cyflwynwyd Hysbysiad i ddeiliaid trwydded a oedd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt roi gwybodaeth i CNC am sut y byddent yn bodloni'r safonau BAT newydd. Yn fewnol, sefydlwyd gweithgor i sicrhau bod y safonau newydd yn cael eu gweithredu'n gywir ac yn gyson.
21. Cwblhawyd yr holl amrywiadau angenrheidiol i drwyddedau erbyn mis Ebrill, ymhell cyn ein dyddiad targed ym mis Mehefin, a bydd hyn yn rhoi amser ychwanegol hefyd i ddeiliaid trwydded wneud y newidiadau angenrheidiol i seilwaith eu safleoedd neu eu harferion gwaith er mwyn bodloni'r safonau newydd.

Cais am Amrywio Trwydded Amgylcheddol Aber-wysg

22. Ar 6 Hydref 2021, cafodd CNC gyfarwyddyd gan y Gweinidog i gyfeirio'r cais gan SIMEC Uskmouth Power Limited am amrywio trwydded at Weinidog Cymru i'w benderfynu. Yna cyfeiriwyd y cais at Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) i'w benderfynu ar gais Gweinidogion Cymru. Wedyn, gofynnodd yr ymgeisydd i PEDW gadw'r cais ar encil tan fis Mai 2022.
23. Ar 28 Ebrill, cawsom gadarnhad ysgrifenedig gan PEDW bod y cais wedi'i dynnu'n ôl, a chafodd yr achos ei gau o ganlyniad, heb gymryd unrhyw gamau pellach.

24. Hefyd, rhyddhaodd y rhiant-gwmni Simec Atlantis Energy (SAE) ddatganiad yn datgelu cynlluniau i ddatblygu system storio ynni batri (BESS) ar ei safle yn Aber-wysg, gan gyhoeddi na fyddai'n bwrw ymlaen â'r cynlluniau trosi a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer yr orsaf bŵer.

Natur Am Byth! – Achub rhywogaethau sydd dan fygythiad yng Nghymru

25. Mae ein partneriaeth adfer rhywogaethau flaenllaw 'Natur am Byth!' yn parhau i fod yn hynod weithgar, diolch i gyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru. Ein nod yw atal dirywiad 62 o rywogaethau sydd dan fygythiad yng Nghymru, ac mae 40 ohonynt mewn perygl o ddiflannu os nad ydym yn gweithredu ar unwaith. Rhaid i ni gyflawni'r nod hwn ochr yn ochr â chyflwyno rhaglen ymgysylltu arloesol i gysylltu mwy o bobl â byd natur ac ysbrydoli'r cyhoedd i werthfawrogi rhyfeddodau bywyd gwylt Cymru.

26. Mae'r bartneriaeth rhwng naw sefydliad anllywodraethol amgylcheddol a CNC yn gweithio'n galed i ymgynghori â thirfeddianwyr, cymunedau ac ystod amrywiol o bobl a fyddai'n elwa fwyaf o gysylltu mwy â byd natur. Bydd y dystiolaeth a gesglir yn dangos yr angen am gyfnod cyflawni cyfalaf pedair blynedd er mwyn cefnogi ein cais am gyllid cam 2 i'r Loteri Genedlaethol. Ers mis Medi diwethaf, mae dros 850 o bobl wedi mynychu gweithgaredd neu gyfarfod ymgynghori Natur am Byth neu wedi ymgysylltu'n rhithwir drwy 120 o gyfleoedd ymgysylltu ar wahân. Nod ein rhaglen yw mynd i'r afael â'r heriau anoddaf sy'n wynebu'r rhywogaethau sydd dan y bygythiad mwyaf, felly bydd cydweithio â phartneriaid a'r cyhoedd yn allweddol i'n llwyddiant.

Materion Gweithredol

Gwella Ansawdd Dŵr Afon yng Nghymru

27. Ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd, rydym yn parhau i adolygu Ansawdd Dŵr yn CNC, gan ymateb i gyfarwyddyd y Bwrdd i edrych yn fanylach ar ein sylfaen dystiolaeth; ein blaenoriaethau; a'n huchelgais ar gyfer y dyfodol. Siân Williams sy'n arwain y gwaith hwn, yn ogystal â chynnal trosolwg o'r broses o gyflawni holl waith CNC yn ymwneud ag Ansawdd Dŵr.

28. Rydym yn gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, a bydd Siân a Syr David Henshaw yn cyfarfod â'r Gweinidog cyn bo hir er mwyn ceisio dysgu mwy am flaenoriaethau'r llywodraeth ar gyfer dŵr yng Nghymru yn y dyfodol. Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ein strategaethau a'n cynlluniau gwaith ein hunain yn cyd-fynd â chyfeiriad y Gweinidog.

29. Mae datblygu'r sylfaen dystiolaeth gywir yn hollbwysig, ac fel rhan o'r gwaith o adolygu'r uchelgais yn y dyfodol, byddwn yn adolygu ein sylfaen dystiolaeth a'n strategaethau monitro hefyd er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y dyfodol. Mae'r

gwaith hwn eisoes wedi cychwyn o dan yr Adolygiad Monitro Dŵr Croyw, a bydd yn parhau.

30. Mae gweithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth yn bwysig i'r Bwrdd, ac rydym yn cydnabod nad yw CNC yn gallu sicrhau gwelliannau i ansawdd dŵr ar ei ben ei hun. Rydym yn gyfrifol am ddatblygu cynlluniau rheoli basnau afonydd drwy weithio mewn partneriaeth gydag ystod eang o sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol (gan gynnwys cwmnïau dŵr, awdurdodau lleol, sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol, busnesau a diwydiant). Yn dilyn ein hymgyngoriad, bydd y cynlluniau terfynol yn cael eu cymeradwyo gan Weinidog Cymru cyn eu cyhoeddi yn yr haf, a bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o Gynllun Rheoli Basn Afon Hafren.
31. Enghraifft arall o'n gwaith partneriaeth cadarn yw'r tasglu Ansawdd Afonydd Gwell a sefydlwyd o dan arweiniad Syr David. Mae'r grŵp yn cynnwys CNC, Llywodraeth Cymru, Ofwat, y ddau Gwmni Dŵr, Afonydd Cymru a Chyngor y Defnyddwyr Dŵr yng Nghymru. Ddechrau mis Mai, bydd y grŵp yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r Map Ffordd ar y cyd ar gyfer gwella ansawdd afonydd yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio i ddechrau ar orlifoedd stormydd, ac mae'n darparu sylfaen ardderchog ar gyfer rhagor o gydweithio er mwyn gwella'r sefyllfa o safbwynt gollyngiadau carthion yng Nghymru.

Tasglu Gorlifoedd Stormydd

32. Mae CNC yn parhau i weithio ar ddatblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer ymateb Cymru i ollyngiadau sy'n deillio o orlifoedd stormydd. Rydym wedi cyhoeddi Map Ffordd Gorlifoedd Stormydd ar wefan CNC, ac rydym yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i ddatblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer pob un o'r ffrydiau gwaith a nodir yn y Map Ffordd. Mae CNC yn arwain dwy o'r pum ffrwd waith yn ymwneud â Rheoleiddio a Thystiolaeth. Erbyn diwedd mis Mai, bydd cynlluniau gweithredu wedi'u llunio er mwyn amlygu'r camau gweithredu tymor byr, tymor canolig a hirdymor sydd eu hangen gan aelodau'r Tasglu i sbarduno gwelliannau ym meysydd rheoli a rheoleiddio gorlifoedd stormydd.

Afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)

33. Mae drafft terfynol y cyngor diwygiedig ar gyfer awdurdodau cynllunio (Fersiwn 3) wedi'i rannu ag aelodau o'r Is-grŵp Cynllunio Cymru Gyfan allanol er mwyn derbyn eu sylwadau, ac ar ôl hynny bydd yn cael ei gyflwyno i Fwrdd Prosiect Afonydd ACA i'w gymeradwyo'n derfynol, ei gyfieithu a'i gyhoeddi ar y we. Mae ein timau Gwasanaeth Cyngor Cynllunio Datblygu (DPAS) yn parhau i dderbyn lefel uchel o ymgynghoriadau gwaith achos yn ymwneud â datblygiadau sy'n cynnwys materion cynllunio sy'n gysylltiedig â ffosfforws.
34. Mae gwaith yn parhau ar ddiweddarau'r Cynlluniau Rheoli Craidd ar gyfer y naw afon ACA, ac ar ôl cyhoeddi'r targedau Ffosffad rydym yn bwriadu cyhoeddi'r Cynlluniau

Rheoli Craidd diwygiedig yn ddiweddarach yn 2022 i gynnwys y gyfres lawn o dargedau ansawdd dŵr.

35. Rydym yn datblygu datganiad sefyllfa polisi Niwtraliaeth Maetholion. Hefyd, rydym wedi penodi contractwyr i ddatblygu canllawiau CNC ar ddefnyddio Cyfrifyddion Maetholion. Gallai cyfrifyddion maetholion fod yn adnodd defnyddiol wrth gynllunio datblygiadau, yn enwedig ar lefel Cymru, ond mae angen rhoi fframwaith addas ar waith i sicrhau eu bod yn effeithiol a'u bod yn gallu darparu'r ymyriadau cywir i leihau llygredd ffosfforws.
36. Rydym yn cynnal trafodaethau gyda Dŵr Cymru ar broses o waredu ffosffadau a ariennir gan ddatblygwyr mewn lleoliadau penodol. Mae Dŵr Cymru wedi llunio adroddiadau annhechnegol yn ymwneud â gwaith modelu Dosrannu Ffynhonnell ar gyfer Afon Gwy ac Afon Wysg, a disgwylir yr adroddiadau ar gyfer yr afonydd ACA eraill yn fuan. Cymeradwywyd Datganiad Sefyllfa ar y Polisi Gwlyptiroedd Adeiledig ym mis Mawrth, a bydd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan cyn bo hir.
37. Hefyd, rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid lleol i ddatblygu Byrddau Rheoli Maetholion ar gyfer pob dalgylch afon ACA, lle gellir nodi a darparu cyfleoedd i gyflwyno ymyriadau lleol a strategol er mwyn gwella ansawdd dŵr. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar gyfer Byrddau Rheoli Maetholion Afon Cleddau, Afon Teifi ac Afon Tywi ganol mis Mawrth. Cynhaliwyd cyfarfod Bwrdd Rheoli Maetholion Afon Gwy ar 30 Mawrth.
38. Ar gyfer ein gwaith casglu tystiolaeth a monitro, mae sondiau wedi'u prynu ar gyfer Afon Gwy, gyda'r bwriad o'u gosod a'u profi yng Ngwanwyn 2022. Hefyd, rydym yn ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud gwaith monitro biolegol ar Afon Gwy. Mae trafodaethau wedi'u cynnal gyda Platfform yr Amgylchedd Cymru i dderbyn cymorth i gwmpasu a gweithredu adolygiad o'r dystiolaeth.
39. O safbwynt Rheoleiddio, rydym yn rhoi trwyddedau dros dro 'dim ffosffad ychwanegol' ar waith mewn ACA sy'n methu. Bwriedir cynnal adolygiadau o'r holl ollyngiadau Ansawdd Dŵr i afonydd ACA dros 20m³ /diwrnod yn ddiweddarach eleni ac rydym yn bwriadu rhannu gwybodaeth am weithfeydd trin gwastraff dŵr sydd eisoes â thrwydded sy'n diogelu'r ACA yn ddigonol gyda'r Awdurdodau Cynllunio ar sail ACA unigol cyn gynted â phosibl. Mae'r cynllun yn dibynnu ar CNC yn cymeradwyo gwaith SAGIS (System Gwybodaeth Ddaearyddol Dosrannu Ffynhonnell) Dŵr Cymru.
40. Mae proses drwyddedu newydd wrthi'n cael ei datblygu gan ddefnyddio tystiolaeth i ddatblygu trothwyon gwneud penderfyniadau a meini prawf sgrinio o bell. Hefyd, rydym yn adolygu'r broses eithriadau cofrestru ac yn bwriadu cyhoeddi canllawiau diwygiedig. Ar ôl eu cyhoeddi, ni fydd ganddynt statws cyfreithiol nes bod cyfle'n codi i ddiwygio'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (EPR).

Gorchymyn Diwygio Harbwr Dyfrdwy

41. Cyflwynodd Asiantaeth yr Amgylchedd gais am Orchymyn Diwygio Harbwr o dan Ddeddf Harbyrau 1964 ar 20/01/2005. Ar ôl cyflwyno'r cais i'r Adran Drafnidiaeth, cynhaliwyd ymchwiliad cyhoeddus ym mis Rhagfyr 2005. Cafodd y gwaith o lunio Gorchymyn Diwygio Harbwr Dyfrdwy ei awdurdodi wedyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ar 15/12/2014, wrth aros am lofnod yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi dweud yn ddiweddar bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn bwriadu llofnodi Gorchymyn Diwygio Harbwr Dyfrdwy yn awr. Nid yw'r Adran Drafnidiaeth wedi darparu amserlen bendant, ond gallai'r Gorchymyn Diwygio Harbwr gael ei gymeradwyo yn Ch2 2022/23. **Ar ôl** ei lofnodi a'i wneud yn gyfraith, bydd y Gorchymyn Diwygio Harbwr yn moderneiddio pwerau CNC fel yr Awdurdod Harbwr a Goleudy Lleol Statudol mewn perthynas â mordwyo yn Aber Afon Dyfrdwy, a bydd yn cynnwys y gallu i godi tâl am weithgareddau penodol a defnydd tir. Mae hon yn garreg filltir bwysig mewn proses hir iawn.

Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol - Gwaith Troi Gwastraff yn Ynni Chwarel Tal-y-bont – Y Trallwng

42. Rydym wedi cael gwahoddiad i fynychu pedwar Gwrandawriad Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol i'w cynnal gan Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru fel rhan o'r broses benderfynu. Bydd angen trwydded EPR ar gyfer y safle hefyd, ond nid oes cais wedi'i wneud eto.
43. Mae gan y safle broffil lleol uchel ac mae grŵp trefnus wedi'i sefydlu i wrthwynebu. Mae'r pedwar gwrandawriad yn ymwneud ag a) Yr hierarchaeth a'r polisi gwastraff b) Iechyd Pobl c) Tirwedd ac ecoleg d) Rheolaethau cynllunio. Rydym wedi gwrthod y gwahoddiad i fynychu a) a b). Nid ydym yn darparu cyngor ar Bolisi Gwastraff - ni wnaed Asesiad Cylch Oes (sef yr unig elfen y byddem wedi rhoi cyngor technegol arni). Mae iechyd pobl yn ystyriaeth ar gyfer y drwydded EPR, ond gan nad oes cais wedi'i wneud, nid oes gennym unrhyw wybodaeth i'w rhannu o safbwynt Trwydded CNC, ac nid ydym yn darparu cyngor ar iechyd drwy ein swyddogaeth Gwasanaeth Cynghori ar Gynlluniau Datblygu. Rydym wedi cyfeirio'r Arolygydd at yr hyn y bydd trwydded EPR yn ei reoli (yr Arolygydd fydd yn penderfynu a ellir cynnwys ystyriaethau iechyd pobl yn y drwydded). Hefyd, rydym wedi nodi'n glir na allwn ragweld canlyniad cais EPR yn y dyfodol. Fe wnaethom fynychu'r gwrandawriad Tirwedd ac Ecoleg yn ogystal â'r gwrandawriad Rheoli Cynllunio. O safbwynt cyngor cynllunio CNC, roeddem yn fodlon â'r cais a gwnaethom ofyn am amodau penodol i ddiogelu ein buddiannau. Mynychodd ein harbenigwyr EPP y gwrandawriadau ar Ansawdd Aer hefyd, a gwerthfawrogydd hynny.

Cronfa Bioamrywiaeth a Chydnherthed Ecosystemau

44. Derbyniodd CNC gyllid gan Lywodraeth Cymru yn 2021/22 i gynyddu ein gwaith ar Safleoedd Gwarchoddedig er mwyn helpu i sicrhau rhwydweithiau ecolegol gwydn yng Nghymru fel rhan o raglen gyfalaf ehangach. Teitl elfen bioamrywiaeth y rhaglen oedd

BERF (Cronfa Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau) ac roedd yn cyfrannu at y rhan fwyaf o fesur y dangosfwrdd 'Camau Gweithredu ar Safleoedd Gwarchoddedig'. Yn gyffredinol, roedd ein gwariant yn cyd-fynd â'r gyllideb (£2.3m), sy'n ymdrech wych gan ein Timau Gweithrediadau a staff cymorth arbenigol. Roedd darpariaeth 2021 yn cynnwys 114 o Gytundebau Rheoli Tir newydd gyda pherchnogion/meddianwyr Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), gwaith ar Dwyni Dynamig, cynefinoedd y Gylfinir ac olrhain yr aderyn hwn, gwaith ar Warchodfeydd Natur Cenedlaethol nad ydynt yn eiddo i CNC, monitro a gwerthuso, gwaith ar nodweddion Ardaloedd Morol Gwarchoddedig a pharatoi ar gyfer rhaglen adfer glaswelltiroedd yn y blynyddoedd i ddod.

Ardal Draenio Mewnol (IDD) Gwent

45. Mae'r tîm newydd gwblhau'r gwaith o atgyweirio cwlfer a phrif wal sydd wedi'u difrodi ar Lwybr Arfordir Cymru yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Gwlyptiroedd Casnewydd. Gan ei bod yn Hawl Tramwy Cyhoeddus, a gan fod y brif wal wedi dymchwel, roedd yn anniogel i'r cyhoedd ei defnyddio. Manteisiodd y tîm Rheoli Tir ar arbenigedd technegol tîm yr Ardal Draenio Mewnol (IDD) i gwblhau'r gwaith, a gafodd ei ychwanegu at ei raglen adeiladu brysur. Mae cwblhau'r gwaith yn fewnol yn opsiwn da er mwyn sicrhau bod nodweddion SoDdGA yn cael eu gwarchod a'u gwella diolch i sgiliau arbenigol y tîm IDD.

Tanau Gwyllt Gwanwyn 2022

46. Mae tanau gwyllt yn risg sylweddol. Er bod nifer yr achosion o danau gwyllt wedi gostwng yn ystod y deng mlynedd diwethaf, mae'r newid yn yr hinsawdd bron yn sicr o gynyddu'r risg. Yn 2020/21, fel rhan o'n gwaith ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd a rheoli risg iechyd a diogelwch, aethom ati i wella pa mor barod yr ydym ar gyfer digwyddiadau tanau gwyllt ar Ystad CNC. Hefyd, rydym yn cymryd rhan mewn rhaglenni i leihau nifer y tanau bwriadol, cynyddu ymwybyddiaeth o risg tanau gwyllt, ac arbrofion i wneud ein tir yn fwy gwydn i danau gwyllt drwy Ymgyrch Dawns Glaw, y Cyd-grŵp Lleihau Tanau Bwriadol, a'n prosiect Llechweddau Llon.
47. Yn ystod Gwanwyn 2022, arweiniodd y tywydd sych a chynnes at gyfnod o risk tân cynyddol. Roedd hyn yn cyd-fynd â gwyliau'r Pasg, pan fydd gweithgarwch hamdden yn cynyddu'r posibilrwydd o danau gwyllt damweiniol neu fwriadol. Mewn gwirionedd, fe wnaeth hi fwrw glaw cyn y Pasg, ac er bod pob digwyddiad yn ddifrifol, roedd tymor y tanau yn rhesymol i ni.
48. Hyd yma, mae swyddogaeth ddigwyddiadau CNC wedi nodi pum digwyddiad yn ymwneud â thanau gwyllt yng ngwanwyn 2022. Rhwng 2018-2020, cofnodwyd 714 o danau gwyllt ledled Canolbarth, Gorllewin a De Cymru. Roedd 90 o'r tanau hyn o fewn i ffiniau Ystad CNC. Nid gwasanaeth diffodd tân yw CNC. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Tân ac Achub er mwyn cefnogi eu hymateb i danau gwyllt ar ystad CNC. Cwblhaodd y tîm digwyddiadau ymarferiad gwersi a ddysgwyd yn

dilyn tymor y gwanwyn, a nodwyd bod y trefniadau'n gweithio'n dda, er bod rhai camau dilynol wedi'u nodi i sicrhau gwelliant pellach.

Prosiect Llechweddau Llon – Dull Partneriaeth o Fynd i'r Afael â'r Risg o Danau Gwylt yng Nghymru

49. Mewn ymateb i her sylweddol a pharhaus tanau gwylt yng nghymoedd y De, rydym yn cynnal Prosiect Arddangos Llechweddau Llon a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a ddechreuodd ym mis Ebrill 2021. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid yn y De gyda'r nod o ddylanwadu ar ddull Cymru gyfan o reoli ein tirwedd yn gynaliadwy yn yr hirdymor yn erbyn risg tanau gwylt. Mae'r fenter hon yn deillio o'r gwaith a wnaed yn y Rhondda fel un o brosiectau treialu rheoli adnoddau naturiol cyntaf CNC (Treial y Rhondda). Mae'r posibilrwydd o ehangu'r trafodaethau a gafwyd yn y De ledled Cymru yn ysbrydoli rhywun, gan brofi bod modd cyflawni canlyniadau gwych pan fydd syniadau da yn cael eu cyflwyno, eu cefnogi a'u rhoi ar waith trwy ddyfalbarhau a chydweithredu.
50. Mae uchafbwyntiau cychwynol prosiect Arddangos De Cymru yn cynnwys:
- Cyflwyno dulliau rheoli tir amrywiol trwy gydweithio â'n partneriaid yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.
 - Lansio cynllun peilot Firewise Cymru – rhaglen gymunedol i hwyluso camau gweithredu ac atal tanau gwylt.
 - Rhannu profiad gyda'r Gwasanaethau Brys, partneriaid a rhanddeiliaid o sefydliadau gwahanol er mwyn trafod atal tanau gwylt a manteision dulliau rheoli tir.
 - Lansio offer diffodd tân hofrenyddion newydd, gan gynnwys Bwced Snorcel BAMBI newydd – sy'n darparu gorsafodedd dŵr i Wasanaethau Tân mewn ardaloedd ffynhonnell anodd eu cyrraedd.
 - Prynu peiriant torri gwair robotig newydd – iCutter – i'w ddefnyddio gyda Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru ar gyfer gwaith rheoli tir ataliol (rheoli llystyfiant) yn ogystal ag ymladd tanau gwylt.
 - Lansio Fframweithiau Gweithredu Coedwigaeth newydd sy'n cynnwys opsiynau galw allan ar gyfer peiriannau gweithredu coedwigaeth i'w defnyddio ar gyfer tanau gwylt categori – a ariennir gan CNC.
51. Hefyd, er mwyn ceisio gwireddu uchelgais i gynyddu a rhannu'r hyn a ddysgir ledled Cymru, rydym yn gweithio gyda phartneriaid Ymgyrch Dawns Glaw i lansio Digwyddiad Ymwybyddiaeth o Danau Gwylt yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru 2022. Bydd hwn yn ddigwyddiad amlasiantaethol a fydd yn hyrwyddo sgwrs ledled Cymru am risgiau tanau gwylt a sut y gallwn greu Cymru sy'n ymwybodol o danau gwylt. Rydym yn gofyn i Fwrdd Gweithredol a Thîm Gweithredol CNC ymuno â'r sesiynau er mwyn cefnogi dull Cymru gyfan o atal risgiau tanau gwylt yn y dyfodol ledled tirwedd Cymru. Bydd Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn mynychu'r digwyddiadau, a fydd yn cynnwys sesiynau a gynhelir gan bartneriaid o bob rhan o Gymru gan gynnwys

CONFOR; Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol; Undebau'r Ffermwyr; Gwasanaethau Tân ac Achub; Gwasanaeth yr Heddlu; a llawer mwy. Bydd rhaglen ddigwyddiadau ffurfiol yn cael ei dosbarthu i'r Tîm Gweithredol ac Aelodau Bwrdd CNC yn nes at y digwyddiad.

52. Wrth rannu ein profiad ar Fforwm Tanau Gwylt Cymru, nodwyd pryder sylweddol o safbwynt beth mae Cymru yn ei wneud i leihau'r effaith mewn ffordd ragweithiol ac addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd mewn perthynas â risg tanau gwylt. Drwy gydol y flwyddyn nesaf, bydd y Prosiect Llechweddau Llon yn dwyn ynghyd ystod o sgysiau i fynd i'r afael â'r hyn sydd angen ei wneud nesaf i leihau'r risg hon. Rydym yn gofyn i Aelodau'r Tîm Gweithredol ac Aelodau Bwrdd CNC gymryd rhan yn y sgwrs genedlaethol hon drwy ymgysylltu â llunwyr polisi, ymatebwyr cyntaf a thirfeddianwyr ledled Cymru i hwyluso dull cynaliadwy a chyfannol o leihau'r risg o danau gwylt ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Byddwn yn chwilio am lysgennad ar lefel Bwrdd CNC i gefnogi a datblygu dull newydd o reoli risg tanau gwylt ledled Cymru.

Gweithgarwch Gorfodi

53. Wrth i'r Llysoedd weithio'n galed i ddal i fyny ar ôl Covid, rydym wedi gweld nifer fawr o erlyniadau llwyddiannus dros y misoedd diwethaf, gan gynnwys y canlynol:

- Bu'n rhaid i droseddwr pysgota anghyfreithlon dalu dirwyon a chostau CNC, a chafodd ei wahardd rhag gyrru am 12 mis am iddo yrru'n bell o Ferthyr i Gasllwchwr er mwyn cyflawni'r drosedd. Nid yw'n gyffredin i droseddwr gael eu gwahardd rhag gyrru am droseddau pysgota, er bod gan y llysoedd y pŵer i wneud hyn.
- Cafwyd tîr feddiannwr yn euog o dorri coetir gwarchoddedig maint 12 cae pêl-droed mewn achos a ddisgrifiwyd fel "un o'r troseddau gwaethaf o'i math a welwyd ers 30 mlynedd". Dywedodd Callum Stone, arweinydd ein tîm rheoleiddio coedwigoedd: "Mae colli'r coetir brodorol gwlyb hwn yn ofnadwy a bydd yn cymryd cenedlaethau lawer i goed newydd dyfu yn eu lle, os byddant yn tyfu o gwbl." Byddwn yn mynd ati nawr i ddwyn achos enillion troseddau yn erbyn y troseddwr.
- Cafodd gweithgarwch pysgota anghyfreithlon ers blwyddyn ar Afon Teifi ei ddadlennu diolch i ymchwiliad. Plediodd y prif ddiffynnydd yn euog, ond mae wedi cael ei gyfeirio i Lys y Goron gyda'r bwriad o gyflwyno achos enillion troseddau. Cafodd pedwar diffynnydd arall eu herlyn a'u cael yn euog, gan arwain at gyfanswm o £20,610 mewn dirwyon. Cafodd dau arall rybudd ffurfiol am gymryd rhan yn y gweithgarwch anghyfreithlon.

Cyfathrebu a Digidol

54. Fel rhan o'n hymdrechion parhaus i amlygu'r materion allweddol sy'n wynebu Cymru o safbwynt perygl llifogydd, gwnaethom fanteisio i'r eithaf ar gyhoeddiad Llywodraeth Cymru am brosiectau sydd i'w cefnogi drwy ei rhaglen fuddsoddi er mwyn tanlinellu

graddfa'r camau gweithredu uniongyrchol sydd eu hangen i addasu i'r argyfwng hinsawdd. Hefyd, trosglwyddwyd y neges hon yn ein hymatebion i ddau adroddiad y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

55. Er mwyn cadarnhau dull newydd o roi trwyddedau cyffredinol i reoli adar gwyllt, roedd angen rheoli negeseuon yn ofalus cyn y cyhoeddiad ac adeg y cyhoeddiad. Mae cymorth cyfathrebu'n parhau drwy gyhoeddi'r ddogfen benderfynu; ymdrin â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac ymholiadau gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid; a thrwy baratoi ar gyfer lansio trwyddedau newydd ar 1 Gorffennaf.
56. Parhaodd ein gwaith partneriaeth gyda Chyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored i hyrwyddo Wythnos Dysgu yn yr Awyr Agored ym mis Mawrth, gan annog pobl i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n seiliedig ar fyd natur ledled Cymru. Cafodd y gwaith hwn gryn sylw yn y cyfryngau darlledu a phrint. Buom yn gweithio'n agos gyda'r tîm Cynllun Gweithredu Mawndiroedd Cenedlaethol i hyrwyddo'r map newydd o fawndiroedd Cymru a'r cynllun grant. Hefyd, nodwyd y ffaith ein bod wedi cwblhau ein harolwg o'r Ystad Goetir fel rhan o'n hymdrechion i reoli lledaeniad *Phytophthora pluvialis*.
57. Mae digwyddiadau ymgysylltu ac allgymorth gyda'n llysgenhadon ar gyfer yr arolwg Natur a Ni wedi parhau hefyd. Ar bob un o'n safleoedd, mae ein negeseuon wedi canolbwyntio ar hamdden cyfrifol dros gyfnod y Pasg, ac roedd y gwaith hwn yn cynnwys lansio ffilm newydd sy'n dangos y dulliau gwahanol i bobl fwynhau coetiroedd a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol. Hefyd, gwnaethom gefnogi ymgyrch iechyd meddwl awyr agored 'Helpwch Ni i'ch Helpu Chi' Llywodraeth Cymru a hyrwyddo dychweliad Gwalch y Pysgod i Lyn Clywedog, gan gynnwys y ffrydiau camera byw o'r nyth i'r nifer cynyddol o bobl sy'n mwynhau gwyllo'r aderyn hwn.
58. Mae ein gwaith gorfodi wedi cynyddu wrth i amserlenni'r Llysoedd ddal i fyny yn dilyn covid, ac rydym wedi rhoi cyhoeddusrwydd i nifer o ganlyniadau yn y llys a'r sancsiynau a gyflwynwyd ar gyfer gweithgareddau amrywiol, gan gynnwys sawl achos o bysgota anghyfreithlon, cwmpo coed yn anghyfreithlon a throseddau llygredd afonydd. Roedd yr achosion proffil uchel yn cynnwys euogfarnau'n ymwneud â physgota anghyfreithlon a barodd am 20 mlynedd ar Afon Teifi, a thorri dros wyth hectar o goetir yn anghyfreithlon yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr.
59. Rydym yn parhau i ymdrin ag ymholiadau'n ymwneud ag ansawdd dŵr gan gynnwys ein gwaith rheoleiddio Gorlifoedd Stormydd Cyfunol a phroblemau'n ymwneud ag Afon Gwy yn benodol. Rydym wedi derbyn nifer o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth gan gyfryngau gwahanol. Mae sawl ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol am ansawdd dŵr yn parhau, ac er na allwn ymateb i bob neges, rydym yn ceisio ymateb i gwestiynau, naill ai'n uniongyrchol neu drwy'r adran Cwestiynau Cyffredin ar y wefan. Hefyd, rydym yn hyrwyddo straeon cadarnhaol am ein gwaith ar afonydd, a bydd y gwaith hwn yn cyflymu unwaith y bydd etholiadau'r awdurdodau lleol drosodd.

Digidol

60. Ddiwedd mis Mawrth, er mwyn nodi pen-blwydd cyntaf lansio Strategaeth Ddigidol Cymru, cymerais ran mewn gweminar a gynhaliwyd gan y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (CDPS) ochr yn ochr â'r Dirprwy Weinidog Lee Waters AC a chydweithwyr o Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chwaraeon Cymru. Buom yn trafod sut rydym yn defnyddio Strategaeth Cymru i lywio trawsnewidiad digidol ein sefydliad ein hunain.
61. Ar ôl i'r Bwrdd gymeradwyo'r strategaeth ddigidol lefel uchel, cynhaliwyd y gweithdy cyntaf ar flaenoriaethu a chynllunio darpariaeth ar 27 Ebrill, wedi'i hwyluso gan CDPS, gan ddod ag arweinwyr o bob rhan o'r sefydliad at ei gilydd. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod mis Mai a mis Mehefin.
62. Mae'r prosiect arddangos gyda CDPS sy'n edrych ar enillion gwastraff wedi symud i'r cam alffa, ac rydym yn dechrau cynllunio a phrofi teithiau defnyddwyr gwahanol. Fel rhan o'r ymrwymiad i weithio yn yr awyr agored, mae'r holl sesiynau dangos a dweud rheolaidd ar gael i'w gweld ar restr chwarae gwastraff peryglus Cymru ar YouTube.
63. Mae gwaith yn parhau ar lunio ein strategaeth gynnwys, yn ogystal â'r gwaith i wella cynnwys coetiroedd fel rhan o'r argymhellion archwiliad dwfn. Mae pob un o'r rhain yn gweithio yn unol â'r safonau digidol ar gyfer gwasanaethau digidol, gan ein helpu i ddatblygu ein sgiliau mewnol yn y maes hwn.
64. Rydym wedi cynnal gweithdy i rannu arferion gorau, awgrymiadau ac adnoddau er mwyn helpu pobl sy'n ysgrifennu adroddiadau tystiolaeth i ystyried hygyrchedd o'r dechrau. Cafwyd adborth cadarnhaol am y sesiwn, a fydd yn helpu i sicrhau bod mwy o adroddiadau tystiolaeth yn addas i'w cyhoeddi ar wefan CNC.
65. Hefyd, mae sawl aelod o staff wedi manteisio ar y cyfle i gael hyfforddiant am ddim gan CDPS ym meysydd dylunio gwasanaethau, anghenion defnyddwyr, a pherchnogaeth gwasanaethau, ac rydym wedi parhau i gyfrannu at gymunedau ymarfer gwahanol er mwyn rhannu'r hyn a ddysgir a gweld beth mae eraill yn ei wneud mewn mannau eraill.

Cwsmeriaid

66. Mae'r Awdurdod Safonau Cwynion wrthi'n archwilio holl sefydliadau'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru er mwyn gwella cysondeb a gwasanaeth cwsmeriaid. Fel rhan o'r archwiliad a thrwy weithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Pobl, rydym yn adnewyddu ein polisi ar gyfer ymdrin â chwynion honedig am gamymddwyn gan staff. Hefyd, rydym yn gwella ein proses ar gyfer rheoli Cwynion Cam 2, i'w gwneud yn haws i swyddogion ymchwilio gynnal yr ymchwiliad ac osgoi oedi diangen i'r cwsmer, gan sicrhau ein bod yn parhau i gynnal ymchwiliadau cadarn.

67. Ar ôl penodi cyflenwr y mis diwethaf i gynllunio a darparu hyfforddiant rhagoriaeth gwasanaeth cwsmeriaid ar gyfer holl gydweithwyr Cyfoeth Naturiol Cymru, mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu cynnwys ar gyfer y modiwl 'rhagoriaeth cwsmeriaid' cyffredinol, ac mae'r gwaith yn datblygu'n dda. Amcangyfrifir y bydd modd profi'r modiwl gyda chydweithwyr ym mis Mehefin/Gorffennaf, a rhagwelir y gellir ei gyflwyno'n ehangach o fis Medi ymlaen. Disgwylir i ail ddarparwr arbenigol gael ei benodi i ddatblygu cynnwys ar gyfer gweithgarwch canolfan alwadau yn ystod yr wythnos yn dechrau 9 Mai.
68. Rydym yn parhau i weithio gyda'r tîm Gwelliant Parhaus i adolygu'r broses gyfan ar gyfer ymateb i geisiadau am ddata cwsmeriaid wedi'i drwyddedu. Rydym wedi cyrraedd cam dadansoddi'r broses a'n bwriad yw cyflwyno gwelliannau yn y chwarter nesaf. Rydym yn gwneud cynnydd da ym mhroses Ymchwil a Darganfod ein prosiect Mapio Teithiau Cwsmeriaid. Mae ein contractwr, Mima, wedi dechrau ymgysylltu â chydweithwyr a chysylltiadau ledled CNC i greu darlun o'n holl weithgarwch sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chwsmeriaid. Ar gyfer y garreg filltir nesaf, bydd tîm Mima yn rhannu'r wybodaeth hon gyda ni ac yn dechrau blaenoriaethu pwy y dylem siarad yn fanylach â nhw er mwyn deall canfyddiadau cwsmeriaid o'n sefydliad.

Busnes Mewnol

Adfywio

69. Mae Bwrdd y Rhaglen Adfywio yn gyfrifol bellach am sicrhau bod unrhyw faterion newydd yn ymwneud â Covid yn cael eu cofnodi a'u datrys.
70. Mae'r Rhaglen Moderneiddio Menter (EMP) wedi bod yn canolbwyntio ar wneud bywyd yn haws i staff wrth weithio mewn ffordd fwy hyblyg ers Covid. Er gwaetha'r ffaith bod y cynnig TGCh wedi bod yn llwyddiannus, nodwyd rhai heriau a fydd, o'u goresgyn, yn gwneud y profiad gwaith yn well i bawb.
71. Cyn Covid, roedd y dull diogelwch ar gyfer TGCh yn seiliedig ar sicrhau mai'r swyddfa oedd y lle mwyaf diogel. Wrth i'r busnes geisio bod yn fwy ystwyth a hyblyg o safbwynt sut mae pobl yn gallu gweithio, mae TGCh wedi gorfod newid y dull gweithredu hwn a chanolbwyntio mwy ar gadw pobman yn ddiogel. Mae'r gwaith hwn bron wedi'i gwblhau, felly buom yn ymgymryd â gweithgareddau ymchwil a datblygu ledled y busnes er mwyn penderfynu sut i fanteisio ar y dechnoleg newydd.
72. Dewch â'ch Dyfais Eich Hun (BYOD) oedd y man cychwyn, ac mae wedi bod ar waith ers chwe mis heb unrhyw broblemau. Mae'n caniatáu i staff ddefnyddio eu ffôn, gliniadur, iPad ac Android eu hunain i gael mynediad at wasanaethau sylfaenol.

73. Dros y tri mis diwethaf, mae EMP wedi bod yn cynnal Prawf o Gysyniadau (PoCs) ledled y busnes i weld sut y gellir defnyddio'r dechnoleg hon a mathau eraill o dechnoleg i helpu'r busnes. Maent yn cynnwys:

- Porth defnyddwyr TGCh Hornbill (Gweithgareddau TGCh awtomataidd ac wedi'u tracio)
- Arc-GIS Pro
- Power-BI
- Y gymuned wyddoniaeth (Platfform)
- Desg gwasanaeth newydd ar gyfer cyfleusterau a fflyd

74. Bydd modd graddio'r gwasanaethau hyn ar ôl eu comisiynu er mwyn eu lleihau pan na fyddant yn cael eu defnyddio a darparu'r pŵer mwyaf posibl pan fydd angen. Byddant yn gallu defnyddio pŵer yn fwy effeithlon, a defnyddir technoleg carbon niwtral i'w creu.

75. Mae EMP wedi darparu ateb cludadwy ar gyfer Bwrdd CNC, a gellir ei ddefnyddio ledled y busnes ar gyfer cyfarfodydd mawr â rhwng 6-30 o bobl gan ddarparu llais a fideo clir ym mhob tîm ar gyfer unrhyw un nad yw'n dymuno teithio.

76. Mae'r gwaith o ailstrwythuro Adran Rheoli'r Fflyd a Chyfleusterau, a fydd yn hwyluso canlyniadau strategol y Rhaglen Adfywio, wedi'i gwblhau ac rydym wrthi'n recriwtio i lenwi swyddi gwag. Mae system archebu desg o'r enw Mynediad ar waith ac mae'n 'gweithio'n dda'.

77. Mae timau seiliedig ar le wedi bod yn cyflwyno eu cynnig llety i Dîm y Rhaglen Adfywio. Rydym wrthi'n datblygu'r cynlluniau hyn i greu strategaeth llety CNC sy'n cynnwys achosion busnes wedi'u blaenoriaethu.

Natur a Ni: Pa ddyfodol ydym ei eisiau ar gyfer ein hamgylchedd naturiol?

78. Daeth cam cyntaf Natur a Ni i ben ar 28 Ebrill. Mae'r holl weminarau a gweithdai rhanddeiliaid wedi'u cynnal, ac mae'r arolwg wedi cau bellach. Bydd pedwar grŵp ffocws yn cael eu cynnal ym mis Mai. Mae'r cyfle i rannu eich gweledigaeth eich hun ar gael o hyd drwy ein gwefan.

79. Ymwelodd 52,033 o ddefnyddwyr â gwefan Natur a Ni yn ystod yr ymgyrch deg wythnos, ac ymddangosodd ein hysbysebion dros saith miliwn o weithiau ar y we. Cwblhaodd 3,067 o bobl arolwg Natur a Ni. Cofrestrodd 850 o bobl ar gyfer un o'n gweminarau, gweithdai a grwpiau ffocws, ac mae 362 wedi mynychu un ohonynt hyd yma.

Cynnwys pobl ifanc a chymunedau amrywiol

80. Dangosodd data'r ymgyrch ar ymatebion i'r arolwg fod yna fwch yn ein hymgysylltiad â chynulleidfa ifanc ar ddiwedd mis Mawrth (0.2% o dan 18 oed, 9.8% o dan 35 oed).

Mewn ymateb, fe aethom ati i dargedu pobl o dan 35 oed yn benodol ar gyfer ein hymgyrch ddigidol yn ystod mis Ebrill. Mewn ymateb, roedd nifer yr arolygon a gwblhawyd gan bobl ifanc o dan 18 oed wedi cynyddu i 3.1% erbyn 21 Ebrill, ac i 14.6% ar gyfer y rhai o dan 35 oed.

81. Hefyd, roedd dulliau cyfathrebu pwrpasol gyda grwpiau cymunedol a sefydliadau ieuencid wedi llwyddo i gynyddu cyfranogiad sefydliadau o'r fath gyda Natur a Ni. Roedd 15% o'r sefydliadau a lawrlwythodd y pecyn cymorth yn grwpiau ieuencid a chymunedol (yn ogystal â 15% o'r sector addysg).
82. Cynyddodd ein tîm cyfathrebu ei weithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol a'i waith cyfathrebu gyda phartneriaid a grwpiau penodol sy'n gweithio gyda phobl ifanc a chymunedau BAME neu gymunedau nas clywir yn aml yn ystod ail hanner yr ymgyrch. Roedd 92.1% o'r ymatebwyr i'r arolwg wedi nodi eu bod yn wyn, o'i gymharu â 95% o boblogaeth Cymru.

Camau nesaf

83. Mae canfyddiadau'r arolwg a'r digwyddiadau'n cael eu dadansoddi ar hyn o bryd a disgwylir adroddiad erbyn diwedd mis Mehefin. Hefyd, rydym yn disgwyl yr allbynnau gan feirdd preswyl Natur a Ni ym mis Mai.
84. Rydym yn cynllunio'r broses ymgysylltu ar gyfer cam nesaf Natur a Ni, a fydd yn cyfleu'r canfyddiadau hyn i bobl Cymru gyda'r nod o ddeall pa ganfyddiadau y mae cymunedau gwahanol yn uniaethu â nhw. Rydym yn cynnal gweithdy gydag academyddion er mwyn cynllunio methodoleg fanwl ar gyfer y gwaith hwn ym mis Mai. Bydd yr allbynnau o gam 2 yn cael eu defnyddio i ddatblygu'r weledigaeth ar gyfer amgylchedd Cymru ar y cyd â phobl a sefydliadau ledled Cymru. Rydym yn archwilio modelau llywodraethu gwahanol ar gyfer y dull gweithredu hwn, a thrafodwyd y mater yng nghyfarfod y Grŵp Cynghori ddechrau mis Mai.

Diwrnod #TîmCNC

85. Mae paratodau'n mynd rhagddynt ar gyfer Diwrnod #TîmCNC ar 15 Mehefin – gobeithio bydd modd cynnal y digwyddiad hwn wyneb yn wyneb yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth, os bydd y canllawiau presennol yn parhau. Byddwn yn rhannu mwy o wybodaeth yn nes at y dyddiad. Rydym yn archwilio dull hybrid lle bydd mwy o gynnwys yn cael ei rannu ar-lein drwy gydol y dydd. Byddwn yn canolbwyntio ar aildatblygu cysylltiadau (gan roi mwy o amser i bobl siarad) yn ogystal â chanolbwyntio ar Adfywio ac ymgysylltu ar gyfer Amcanion Llesiant nesaf y Cynllun Corfforaethol – yn ogystal ag ardal lesiant 'Caffi Cwtch'. Mae'r cyfnod enwebu ar gyfer Gwobrau #TîmCNC yn cychwyn ar 11 Ebrill ac yn cau ar 6 Mai. Mae'r gwobrau'n seiliedig ar ein gwerthoedd sefydliadol, ac maent yn cynnwys ein Cystadleuaeth Ffotograffiaeth hefyd.

86. Ym mis Mai rydym yn annog pobl i fynd ar Daith Gerdded #TîmCNC gan ganolbwyntio ar aildatblygu rhwydweithiau a chydweithio, sy'n cefnogi ein hagenda llesiant.

Datblygu Arweinyddiaeth

87. Dechreuodd ein rhaglen arweinyddiaeth, Ymlaen#2 ar 30 Mawrth, a bydd ar waith tan fis Chwefror 2023. Mae'n cynnwys naw modiwl wedi'u cyflwyno. Bydd Ymlaen#3 yn dechrau ar 9 Medi a bydd yn gorffen ym mis Medi 2023. Mae 30 o gynrychiolwyr ym mhob carfan. Mae rhaglen Ymlaen wedi'i chymeradwyo'n allanol gan y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (TILM) ac mae gan bob cynrychiolydd y cyfle i gwblhau'r dysgu ar-lein a bod yn Aelod Cyswllt o'r TILM.

Gyrfaoedd Cynnar

88. Dechreuodd ein 24 lleoliad Kickstart gyda CNC ar 1 Ebrill 2022. Mae'r lleoliadau hyn ar gyfer pobl ifanc 16 i 24 oed a byddant yn para am chwe mis tan 30 Medi 2022. Rhoddir cymorth sefydlu a hyfforddiant llawn er mwyn sicrhau bod y person ifanc yn cael cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy.

Cyflogwr Cymraeg Gwaith y Flwyddyn

89. Yn olaf, mae'n bleser gennyf ddweud bod y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi cyhoeddi mai CNC yw Cyflogwr Cymraeg Gwaith y Flwyddyn ar gyfer 2022. Ar hyn o bryd mae gennym tua 150 o staff wedi'u cofrestru ar gyrsiau Cymraeg eleni, ac i gefnogi hyn mae CNC yn caniatáu i staff fynychu cyrsiau yn ystod oriau gwaith; mae'n trefnu sesiynau adolygu cyn arholiadau os oes angen, yn trefnu sesiynau ychwanegol ar gyfer dosbarthiadau yn ystod gwyliau'r Haf, yn caniatáu absenoldeb astudio i'r rhai sy'n astudio ar gyfer arholiadau ac yn darparu cynllun mentora.

Rhagolwg

- Digwyddiad Senedd CNC - 18 Mai
- Cyfarfod y Bwrdd yn Sir Gaerfyrddin – 25 a 26 Mai
- Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth - 7 Mehefin
- Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg - 9 Mehefin
- Y Pwyllgor Cyllid -10 Mehefin
- Galwad Diweddarau'r Bwrdd -14 Mehefin
- Diwrnod #TîmCNC - 15 Mehefin
- Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig - 21 Mehefin
- Y Pwyllgor Pobl a Thaliadau - 24 Mehefin
- Y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd - 1 Gorffennaf
- Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (Cyfarfod Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon) - 8 Gorffennaf
- Cyfarfod Bwrdd CNC - 13 a 14 Gorffennaf
- Sioe Frenhinol Cymru - 18 - 21 Gorffennaf
- Yr Eisteddfod – 30 Gorffennaf - 6 Awst



Papur Bwrdd

Teitl y Papur:	Pwyllgor Cyllid - diweddariad
Cyfeirnod y Papur:	22-05-B10
Noddwyd y Papur gan:	Syr David Henshaw – Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cyflwynwyd y Papur gan:	Syr David Henshaw

Diben y Papur:	Gwybodaeth
Argymhelliad:	Nodi'r diweddariad

Mater

1. Mae'r papur hwn yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd yn dilyn cyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid ar 14 a 28 Ebrill 2022.

Diweddariad

Cyfarfod 14 Ebrill 2022

2. Cymerodd y Pwyllgor Cyllid ran mewn sesiwn a drefnwyd yn allanol ar ddatblygu Cynllun Corfforaethol CNC (2023-27).

Cyfarfod 28 Ebrill 2022

Diweddariad Cyllid (2021-22)

3. Rhoddwyd diweddariad i'r Pwyllgor ar berfformiad ariannol CNC yn ystod 2021-22. Er nad oedd y sefyllfa ddiwedd blwyddyn wedi'i chadarnhau eto croesawodd y Pwyllgor y sefydlogrwydd a ddarparwyd.

Y Gyllideb a Chynllun Busnes (2022-23) yn cynnwys diweddariad ar Ymarfer Llinell Sylfaen

4. Cafwyd trafodaeth ar yr heriau a oedd yn gysylltiedig â chyllideb CNC ar gyfer 2022-23, yn cynnwys y risgiau sy'n gysylltiedig â darparu a phwysigrwydd sicrhau nad yw'r mecanwaith cyllido cyfredol yn atal y sefydliad rhag cyflawni ei flaenoriaethau.
5. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am enghreifftiau i ddangos y problemau sy'n gysylltiedig â'r canlynol: y dull cyllido cyfredol; yr anghysonderau o ran adrodd i Lywodraeth Cymru; sut y gall dulliau gwahanol ychwanegu mwy o werth o ran darparu dull Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ynghyd â manteision adrodd ar sail canlyniadau.

6. Adolygwyd Dangosfwrdd Perfformiad drafft Cynllun Busnes 2022-23 a darparwyd adborth amrywiol. Roedd y themâu/meysydd gwaith allweddol ar gyfer y sefydliad wedi'u rhagweld ar sail blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, roeddent yn amodol ar lythyr cylch gwaith CNC oedd heb ei dderbyn eto. Pwysleisiodd y Pwyllgor yr angen am eglurder ar themâu'r Dangosfwrdd er mwyn i Lywodraeth Cymru ddeall yn hawdd unrhyw effaith ar berfformiad CNC yn sgil unrhyw gytundeb allbwn â nhw.
7. Darparwyd diweddariad o'r gwaith sy'n gysylltiedig â cham tri'r Ymarfer Llinell Sylfaen.

Dewisiadau eraill o ran Gwerthu Coed

8. Cynigodd y Pwyllgor eu barn ar y cynnig i ddatblygu dulliau gwahanol o werthu coed, yn dilyn ymrwymiad yn y Cynllun Gwerthu a Marchnata Coed i werthu hyd at 30% o'r coed mewn ffyrdd mwy pwrpasol. Roedd yn gyfle cyffrous a allai fod yn drawsnewidiol ond roedd hefyd yn faes risg uchel. O ganlyniad, roedd gwaith yn symud ymlaen yn ofalus.

Adolygiad Strategol o Godi Tâl

9. Cafwyd diweddariad ar raglen yr Adolygiad Strategol o Godi Tâl a'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r ymgynghoriad arfaethedig ym mis Hydref 2022. Ychwanegwyd hwn fel eitem sefydlog i ragolwg y Pwyllgor Cyllid, oherwydd rhagwelir ymgysylltu rheolaidd â'r Pwyllgor wrth symud ymlaen. Hefyd, rwyf wedi gofyn am nodyn am yr egwyddorion a ddefnyddir i ddatblygu'r cynigion codi tâl, er mwyn briffio Llywodraeth Cymru ar y dull sy'n cael ei fabwysiadu.

Rheoli Risg – Archwiliad Dwfn o Risg Strategol 01 (Cyllid Annigonol)

10. Craffodd y Pwyllgor ar Risg Strategol 01 a oedd yn gysylltiedig â chyllid tymor canolig annigonol a fyddai'n llesteirio'r gwaith o gyflawni strategaeth gynaliadwy hirdymor CNC. Er ein bod ni'n gyffyrddus ar y cyfan y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn helpu i gyflawni'r sgôr targed o 13, gofynnem am ystyriaeth bellach i'r iaith a ddefnyddir yn y ddogfen.
11. Nodwyd hefyd bod angen i'r Gofrestr Risg Strategol adlewyrchu materion byd-eang sy'n dod i'r amlwg.

Diweddariad grantiau

12. Rhoddwyd diweddariad cynnydd ar waith parhaus i ddatblygu cynnig ar fodel cyflawni amgen i weinyddu grantiau yng Nghymru. Bydd y Pwyllgor yn derbyn diweddariad pellach ym Mehefin 2022 pan fydd adroddiad y Ganolfan Gyllido ar gael.

Papur Bwrdd

	Manylion y Papur
Teitl y Papur:	Diweddariad gan y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd (FRMC)
Cyfeirnod y Papur:	22-05-B11
Noddir y Papur gan:	Paul Griffiths – Cadeirydd yr FRMC
Cyflwynir y Papur gan:	Paul Griffiths
Diben y Papur	Gwybodaeth
Argymhelliad	Nodi'r diweddariad

Mater

1. Mae'r papur hwn yn darparu diweddariad i'r Bwrdd yn dilyn cyfarfod yr FRMC a gynhaliwyd ar 7 Ebrill 2022. Gellir darparu cofnodion y cyfarfodydd hyn i unrhyw aelod o'r Bwrdd sydd â diddordeb.
2. Isod, amlygir y materion y mae Cadeirydd yr FRMC yn ystyried y dylid tynnu sylw'r Bwrdd cyfan atynt.

Diweddariad

Sesiwn Drafod Strategol

Crynodeb

3. Cynhaliwyd sesiwn drafod benodol i ystyried y cyfeiriad strategol a'r blaenoriaethau ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd (FRM) yn CNC. Yn dilyn cyflwyniadau a roddodd drosolwg o'r gwasanaeth FRM a'r gweithgareddau allweddol, cafwyd trafodaeth ar y dull o ymdrin ag FRM yn CNC.
4. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod graddau'r ystod o weithgareddau sy'n gysylltiedig â FRM a'r anawsterau o ran nodi'r cyfeiriad strategol yn sgil hyn. Trafodwyd y dull o ymdrin â pherygl llifogydd ac ystyriwyd a oedd angen cydnabod na ellid rheoli'r perygl o lifogydd yn ddi-ben-draw. Byddai angen canolbwyntio ar bartneriaethau, lleihau dyblygu

a lleihau gorgyffwrdd er mwyn datblygu cynllun cyfunol a fyddai'n manteisio ar arloesedd ac arfer gorau.

5. Byddai angen datblygu dull cyfannol a oedd yn cynnwys atebion sy'n seiliedig ar natur a datgarboneiddio, gan gynnwys ystyried effaith hirdymor atebion sy'n seiliedig ar natur. Trafodwyd ffocws ar atebion dalgyloch. Ystyriwyd y materion sy'n ymwneud â symud oddi wrth y dull presennol. Trafodwyd cyfathrebu ac ymgysylltu â chymunedau a chydnabuwyd pwysigrwydd mesur effeithiolrwydd camau gweithredu a datblygu negeseuon clir ac allweddol.
6. Trafodwyd gallu CNC i gydbwyso ei ofynion sy'n cystadlu â'i gilydd a sicrhau bod cysylltiad ar draws blaenoriaethau. Ymchwiliwyd i'r ysgogiadau a'r cymhellion sydd eu hangen i gyflawni newid. Pwysleisiwyd dull cydgysylltiedig ar draws sectorau, gan gynnwys o fewn swyddogaethau CNC, y byddai ei angen i greu strategaeth integredig.
7. Bydd yr eitem hon yn cael ei thrafod yn sesiwn gyhoeddus cyfarfod y Bwrdd ym mis Mai.

Cyfarfod yr FRMC

Materion yn codi

8. Hysbyswyd yr FRMC fod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'r gwaith o gomisiynu ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu ar gyfer "adolygiad annibynnol o adroddiadau Adran 19 llywodraeth leol ac adroddiadau CNC ar y llifogydd eithafol yn ystod gaeaf 2020/21". Nodwyd bod CNC wedi bod yn dryloyw o ran ei ddull gweithredu a'i fod wedi cyhoeddi'r holl wybodaeth am hyn.

Rhaglen Weithredu ar gyfer Adolygu ac Adfer yn dilyn Llifogydd

9. Darparwyd diweddariad ar y Rhaglen Weithredu ar gyfer Adolygu ac Adfer yn dilyn Llifogydd. Arhosodd y statws Coch Oren Gwyrdd (RAG) yn Oren, gan adlewyrchu'r heriau sy'n gysylltiedig â recriwtio, effeithiau stormydd diweddar, materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi fyd-eang a dibyniaeth ar brosiectau TGCh. Trafodwyd y materion hyn gan y Pwyllgor a darparwyd mwy o fanylion am y risg TGCh. Eglurwyd y dull o olrhain y camau a drosglwyddwyd i'r tîm Stiwardiaeth Tir. Darparwyd mwy o fanylion am y camau gweithredu sy'n gysylltiedig â modelu a rhagweld. Gofynnodd yr FRMC am i'r buddion y byddai cymuned yn disgwyl eu gweld o'r camau gweithredu gael eu hychwanegu at yr adroddiad.

Y Rhaglen Gyfalaf

10. Darparwyd diweddariad ar y Rhaglen Gyfalaf. Trafodwyd y gwaith sy'n mynd rhagddo gyda'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni. Gofynnodd y Pwyllgor am y broses hidlo a gwneud penderfyniadau ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf a gofynnodd am drosolwg o'r broses gwneud penderfyniadau i egluro'r llwybr archwiliadwy i roi sicrwydd.
11. Cymeradwyodd yr FRMC y Cynllun Tymor Canolig Rheoli Perygl Llifogydd a'r amrywiannau ers y cyfarfod blaenorol.

Cronfeydd dŵr

12. Darparwyd diweddariad ar y dull o fynd i'r afael ag argymhellion yr Athro Balmforth yn ei adroddiad yn dilyn y digwyddiad yng nghronfa ddŵr Toddbrook yn Lloegr. Disgrifiwyd cydymffurfiaeth CNC a pherfformiad Chwarter 4. Rhoddwyd esboniad ar gydymffurfiaeth a diogelwch fel mesurau ar wahân. Roedd Adolygiad Balmforth wedi gwneud argymhellion ar y dull o godi tâl a disgrifiwyd y broses codi tâl bresennol a'r broses a gynigiwyd ar gyfer y dyfodol.
13. Ystyriwyd cynhyrchu adroddiad blynyddol a chytunodd yr FRMC y dylai'r adroddiad gael ei lunio a'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad bob dwy flynedd. Trafodwyd y cynllun codi tâl arfaethedig, ac eglurwyd y manylion. Nodwyd y pwysau ariannol presennol ar gymdeithas. Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor am ragor o fanylion am y grŵp arbenigol y bydd angen ymgynghori ag ef cyn yr ymgynghoriad llawn â rhanddeiliaid ar y cynigion i godi tâl, a darparwyd y manylion hynny. Cytunodd yr FRMC i gefnogi egwyddorion y cynllun codi tâl arfaethedig ar gyfer Rheoleiddio Cronfeydd Dŵr.

Adolygiad Effeithiolrwydd yr FRMC

14. Cyflwynwyd dadansoddiad o holiaduron ar-lein yr FRMC i'r FRMC, ac ystyriwyd y camau â blaenoriaeth. Trafodwyd y dull o greu cydbwysedd rhwng yr angen i awdurdodi penderfyniadau penodol a chynnal trafodaethau strategol. Trafodwyd ailgyflwyno ymweliadau safle. Ystyriodd yr FRMC y cwestiwn o sut y gallai'r Pwyllgor sicrhau bod trafodaethau'n gysylltiedig â risgiau diogelwch eraill. Cytunwyd bod meysydd seilwaith y tu allan i faes Llifogydd y tu hwnt i gwmpas y Pwyllgor.

Adolygiad Risg Rheoli Digwyddiadau

15. Cafwyd cyflwyniad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am Risg Strategol Rheoli Digwyddiadau yn Effeithiol (SR09). Roedd risgiau sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hystyried, yn enwedig o ran y sefyllfa yn Wcráin. Nodwyd bod camau gweithredu a mesurau rheoli newydd wedi'u cyflwyno, ond ni ystyriwyd bod y sgoriau risg ar gyfer SR09 wedi newid ers yr adolygiad diwethaf, gan fod angen ymgorffori'r camau rheoli newydd a gwireddu'r buddiannau'n llawn cyn i'r sgoriau presennol newid.
16. Ystyriodd yr FRMC gynnwys y diweddariad a chytunodd y gellid craffu'n flynyddol (yn hytrach na dwywaith y flwyddyn) ar y risgiau strategol oni bai bod unrhyw beth arwyddocaol i'w adrodd rhwng y cyfnodau adrodd a drefnwyd.

UNRHYW FATER ARALL

17. Diolchodd yr FRMC i Julia Cherrett am ei gwaith fel Cadeirydd y Pwyllgor.

Papur Bwrdd

Dyddiad y Cyfarfod	26/05/2022
Teitl y Papur	Newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol
Cyfeirnod y Papur	22-05-B12
Noddwyd y Papur gan	Clare Pillman, Prif Swyddog Gweithredol
Paratowyd y Papur gan	Clare Jones, Prif Gyngorydd Arbenigol, Llywodraethu
Cyflwynwyd y Papur gan	Clare Jones, Prif Gyngorydd Arbenigol, Llywodraethu
Diben y Papur	Approval
Crynodeb	Gofyn am gymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol gan y Bwrdd Busnes Rheoleiddio

Cefndir

- Mae'r papur hwn yn cyflwyno newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol gan y Bwrdd Busnes Rheoleiddio. Mae'r Tîm Llywodraethu'n cynnal adolygiad blynyddol o'r Cynllun, ond weithiau rydym yn derbyn ceisiadau am ddiweddariadau y tu allan i'r broses honno. Yn ddiweddar, rydym wedi derbyn cais gan y Bwrdd Busnes Rheoleiddio i gynnwys saith cofnod newydd yn ymwneud â gweithgareddau rheoleiddio.
- Mae ein gweithdrefnau'n datgan bod rhaid cyflwyno unrhyw linellau neu adrannau newydd yn y Cynllun, neu newidiadau i'r awdurdod dirprwyedig sy'n effeithio ar y Prif Swyddog Gweithredol ei hun neu aelodau'r Tîm Gweithredol, i'r Bwrdd eu cymeradwyo hefyd.
- Mae'r papur hwn yn gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd i gyflwyno newid i'r Cynllun i gynnwys y llinellau ychwanegol y gofynnir amdanynt. Cymeradwywyd y cynnig gan y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, a'r Prif Weithredwr ym mis Ebrill 2022.
- Mae'r Bwrdd Busnes Rheoleiddio wedi gofyn am gyflwyno saith cofnod newydd i ymdrin â cheisiadau a gyflwynir gan CNC fel sefydliad drwy ei hawl ei hun. Mae'r

Bwrdd Busnes o'r farn fod y rhain yn galw am gofnod ar wahân, yn arbennig er mwyn sicrhau'r gymeradwyaeth lefel uwch sydd ei hangen ar gyfer ein ceisiadau ni, ac i wahaniaethu rhwng ceisiadau allanol a cheisiadau a gyflwynir gan CNC.

5. Mae yna effaith ganlyniadol ar rifau'r adran hon, ond nid yw'r diwygiadau hyn wedi'u cynnwys yn yr atodiad gan y byddwn yn cymryd y bydd cymeradwyo'r ychwanegiadau'n cynnwys cymeradwyo'r newidiadau canlyniadol i'r rhifau.
6. Mae Atodiad 1 yn cyflwyno'r saith cofnod Bwrdd Busnes Rheoleiddio newydd i'r Bwrdd eu cymeradwyo.

Risgiau a chyfleoedd

7. Mae'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol yn rhan bwysig o'n fframwaith llywodraethu a gall methu diwygio'r lefel ddirprwyo gyfredol adael CNC yn agored i'r posibilrwydd o gyhuddiadau o wrthdaro buddiannau canfyddedig neu wirioneddol.

Goblygiadau ehangach

8. Nid oes unrhyw oblygiadau nac ystyriaethau ariannol ychwanegol.
9. Mae'r gofynion llywodraethu'n effeithio ar bob aelod o staff i'r un graddau. Ni ragwelir unrhyw effeithiau andwyol ar gyfer unrhyw grwpiau neu nodweddion gwarchoddedig penodol.

Y camau nesaf

10. Yn dilyn cymeradwyo'r cofnodion ychwanegol arfaethedig bydd y Bwrdd Busnes Rheoleiddio'n cael ei gynghori a'r llinellau newydd yn cael eu cynnwys ym mhrif ddogfen y Cynllun.

Argymhelliad

11. Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo'r cofnodion ychwanegol arfaethedig i'w cynnwys ym mhrif ddogfen y Cynllun Statudol a Chyfreithiol.

Mynegai atodiadau

Atodiad 1: CNC SaLS 2022 – Ychwanegiadau'r Bwrdd Busnes Rheoleiddio i'w cymeradwyo gan y Bwrdd

						Delegated Level			
	REF	Category	Sub-Category	Function	Applicable Board(s)	Section of legislation	Job Grade	Job Description	Link to MoM
Proposed	18.85	Regulatory activities	Water Quality	Determination of an NRW application to issue, refuse, transfer, revoke or vary a Water Quality Permit.	REGBB	Regulations 13, 14, 15, 17, 18, 20, 21, 24, 25, 27 and part 1 of Schedule 5 Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2016	Grade 9	Permitting Services Manager (Grade 9)	No
Proposed	18.92	Regulatory activities	Waste	Determination of an NRW application to issue, refuse, transfer, revoke or vary a Waste Permit.	REGBB	Regulations 13, 14, 15, 17, 18, 20, 21, 24, 25, 27 and part 1 of Schedule 5 Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2016	Grade 9	Permitting Services Manager (Grade 9)	No
Proposed	18.154	Regulatory activities	Radioactive Substances	Determination of an NRW application to issue, refuse, transfer, revoke or vary an RSR Permit.	REGBB	Regulations 13, 14, 15, 16, 17, 18, 20, 21, 24, 25, 27 and part 1 of Schedule 5 Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2016	Grade 9	Permitting Services Manager (Grade 9)	No
Proposed	18.178	Regulatory activities	Species licensing	Issue, refuse, modify, and revoke licences required by NRW.	REGBB	Regulation 55 of the Conservation of Habitats and Species Regulations 2017, Regulation 55 of the Conservation of Offshore Marine Habitats and Species Regulations 2017, Section 8 of the Deer Act 1991, Section 16 of the Wildlife and Countryside Act 1981, Section 10 of Badgers Act 1992 and Article 36 of the Invasive Alien Species (Enforcement & Permitting) Order 2019	Grade 6/7	Permitting Team Leader (Grade 6/7)	No
Proposed	18.211	Regulatory activities	Industry Regulation	Determination of an NRW application to issue, refuse, transfer, revoke or vary an Installation permit.	REGBB	Regulations 13, 14, 15, 16, 17, 18, 20, 21, 24, 25, 27 and part 1 of Schedule 5 Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2016	Grade 9	Permitting Services Manager (Grade 9)	No
Proposed	18.213	Regulatory activities	Forestry Licences – Felling (including FRP approval), EIAs	Issue, refuse, modify and revoke licences required by NRW.	REGBB	EIA (Forestry) (England and Wales) Regulations 1999 amended 2017	Grade 6/7	Permitting Team Leader (Grade 6/7)	No
Proposed	18.216	Regulatory activities	Marine Licences	Determination of an NRW application to issue, refuse, transfer, revoke or vary a Marine licence.	REGBB	The Marine and Coastal Access Act 2009 Part 4, Chapter 1	Grade 9	Permitting Services Manager	No

Papur Bwrdd

Teitl y Papur:	Sefydlu Pwyllgor Cyngori Rhanbarthol yn unol â'r Ddeddf Coedwigaeth (1967)
Cyfeirnod y Papur:	22-05-B13
Noddir y Papur gan:	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu
Cyflwynir y Papur gan:	Ruth Jenkins, Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol, Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu; Melanie Meaden, Cyngorydd Arbenigol Arweiniol, Coedwigaeth
Diben y Papur	Penderfyniad
Argymhelliad	Dylai'r Bwrdd ystyried a chymeradwyo sefydlu Pwyllgor Cyngori Rhanbarthol ar gyfer coedwigaeth

Mater

1. Mae'r papur hwn yn gofyn i'r Bwrdd gymeradwyo sefydlu Pwyllgor Cyngori Rhanbarthol (RAC) drwy Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF) i roi cyngor mewn perthynas â swyddogaethau coedwigaeth penodol.
2. Mae'r Ddeddf Coedwigaeth (1967) yn ei gwneud yn ofynnol i CNC gynnal RAC. Yn flaenorol, cyflawnwyd rôl yr RAC gan Banel Cyngori Strategaeth Coetiroedd Llywodraeth Cymru, ond mae'r Panel hwn wedi'i ddiddymu a'i ddisodli gan strwythurau llywodraethu coedwigaeth newydd. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn glir mai cyfrifoldeb CNC yw sefydlu a chynnal RAC. Tynnwyd sylw Asesydd Diogelu'r Amgylchedd Dros Dro Cymru (IEPAW) at y mater hwn mewn cwestiwn diweddar.
3. Yn dilyn trafodaethau diweddar rhwng y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu (EPP), y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol (CCC), y Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol (NRM), y Pennaeth Llywodraethu, a thîm Cyfreithiol CNC, nodwyd ateb a fyddai'n defnyddio'r WLMF presennol i weithredu fel RAC. Cymeradwywyd y cynnig gan Dîm Gweithredol CNC ym mis Ionawr 2022.
4. Mae gofyniad cysylltiedig ond ar wahân o dan y Ddeddf Coedwigaeth i Bwyllgor Cyfeirio gael ei benodi gan Weinidogion Cymru os bydd gwrthwynebiad i benderfyniad a wneir gan CNC. Mae Llywodraeth Cymru yn ffurfio panel statudol newydd i fynd i'r afael â'r gofyniad hwn.

Cefndir

5. Mae Atodiad 1 yn crynhoi'r gofynion perthnasol a nodir yn y Ddeddf Coedwigaeth (1967). I grynhoi, rôl RAC yw:
 - Cynghori CNC ar wrthod / caniatáu trwyddedau cwmpo coed yn amodol ar amodau, hysbysiadau ailstocio, cyhoeddi cyfarwyddiadau cwmpo coed a gorfodi amodau trwyddedau cwmpo coed a chyfarwyddiadau cwmpo coed yn unol â Safon Coedwigaeth y DU (UKFS); a
 - Chynghori ar y ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo sefydlu a chynnal a chadw coed sy'n tyfu (h.y. Adnodd Coedwigoedd Cymru).
6. Yn ogystal, mae'r Ddeddf Coedwigaeth yn nodi bod rhaid i'r Cadeirydd ac aelodau eraill yr RAC gael eu penodi gan CNC a dal a gadael eu swyddi yn unol â'r offeryn y'u penodir yn seiliedig arno. Mae'n ei gwneud yn ofynnol hefyd bod rhaid cael rhwng saith a deuddeg aelod, ac ni fydd llai na phedwar o'r rhai a benodir yn cynrychioli buddiannau perchnogion coetiroedd a masnachwyr pren a sefydliadau sy'n ymwneud ag astudio a hyrwyddo coedwigaeth.
7. Mae'n ofynnol i CNC ystyried unrhyw gyngor a roddir gan yr RAC. Yn ogystal â'r RAC yn rhoi cyngor ar y swyddogaethau uchod, mae'r Ddeddf Coedwigaeth yn rhoi disgresiwn hefyd i CNC ofyn iddo roi cyngor hefyd ar *unrhyw swyddogaethau eraill o'r fath y gall CNC eu pennu o bryd i'w gilydd*.
8. Ceir esboniad manylach o'r cynnig i gysylltu'r RAC â'r WLMF yn Atodiad 2. Yr awgrym yw y byddai'r RAC yn gweithredu ar sail 'yn ôl yr angen' ond gan ddarparu ar gyfer o leiaf un cyfarfod y flwyddyn.
9. Mae llawer o fanteision i ddefnyddio'r WLMF at y diben hwn. Mae'n grŵp sefydledig ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid, felly byddai'n osgoi rhoi beichiau ychwanegol ar randdeiliaid sydd eisoes yn brysur. Yn ogystal â sicrhau mewnbwn gan y rhai sydd ag arbenigedd priodol ym maes coedwigaeth, bydd aelodau sefydledig WLMF yn cyfrannu safbwynt rheoli tir ehangach at eu cyngor. Byddai datblygu unrhyw grŵp newydd i weithredu fel RAC yn gofyn am adnoddau ysgrifenyddiaeth a staff ychwanegol i'w rheoli hefyd.
10. Ar ôl yr archwiliad dwfn i goed a phren ym mis Mehefin 2021, mae mwy o ddiddordeb mewn coed a choetiroedd a'u rôl yn y canlyniadau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Dylai'r argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad dwfn hwn gefnogi newid sylweddol mewn cyfraddau plannu coed ledled Cymru ac, ynghyd ag elfennau coedwigaeth newydd y Bil Amaethyddiaeth, mae'n debygol y bydd mwy o ddiddordeb, craffu a gwrthwynebiad posibl i benderfyniadau CNC. Felly, ystyrir bod sefydlu RAC yn amserol.

Argymhelliad

11. Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo ffurfio RAC sy'n gysylltiedig â'r WLMF presennol, yn unol â gofynion y Ddeddf Coedwigaeth.

Risgiau Allweddol

12. Mae perygl y gallem wynebu her gyfreithiol gan randdeiliaid allanol os nad ydym yn sefydlu RAC sy'n gweithio. Mae risg hefyd o her gan yr IEPAW. Mae risg i'n henw da os nad ydym yn mynd i'r afael â newidiadau yn ymagwedd Llywodraeth Cymru at lywodraethu coedwigaeth, ac yn ymateb iddynt. Mae risg y bydd Llywodraeth Cymru yn ein cosbi os na fyddwn yn sefydlu RAC pan fo'n amlwg yn gyfrifoldeb arnom i wneud hynny.
13. Yn fewnol, mae risg o ran cymorth ysgrifenyddol i'r WLMF gan nad yw Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd yn darparu hyn ar hyn o bryd. Dim ond tan wanwyn 2023 y mae adnodd ysgrifenyddiaeth bresennol yr WLMF ar gael. Byddai angen i ni ddod o hyd i ateb tymor hwy i'r mater hwn er mwyn parhau i gefnogi'r WLMF yn briodol, ynghyd â'r ddyletswydd RAC newydd hon.
14. Mae risg o ran sicrhau aelodaeth briodol o'r WLMF wrth symud ymlaen i sicrhau ei fod yn bodloni gofynion penodol y Ddeddf Coedwigaeth (gweler paragraff 6). Ar hyn o bryd, mae aelodaeth yr WLMF yn cynnwys sefydliadau sy'n cynrychioli rheolwyr tir. Mae gan y rhan fwyaf ddiddordeb mewn coedwigaeth, ond dim ond Confor (Cydffederasiwn Diwydiannau Coedwigoedd y DU) sy'n bodloni gofynion cynrychioli'r sector coedwigaeth.
15. Yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth, cytunwyd y byddai'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn archwilio opsiynau i ffurfio is-grŵp o'r Bwrdd i ddarparu trosolwg a gwaith craffu strategol ar goedwigaeth. Byddai hyn yn wahanol i'r RAC arfaethedig a fyddai'n rhoi cyngor annibynnol i CNC, gan gynnwys i bwyllgor newydd y bwrdd pe bai angen. Fel rhan o ddatblygu prosesau a chanllawiau'n fewnol (gweler paragraff 17), bydd y berthynas rhwng y ddau yn cael ei hegluro.

Camau Nesaf

16. Bydd angen diwygio Cylch Gorchwyl yr WLMF er mwyn bodloni gofynion yr RAC yn llawn ac adolygu'r aelodaeth.
17. Bydd angen datblygu prosesau a chanllawiau mewnol i esbonio pryd yn union y dylid ceisio mewnbyn cynghori gan yr RAC.

Goblygiadau Ariannol

18. Prin yw goblygiadau ariannol y cynnig hwn. Nid yw aelodau'r WLMF yn cael eu talu. Dim ond â chyfarfodydd ac amser staff y byddai'r costau'n gysylltiedig.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA)

19. Nid oes EqIA wedi'i gynnal gan fod yr WLMF yn bodoli eisoes.

Mynegai Atodiadau

Atodiad 1: Tabl o ofynion yr RAC a nodir yn Neddf Coedwigaeth 1967

Atodiad 2: Amlinelliad o'r cynigion i'r WLMF weithredu fel yr RAC

Atodiad 3: Cylch Gorchwyl drafft y Pwyllgor Cyngori Rhanbarthol (RAC)

Atodiad 4: Cod Ymddygiad drafft (Pwyllgor Cyngori Rhanbarthol)

Annex 1: Table of RAC requirements stipulated in the Forestry Act 1967

Requirement	Clause
NRW shall continue to maintain a RAC whose purpose is to advise on our performance relating to specified forestry functions namely:	Pt 3, s.37 (1) Pt 3, s.37 (1, b)
<ul style="list-style-type: none"> • Powers to control the felling of trees including: <ul style="list-style-type: none"> - Felling licence applications - Felling licence conditions for replanting and maintenance of those trees in accordance with rules and practice of good forestry for ten years 	Pt 2 Pt 2, s.10 Pt 2, s.12
<ul style="list-style-type: none"> • Powers to direct felling in the interests of good forestry etc. 	Pt 2, s.18
<ul style="list-style-type: none"> • Powers to enforce felling licence conditions and felling directions 	Pt 2, s.24
We must take into account any advice tendered by the RAC in considering whether to refuse a felling licence or grant unconditionally (not to replant) or conditionally (to replant) and in considering whether to give felling directions	Pt 3, s.37 (3a) Pt 3, s.37 (3b)
To operate with respect to our fulfilment of:	
<ul style="list-style-type: none"> • The general duty of 'promoting the establishment and maintenance of adequate reserves of growing trees' 	Pt 1, s.1 (3)
The RAC is also required to provide a consultation role in the appointment of the Welsh Minister's Committee of Reference in the event of a challenge to decisions made by us in respect of:	Pt 2, s.27 (1,a; 2,a)
<ul style="list-style-type: none"> • Refusal of, or granting of, a felling licence subject to conditions 	Pt 2, s.16
<ul style="list-style-type: none"> • Restocking notices 	Pt 2, s.17B
<ul style="list-style-type: none"> • Serving of felling directions 	Pt 2, s.20, 21
<ul style="list-style-type: none"> • Enforcement of felling licence conditions and felling directions 	Pt 2, s.25

Annex 2: Outline proposals for the WLMF to act as the RAC

Membership of the WLMF acting as the RAC

The existing membership of the WLMF will be reviewed to ensure it meets the requirements of the Forestry Act in relation to forming a RAC. Members would be expected to be well informed of the interest they represent. As far as possible, the WLMF should be made up of members without conflicting interests to avoid the appearance of bias. As far as possible, this should exclude members who have already been appointed to WG's Statutory Panel (Committee of Reference).

- (b) Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru⁵ yn cynnwys targedau a mesurau ar gyfer FRM dros oes y llywodraeth hon (hyd at 2026); rhestrir y rhain yn Atodiad 1. Noder yn benodol y mesur ar Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru i 'asesu sut y gellir lleihau'r tebygolrwydd o lifogydd ... erbyn 2050'.

¹ Gweler [Cyllideb Derfynol 2022 i 2023 | LLYW.CYMRU](#) Cyllideb adnoddau (refeniw) 'Rheoli perygl llifogydd a pholisi dŵr' i gynyddu i ~£55 miliwn yn 2024/25 (tua £50 miliwn wedi'i ddyrannu i FRM) o llinell sylfaen o ~£30 miliwn wedi'i ddyrannu i FRM yn 2021/22

² Gweler [Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 \(legislation.gov.uk\)](#) Adran 8

³ Gweler [y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru | LLYW.CYMRU](#)

⁴ Gweler [Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 \(legislation.gov.uk\)](#) Adran 12

⁵ Gweler [y Rhaglen lywodraethu: diweddariad | LLYW.CYMRU](#)

- (c) Disgrifir gweithgareddau a gwariant presennol CNC ar FRM yn ein Hadroddiad Blynyddol FRM⁶. Atgynhychir yr adran dyraniadau refeniw, sy'n disgrifio ein gweithgareddau a'n lefelau buddsoddi, o'r adroddiad hwnnw yn Atodiad 2. Mae Atodiad 3 yn dangos y disgrifyddion gweithgareddau a ddefnyddiwn i grwpio ein gweithgareddau at ddibenion cynllunio busnes ac adrodd.
- (d) Mae gweithgareddau FRM CNC yn cael eu darparu yng nghyd-destun Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, Datganiadau Ardal, SoNaRR (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae buddion lluosog yn cael eu ceisio a'u cyflawni drwy weithgareddau FRM, a defnyddir egwyddorion a ffyrdd o weithio Deddf yr Amgylchedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- (e) Nid yw CNC yn gyfrifol am reoli 'pob achos o lifogydd'. Mae ein pwerau a'n cyfrifoldebau'n ymwneud â llifogydd o brif afonydd a'r môr, ac ar gyfer rheoleiddio cronfeydd dŵr, ac mae gan Awdurdodau Lleol gyfrifoldebau am lifogydd o ddŵr nad yw'n brif afon a dŵr wyneb (a elwir yn aml yn 'llifogydd lleol'). Mae gan CNC rôl oruchwylio strategol hefyd, a ddisgrifir yn y Strategaeth Genedlaethol (paragraffau 123-124) fel a ganlyn:

'cael dealltwriaeth gyson, ar draws Cymru gyfan, o bob ffynhonnell llifogydd ac erydu arfordirol, a'r risgiau sy'n gysylltiedig â nhw, er mwyn darparu cyngor i Lywodraeth Cymru yn ogystal â helpu i hysbysu'r Awdurdodau Rheoli Risg a'r cyhoedd Mae hyn yn bwysig er mwyn gwneud y defnydd gorau o gynllunio a buddsoddi er mwyn rheoli perygl llifogydd yn effeithiol, mewn ffordd sy'n seiliedig ar risg, yn dryloyw ac yn gyson.'

- (f) Rydym yn cynnal adolygiadau ac asesiadau o'n gweithgareddau, a lefelau'r perygl o lifogydd, er mwyn llywio ein proses o gynllunio gwaith i'r dyfodol. Mae enghreifftiau'n cynnwys:
- Mae Asesiad Perygl Llifogydd Cymru (cynnyrch mapio a modelu) yn rhoi data ar lefelau'r perygl o lifogydd nawr ac yn y dyfodol;
 - Mae ein gwaith Adolygu Llifogydd a'n Hadolygiad o'r Gwasanaeth Rhybuddio am Lifogydd ym mis Chwefror 2020 yn llywio'r gwaith o ddatblygu ein gwasanaethau digwyddiadau llifogydd;
 - Llywiodd y gwaith Adolygu Ardaloedd Busnes a wnaed (tua) 2013-2015 ein penderfyniadau i flaenoriaethu gwaith statudol a rhwymedigaethau cyfreithiol (e.e. gwaith cynnal a chadw) dros weithgareddau dewisol neu anstatudol (e.e. codi ymwybyddiaeth gymunedol) – ond gan gydnabod bod y naill a'r llall yn rhan o'r adnoddau sydd gennym reoli perygl llifogydd ac, yn ddelfrydol, y byddai'r ddau weithgarwch (a phob un arall) yn cael eu darparu pe bai digon o adnoddau;
 - Mae Cynlluniau Rheoli Traethlin yn llywio ein gwaith o addasu'r arfordir.
- (g) Mae Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd (FRMPs) newydd CNC wrthi'n cael eu datblygu. Mae'r rhain yn un o ofynion y Rheoliadau Llifogydd (2009) a rhaid iddynt gynnwys gwybodaeth am yr hyn sydd mewn perygl o lifogydd ochr yn ochr â'r amcanion a'r mesurau a gynigiwn i reoli'r perygl o lifogydd i bobl, yr amgylchedd a

⁶ Gweler [Cyfoeth Naturiol Cymru / Adroddiad blynyddol rheoli perygl llifogydd 2020-2021](#), yn enwedig yr adran ar 'ble mae ein harian yn cael ei wario'

gweithgarwch economaidd ledled Cymru dros gyfnod o chwe blynedd. Rydym yn datblygu amcanion strategol cenedlaethol ar gyfer y cynlluniau newydd hyn, ac rydym wedi rhannu fersiynau drafft gyda'r FRMC er mwyn iddo wneud sylwadau arnynt. Mae'r FRMPs presennol (2015) ar gael ar ein gwefan⁷.

- (h) Mae cyd-destun hanesyddol eang i'r ffordd mae'r ymateb i lifogydd wedi esblygu: o gysyniad o *ddraenio tir* ar ddechrau'r 20^{fed} ganrif i *amddiffyn rhag llifogydd* ganol y ganrif i *reoli perygl llifogydd* ar droad y ganrif a, gellid dadlau, i *addasu a gwrthsefyll* llifogydd yn yr 21^{ain} ganrif.
- (i) Byddwn yn ceisio cysylltu'r gwaith o ddatblygu ein cyfeiriad FRM strategol â datblygu ein cynllun corfforaethol nesaf, a byddwn yn parhau hefyd i gysylltu â'r trafodaethau 'lefel gwasanaeth' parhaus rhwng CNC a Llywodraeth Cymru.

Crynodeb o drafodaethau'r FRMC

5. Mae'r prif bwyntiau o drafodaeth yr FRMC ym mis Ebrill wedi'u crynhoi fel a ganlyn:

- (a) Cydnabod y bu ffocws gwleidyddol ar gynlluniau cyfalaf yn aml yn hanesyddol, a diffyg gwerthfawrogiad o'r gweithgareddau hanfodol a ariennir gan refeniw (er y gallai hyn fod yn dod yn fwy cytbwys);
- (b) Gwerthfawrogi bod elfen gref o waith FRM craidd y mae angen buddsoddiad (refeniw) ynddo a'i wella'n barhaus e.e. ein gwasanaeth rhybuddio am lifogydd neu ein gwaith cynnal a chadw. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi yn yr asedau seilwaith (ffisegol, dynol, digidol) sy'n sail i'r gweithgareddau craidd hyn;
- (c) Cydnabod y cyfle i newid gweithgarwch ac ymateb, yn sgil cyhoeddiadau cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer tymor y llywodraeth - y cynnydd mewn refeniw FRM (noder bod hyn ar gyfer pob RMA, nid CNC yn unig) o ~£30 miliwn yn 2021/22 i ~£50 miliwn yn 2024/25;
- (d) Awydd i beidio â gwneud 'mwy o'r un peth' yn ddiodyn, ond i ymateb i'r argyfyngau natur a hinsawdd a'r heriau ymaddasu gyda dulliau newydd neu arloesol;
- (e) Diddordeb mawr mewn gwthio'r ffiniau ar ddulliau cyfan/integredig sy'n seiliedig ar ddalgylch o reoli perygl llifogydd, gyda buddion lluosog. Mae hyn yn cynnwys atebion sy'n seiliedig ar natur, ond gydag ystyriaethau ar raddfa dalgylch i raddau helaeth, ac elfennau cryf o weithio mewn partneriaeth ar raddfa;
- (f) Diddordeb mawr mewn 'gwneud mwy' ar ddatblygu cydnerthedd cymunedol, gan gynnwys y cysyniadau o sut y gall cymunedau wneud mwy i helpu eu hunain, ochr yn ochr â'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir yn ganolog;

⁷ Gweler [Cyfoeth Naturiol Cymru / Cynlluniau rheoli perygl llifogydd](#)

- (g) Awydd i fod yn arloesol a defnyddio technoleg sy'n dod i'r amlwg, ond cydnabod yr angen i hyn beidio ag amharu ar yr angen am ffocws clir ar waith parhaus sydd ei angen i gadw gweithgareddau craidd ar lefelau priodol o wasanaeth;
- (h) Cydnabod yr heriau sgiliau yn y sector, yn enwedig o ystyried bod cyllideb ychwanegol sylweddol (a disgwyliadau) yn debygol;
- (i) Cydnabod y bydd Llywodraeth Cymru yn chwilio am fwy o gyflawniad a mwy o ganlyniadau yn erbyn y cynnydd (tebygol) yn y gyllideb, a'r cyfle posibl i lunio ein gweithgareddau ychwanegol yn y goleuni hwn e.e. gallem gyflwyno'r achos dros fuddsoddi mwy mewn dulliau seiliedig ar ddalgylch er mwyn sicrhau mwy o ganlyniadau;
- (j) Cydnabod y cysylltiadau cryf â blaenoriaethau a strategaethau cwsmeriaid a digidol CNC, a Datganiadau Ardal⁸ a SoNaRR⁹.
- (k) Awydd i archwilio'r berthynas rhwng cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru dros strategaeth a rôl oruchwylio strategol CNC i sicrhau ein bod yn cyflawni ein holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau.

Opsiynau

6. Wrth ymateb i'r her a fynegwyd gan Gadeirydd yr FRMC (paragraff 2), gellir crynhoi'r opsiynau cyffredinol fel a ganlyn:
- Opsiwn A – Gwneud mwy o'r un gweithgareddau.
 - Opsiwn B – Lleihau'r ystod o weithgareddau, ac ehangu eu hansawdd neu eu cwmpas.
 - Opsiwn C – Mabwysiadu dull sylfaen sero a datblygu ein gweithgareddau.
 - Opsiwn D – Ehangu ein gweithgareddau presennol a datblygu rhai newydd.
7. Mae angen i ni gydnabod nad oes unrhyw un ateb i lifogydd a bod angen amrywiaeth o ymyriadau a gweithgareddau. Mae'n wir i raddau, er bod angen i ni addasu a bod yn agored i dactegau a gweithgareddau newydd yn ein hymateb i heriau'r argyfyngau hinsawdd a natur.
8. Mae angen i ni gydnabod hefyd fod gennym gasgliad sylweddol iawn o asedau (ffisegol, dynol, digidol) sydd angen eu cynnal a chadw (gweithredu a chynnal a chadw, a gwelliant parhaus). Mae bylchau a gwasgbwyntiau yn y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd e.e. cynnal a chadw, cyngor datblygu, rhwydwaith hydrometrig, ein gwasanaethau digidol ac ati. Nid yw'n fater o newid tactegau yn unig a naill ai gwneud llai neu barhau â'r sefyllfa bresennol gyda'r gweithgareddau hyn wrth i ni ddatblygu

⁸ [Cyfoeth Naturiol Cymru / Datganiadau Ardal](#)

⁹ [Cyfoeth Naturiol Cymru / Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol \(SoNaRR\) Cymru 2020](#)

gweithgareddau newydd a fydd yn 'trwsio'r heriau llifogydd' (a'r heriau hinsawdd a natur) sy'n ein hwynebu. Nid yw mor syml â hynny.

9. At hynny, ar gyfer pob un o'n gweithgareddau, mae amrywiaeth o opsiynau ar gyfer 'gwneud mwy' ym mhob gweithgaredd, yn hytrach na dewis deuaidd. Ystyriwch yr enghraifft o Rybuddion Llifogydd. Mae'r opsiynau'n cynnwys gwneud mwy ar (a) ehangu cwrpas y gwasanaeth yn ddaearyddol (mwy o eiddo yn cofrestru ar gyfer gwasanaethau presennol) (b) gwella ansawdd y gwasanaeth (rhybuddion mwy cywir i gwsmeriaid presennol) neu (c) datblygu gwasanaethau newydd e.e. rhybuddion llifogydd dŵr wyneb. Pa un yw'r opsiwn gorau? Mae cyfres o ddewisiadau ar gyfer ein holl weithgareddau o ran i ba raddau rydym yn ymgymryd â nhw. Hefyd, mae pob dewis yn dibynnu ar seilwaith neu systemau sylfaenol e.e. mae ehangu cwrpas yn gofyn am fwy o orsafoedd a systemau telemetreg, a mwy o alluoedd modelu. Nid yw'n ddewis syml o wneud mwy o un gweithgarwch yn unig – mae rhyngweithio rhyngddynt.

Yr opsiwn a ffefrir

10. Awgrymir mai Opsiwn D yw'r opsiwn realistig a'r opsiwn a ffefrir – mae angen cyfuniad o'r canlynol arnom:

- (a) mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth gwasanaethau allweddol bresennol;
- (b) ystyried ehangu'r gwasanaethau a ddarperir mewn rhai meysydd gweithgareddau presennol (i'w cytuno); a
- (c) chyflwyno elfennau newydd o weithgarwch.

Efallai y bydd Opsiwn C yn ymddangos yn ddymunol, ond gwyddom na allwn roi'r gorau i wneud llawer o'n gweithgareddau presennol, am resymau deddfwriaethol a disgwyliadau, a byddai'r opsiwn hwn yn cymryd amser i'w asesu a'i gyflawni. Nid yw Opsiynau A a B yn ehangu'r adnoddau sydd gennym i ymateb i'r heriau.

11. Ar ôl trafod yn yr FRMC a'r ET, awgrymir mai dyma'r 5 prif faes arfaethedig o weithgarwch newydd neu estynedig i'w hystyried:

(a) **Datblygu a sefydlu dulliau rheoli a darparu dalgylchoedd integredig ymhellach**

Rydym yn gwybod bod arnom angen yr ystod lawn o ddulliau dalgylch cyfan ar gyfer rheoli'r tywydd eithafol sy'n ein hwynebu (sychder a gwres, yn ogystal â llifogydd). Mae angen i ni gysylltu'n well â'r ffordd rydym yn rheoli'r tir (e.e. cyfleoedd mawndiroedd, plannu coed, gwneud lle ar gyfer dŵr, arferion amaethyddol), sut rydym yn rheoli cyrsiau dŵr (yn eu cyfanrwydd - o'r tarddiad i'r môr), sut rydym yn manteisio ar atebion sy'n seiliedig ar natur (gan gydnabod eu bod yn rhan o'r adnoddau sydd gennym, a bod angen strwythurau lle defnyddir peirianeg hefyd) a sut rydym yn cynllunio datblygu ar gyfer y dalgylch cyfan, ar gyfer buddion lluosog a mynd i'r afael â heriau'r argyfyngau natur a hinsawdd. Mae angen i ni weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid hefyd - nid yw'r holl ysgogiadau gyda ni, ac nid ni sy'n gyfrifol am yr holl ddarpariaeth. Mae Datganiadau Ardal a SoNaRR yn adnoddau da i'n helpu, ond mae arnom angen mwy o egni a ffocws ar gyfer gwaith cynllunio a darparu dalgylchoedd integredig go iawn, ar draws pob dalgylch yng Nghymru.

(b) **Adeiladu gwydnwch cymunedol**

Gwyddom fod risg weddilliol i gymunedau hyd yn oed ar ôl i ni wneud popeth o fewn ein gallu fel cyrff cyhoeddus (RMAs) i reoli'r perygl o lifogydd. Gwyddom hefyd fod rhaid i ni flaenoriaethu lleoliadau risg uchel, sy'n golygu efallai na fydd cymunedau bach neu anheddau ynysig yn derbyn yr ystod lawn o wasanaethau rheoli perygl llifogydd. Hyd yn oed os oes gan leoliadau amddiffynfeydd rhag llifogydd, gall llifogydd ddigwydd ac nid ydynt yn warant na fydd llifogydd byth yn digwydd. Mae angen i'r cysyniad o wydnwch llifogydd fod yn amlwg yn ein gweithgareddau yn y dyfodol e.e. adeiladu neu ôl-osod eiddo â deunyddiau sy'n ystyriol o lifogydd fel y gellir eu meddiannu'n gynt o lawer ar ôl llifogydd, neu wella ein gwasanaeth rhybuddion llifogydd a hyrwyddo datblygiad cynlluniau llifogydd cymunedol ac unigol.

(c) **Archwilio gwneud mwy ar rôl oruchwylio strategol**

Nid yw graddau'r rôl oruchwylio strategol wedi'i diffinio ac mae lle i wneud mwy e.e. ar annog cydweithio rhwng pob RMA neu ar arwain ar yr agenda datblygu sgiliau ar gyfer Cymru. Gallem fod yn fwy cyfarwyddol yn yr hyn a wnawn a'r hyn y gofynnwn i eraill ei wneud. Byddai angen gwneud hyn yn ofalus ac mae'n bwysig cydnabod y risgiau – er enghraifft, byddai angen i ni barchu democratiaeth leol ac atebolrwydd Awdurdodau Lleol, a rolau strategaeth a pholisi Llywodraeth Cymru.

(d) **Datblygu cynlluniau ymaddasu ar gyfer ardaloedd sydd mewn perygl mawr**

Gwyddom fod angen cymryd golwg hirdymor a chynllunio ar gyfer dyfodol anodd. Mae'r cysyniad o 'lwybrau addasol' yn un defnyddiol yma; y syniad o gynllunio ar gyfer ystod o senarios a sbardunau, felly os cyrhaeddir y sbardun, rydym i gyd yn gwybod beth yw'r ymateb cywir yn hytrach na chladdu ein pennau yn y tywod a gobeithio na fydd yn digwydd a cheisio ymateb pan fydd yn digwydd, pan mae'n rhy hwyr. Rydym yn datblygu cynlluniau addasol mewn mannau, ond mae'n *ad hoc* ac mae ei angen ar gyfer Cymru gyfan. Mae hyn yn cysylltu â'r cysyniad cynllunio dalgylch integredig (neu barth arfordirol) o dan (a) uchod.

(e) **Integreiddio'r cyfleoedd ariannu, gan sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur**

Mae perygl bod cyllid a mentrau'n bodoli ar eu pennau eu hunain ac nad ydynt yn gydgysylltiedig, ar draws yr holl ymyriadau amgylcheddol/adnoddau naturiol. Er enghraifft, a yw cyfleoedd mawndiroedd wedi'u cydgysylltu'n llawn â phwysau dŵr (maint ac ansawdd dŵr)? Mae angen i ni wneud mwy i'w cydgysylltu a bod yn hyblyg yn ein dulliau gweithredu – ac mae hyn hefyd yn ymwneud â'r cysyniad cynllunio integredig o dan (a) uchod.

12. Mae'r rhain yn feysydd lle awgrymir y dylid gwneud mwy o ymdrech. Gwyddom hefyd fod angen i ni sicrhau, yn unol â pharagraff 8, ein bod yn mynd i'r afael â'r bylchau a'r pwysau yn ein gwasanaethau presennol. Nid yw'n fater o wneud llai o'r hyn rydym yn ei wneud nawr, er mwyn gwneud mwy o'r hyn a awgrymir ym mharagraff 11 uchod. Mae angen i ni wneud y ddau beth. **Wrth gwrs, dim ond gyda naill ai mwy o adnoddau neu lefelau gwasanaeth gwahanol y cytunwyd arnynt y mae hyn yn bosibl** Y dewis arall yw ein bod yn ail-flaenoriaethu'r adnoddau presennol i wneud mwy o'r gweithgareddau o dan baragraff 11 uchod, ond y cwestiwn fyddai 'oddi wrth beth?' Nid oes llawer o gyfle i ailgyfeirio'r adnodd FRM presennol heb effaith sylweddol

ar weithgareddau FRM craidd, felly mae angen trafodaethau ar lefelau gwasanaeth yn y dyfodol.

13. Gwyddom hefyd fod heriau sylweddol o ran sgiliau a chapasiti sy'n effeithio ar y sector cyfan. Bydd angen ymdrech ar y cyd i fynd i'r afael â hyn, a bydd yn cymryd amser, felly mae'n debygol o fod yn gyfyngiad gwirioneddol ar ein huchelgais a'n gallu i gyflawni.

Risgiau a chyfleoedd

14. Mae prif risgiau lefel uchel yr opsiwn a ffefrir yn cynnwys:

- (a) Ni fydd rhagor o gyllideb ychwanegol (y tu hwnt i'r hyn a gyhoeddwyd) ar gael; y canlyniad fyddai, os byddwn yn gwneud mwy, y byddem yn rhoi gwaith a phwysau ychwanegol ar yr adnoddau presennol (cam lliniaru: gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gynllunio a dangos gwerth adenillion ar fuddsoddiad, a dim ond gwneud mwy os yw'r gyllideb gennym i wneud hynny).
- (b) Rydym yn gorymestyn ein hunain ar dasgau newydd i feysydd sydd ar gyrion ein cylch gwaith, neu y tu hwnt iddo, e.e. ar ehangu rôl oruchwylio strategol, gan gynnwys i diriogaeth polisi Llywodraeth Cymru (cam lliniaru: bydd angen i ni ystyried yn ofalus derfynau a goblygiadau (bygythiadau a chyfleoedd) gwneud mwy yn y maes hwn, gan fod yn glir ar y ffiniau/ymylon hyn).
- (c) Yr heriau o ran adnoddau hyd at gynnydd posibl o 60% yn y sylfaen adnoddau. Bydd hyn yn gofyn am reolaeth sylweddol ar raglenni/prosiectau. Hefyd, mae prinder sgiliau a chapasiti yn y sector, gyda'r risg na allwn recriwtio staff i ddarparu adnoddau ar gyfer yr ymrwymadau newydd (cam lliniaru; yn unol â pharagraff 13, bydd angen gweithredu sylweddol ar y cyd i fynd i'r afael â hyn).
- (d) Rheoli disgwyliadau – mae cwmpas yr hyn sy'n cael ei ddisgrifio'n sylweddol e.e. bydd cynlluniau rheoli ac addasu dalgylchoedd gwirioneddol integredig a hirdymor ar gyfer *pob* dalgylch ledled Cymru yn cymryd cryn amser ac adnoddau i'w cyflawni (cam lliniaru: byddai angen i ni reoli disgwyliadau o'r dechrau e.e. drwy ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid).

15. Mae prif gyfleoedd lefel uchel yr opsiwn a ffefrir yn cynnwys:

- (a) Ni yw'r 'arbenigwyr cenedlaethol'. Rydym mewn sefyllfa dda i ymgymryd â'r gweithgareddau hyn, mae angen rhywun i'w harwain a'u sbarduno ac, os nad ni, pwy? Fodd bynnag, mae angen cydnabod nad ni fydd yn gyfrifol am yr holl ddarpariaeth; mae gweithio mewn partneriaeth yn bwysig ar gyfer cynllunio a chyflawni.
- (b) Mae'r rôl oruchwylio strategol yn rhoi cyfle i gyflawni llawer o weithgareddau, os ydym am eu harchwilio (er bod angen elfen briodol o ofalus – gweler paragraff 14(b) uchod).
- (c) Mae'r tebygolrwydd o gyllideb ychwanegol yno - mae'n ymddangos yn rhesymol rhagdybio y byddwn yn cael cyfran.

- (d) Mae sylw ac ewyllys wleidyddol yn gysylltiedig â'r argyfyngau hinsawdd a natur, felly mae lle a chyfle i ni wneud mwy yn y meysydd hyn (os yw adnoddau'n caniatáu).
- (e) Rydym yn datblygu ein cynllun corfforaethol a'n gweledigaeth hirdymor, ac mae cyfle o ran yr amseru a'r aliniad. Dyma'r adeg iawn i fyfrio ar ein dyletswyddau a'n cyfrifoldebau.

Goblygiadau ehangach

16. Bydd goblygiadau ehangach i beth bynnag y byddwn yn dewis gwneud mwy ohono, neu ei wneud yn wahanol. Mae hyn yn cynnwys:
- a) Gwasanaethau cymorth mewnol CNC: bydd effeithiau ar yr holl wasanaethau cymorth a bydd angen mewnbwn ychwanegol ar gyfathrebiadau, ymgysylltu â rhanddeiliaid, cyngor cyfreithiol, cymorth ariannol, caffael, recriwtio ac ati. Bydd angen lefelau addas o adnoddau ar y gwasanaethau cymorth hyn.
 - b) Recriwtio a chadw: rydym yn gwybod bod y farchnad ar gyfer gweithwyr proffesiynol perygl llifogydd yn heriol iawn a bod prinder pobl addas ar draws y sector. Bydd angen sgiliau rhanddeiliaid ac ymgysylltu a gweithwyr proffesiynol arnom hefyd. Ni fydd cynnydd posibl o 60% yn y gyllideb a gweithgarwch yn digwydd yn ddiraffferth. Mae hon yn broblem/risg sylweddol y mae angen ei rheoli, gyda dull rheoli rhaglenni/prosiectau yn ôl pob tebyg.
 - c) Timau a strwythurau presennol: ni ellir ychwanegu cynnydd posibl o ~60% yn nifer y staff (os mai felly y bydd pethau) i'r strwythurau presennol. Bydd angen ystyried ffurf a strwythur y sefydliad, ac o bosibl newid rhaglenni yr ymgwymerir â nhw.
 - d) Agweddau cydraddoldeb: mae ystyriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth - er enghraifft, sut rydym yn gweithio gyda chymunedau difreintiedig sydd mewn perygl o lifogydd, neu sectorau anodd eu cyrraedd mewn cymdeithas. Ar hyn o bryd, nid ydym wedi cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gan ein bod yn trafod syniadau a chyfeiriad yn hytrach na chynigion cadarn.
 - e) Effeithiau iechyd: mae agweddau iechyd corfforol a meddyliol i lifogydd a rheoli perygl llifogydd. Fel uchod, ar hyn o bryd, nid ydym wedi cwblhau asesiad o'r effaith ar iechyd.
 - f) Diogelu Data: efallai y bydd rhai goblygiadau o ran diogelu data a GDPR, ond mae'r rhain yn debygol o fod yn estyniadau o'r hyn rydym yn ei ystyried a'i reoli eisoes e.e. data sydd gennym ar dderbynwyr ein gwasanaeth rhybuddion llifogydd. Fel uchod, ar hyn o bryd, nid ydym wedi cwblhau asesiad o'r effaith ar ddiogelu data.
 - g) Ystyriaethau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; mae llifogydd yn cysylltu'n dda â'r cysyniad o lesiant cenedlaethau'r dyfodol, ac yn benodol ein hamcanion llesiant (e.e. ein hamcan i *leihau'r risg i bobl a chymunedau o beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd*). Mae egwyddorion a ffyrdd o weithio Lles a Rheoli

Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) yn rhan annatod o'n gwaith llifogydd, a byddant yn feysydd fydd yn cael eu hystyried ar gyfer ehangu.

Y camau nesaf

17. Byddwn yn defnyddio'r adborth o sesiwn drafod y Bwrdd ac yn datblygu'r syniadau ymhellach gyda'r FRMC a chyda'r Tîm Gweithredol (fel y bo'n briodol). Os dymunir, byddwn yn ailystyried yr eitem mewn sesiwn/sesiynau'r Bwrdd yn y dyfodol (i'w gytuno).
18. Byddwn yn cael trafodaethau cynnydd cyfochrog gyda Llywodraeth Cymru hefyd ar y cynlluniau a'r blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi yn eu cyllideb refeniw gynyddol ddangosol, ac ar lefelau gwasanaeth. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ymuno â'n trafodaethau FRMC.
19. Byddwn yn gweithio gyda'r FRMC i ddatblygu'r amcanion strategol ar gyfer y Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd.

Argymhelliad

20. Yr argymhelliad (mewn ymateb i gwestiwn a ofynnwyd ym mharagraff 2) yw ein bod yn cynllunio ar gyfer dull hybrid (Opsiw D) o gydgrynhoi a llenwi bylchau mewn gweithgareddau presennol a rhoi hwb i'r gweithgareddau 'newydd' ym mharagraff 11 uchod – yn amodol ar y gyllideb a'r adnoddau sydd ar gael. Mae angen gwneud rhagor o waith, a chael barn aelodau'r Bwrdd, ar y dull gweithredu ac ar y themâu ar gyfer gweithgareddau newydd (neu wedi'u blaenoriaethu).

Mynegai atodiadau

Atodiad 1 – Mesurau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â rheoli perygl llifogydd

Atodiad 2 – Gweithgareddau refeniw a dyraniad cyllideb FRM CNC

Atodiad 3 – Disgrifiyddion gweithgareddau FRM a ddefnyddir ar gyfer cynllunio busnes ac adrodd



Annex 1 – Welsh Government Programme for Government measures directly relating to flood risk management

Fund additional flood protection for at least 45,000 homes.

Deliver nature-based flood management in all major river catchments to expand wetland and woodland habitats.

Commission an independent review of the local government section 19 and Natural Resources Wales reports into extreme flooding in winter 2020-21.

Ask the National Infrastructure Commission to assess how the nationwide likelihood of flooding of homes, businesses and infrastructure can be minimised by 2050.

Establish a targeted scheme to support restoration of seagrass and saltmarsh habitats along our coastline.


Annex 2 – NRW’s FRM revenue activities and budget allocation

(from NRW’s FRM Annual Report [Natural Resources Wales / Flood risk management annual report 2020-2021](#))

Revenue Funding

The 2020/21 revenue settlement of £21m supported the significant effort that goes into sustaining and providing the services, advice, tools and activities NRW undertakes to help manage flood risk in Wales. This funding predominantly supports staff costs, routine maintenance works, various enabling services which support our work and other routine activities. A breakdown of revenue spend by activity is included in figure 9 below.

Figure 9: Chart showing the breakdown of revenue spend by activity



Each of these work areas interact and overlap with each other to deliver key services, therefore there are some areas where teams support wider activities which can misrepresent the scale of effort in some of the above activities, for example Hydrometry and Telemetry

work heavily supports forecasting and issuing flood warnings and is accounted for above accordingly.

Enabling Service and Corporate Overheads include FRMs contribution to the operation of key business services which support the delivery of FRM activities, these include Communications, Procurement, Governance and Leadership, Corporate Planning, Legal Services, People Management, Facilities, Fleet Management and Finance. ICT costs are associated with ongoing business support, infrastructure and ongoing service and licence fees for FRM systems.

This year's revenue allocation included an increase of an additional £1.25m over previous years, this enabled an additional 36 Full Time Equivalent (FTE) posts to be established as well as supporting the delivery of additional routine maintenance works in year alongside a number of smaller projects. The revenue budget of £21m was fully utilised in 2020/21 and helped support many of the initiatives outlined in this report and ensured that our "business as usual" services continued to be delivered effectively

Annex 3: FRM activity descriptors used for business planning and reporting



Papur Bwrdd

	Manylion y Papur
Teitl y Papur:	Adroddiad Lles, Iechyd a Diogelwch 2021-2022
Cyfeirnod y Papur:	22-05-B16
Noddwyd y Papur gan:	Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol, Strategaeth Gorfforaethol a Datblygu
Cyflwynwyd y Papur gan:	Charlotte Morgan, Rheolwr Lles, Iechyd a Diogelwch
Diben y papur:	Craffu/penderfyniad

Mater

1. Dyma grynoded blynyddol o'n perfformiad Lles, Iechyd a Diogelwch ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o sut mae CNC wedi rheoli Lles, Iechyd a Diogelwch gydol 2021-2022.

Cefndir

2. Cymeradwyodd y Bwrdd Strategaeth a Chynllun Gwella newydd Lles, Iechyd a Diogelwch 2021-2024 ym mis Medi 2021. Lanswyd y Rhaglen Lles, Iechyd a Diogelwch i hybu gwelliannau i alluogi CNC i geisio cyflawni ei uchelgais mewn perthynas â Lles, Iechyd a Diogelwch ei weithwyr.
3. Nododd Adroddiad Iechyd, Diogelwch a Lles y flwyddyn ariannol ddiwethaf gamau nesaf a gwaith ar gyfer y dyfodol i'w gweithredu drwy Strategaeth a Chynllun Gwella Lles, Iechyd a Diogelwch 2021-2024 CNC.
4. Erbyn diwedd 2021-2022, rydym wedi cwblhau sawl un o'r prif gamau gweithredu yn y Cynllun yn cynnwys:
 - Sicrhau cofrestrriad ISO 45001: 2018 – Safon rheoli Iechyd a Diogelwch galwedigaethol.
 - Sefydlu partneriaeth gydweithio gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, CNC a'r Comisiwn Coedwigaeth.

Asesu

5. Yn 2021/2022 llwyddom i wneud camau mawr pellach i weithredu'n Strategaeth. Mae'r uchafbwyntiau o 2021/2022 yn cynnwys:
- Adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol. Adolygodd y tîm Lles, Iechyd a Diogelwch ddau ddigwyddiad difrifol ac achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd gan ddefnyddio'r weithdrefn adolygu digwyddiadau. Roedd y digwyddiadau hyn yn cynnwys gweithgareddau gwaith coedwigaeth a digwyddiad trafndiaeth.
 - Digwyddiadau Colli Amser ac Anafiadau adroddadwy RIDDOR. Adroddwyd am saith digwyddiad adroddadwy RIDDOR a thri digwyddiad colli amser ar gyfer 2021/2022. Mae hyn yn gynydd ar y llynedd. Mae adrodd am ddigwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd wedi cynyddu o gymharu â'r flwyddyn ariannol ddiwethaf, gyda'r pandemig a mesurau cyfnodau clo yn dal ar waith. Mae'r tîm Lles, Iechyd a Diogelwch wedi darparu hyfforddiant i reolwyr ac arweinwyr timau ar adrodd ac ymchwilio i ddigwyddiadau. Mae pwysigrwydd rheoli risgiau iechyd a diogelwch a chefnogi staff wedi'i gyflawni drwy ymgyrchoedd a gwaith ymgysylltu gan y tîm Lles, Iechyd a Diogelwch.
 - Ym mis Rhagfyr 2021, sicrhodd CNC gofrestrriad ISO 45001: 2018. Safon ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch galwedigaethol yw ISO 45001:2018. Mae fframwaith ISO 45001: 2018 yn galluogi sefydliadau i ddarparu gweithleoedd diogel ac iach drwy atal anafiadau a salwch cysylltiedig â gwaith, yn ogystal â thrwy wella ei berfformiad Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol yn rhagweithiol.
 - Covid-19. Darparwyd cyngor a chanllawiau sylweddol i'r busnes yn ystod yr amser digynsail hwn, yn cynnwys asesiad risg swyddogaethol, canllawiau i'r rhai sy'n gweithio ym maes Gweithrediadau a chanllawiau ar fynediad diogel i swyddfeydd.
 - Safon Iechyd Corfforaethol. Cyflwynwyd y cais ar gyfer dyfarniad lefel aur y Safon Iechyd Corfforaethol ym mis Mawrth 2021. Nid yw Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gallu cynnal yr asesiadau oherwydd y pandemig gan fod angen adnoddau yn y maes hwnnw.
 - Holiaduron cyn-cymhwysu. Aseswyd cyfanswm o 42 o holiaduron cyn-cymhwysu ar gyfer nifer o wahanol dimau. Diben yr asesiad yw sicrhau bod y contractwyr a'r cwsmeriaid rydym yn gweithio gyda nhw wedi'u hasesu'n briodol.
6. Darparwyd gwelliannau a datblygiadau pellach fel:
- Sawl menter les benodol gydol y flwyddyn e.e. Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd, Mis Ymwybyddiaeth o Straen.
 - Parhau i ganolbwyntio ar hyrwyddo mis wedi'i neilltuo i iechyd menywod yn ystod mis Hydref a mis ar gyfer iechyd dynion yn ystod mis Mawrth.
 - Cynnal un archwiliad mewnol ar Ddirgryniad Llaw a Braich, a gafodd sgôr cymedrol.

- Cryfhau'r berthynas waith gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Chytundeb Diogelwch y Diwydiant Coedwigaeth gyda ffocws ar feysydd Lles, Iechyd a Diogelwch allweddol fel cymhwysedd llif gadwyn.
- Cymeradwyo polisiâu/gweithdrefnau Lles, Iechyd a Diogelwch allweddol i sicrhau bod gennym brosesau cadarn ar waith e.e. Iechyd galwedigaethol, gweithio ar eich pen eich hun ac o bell, gofal llygaid a chymorth cyntaf.

Argymhelliad

7. Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol Lles, Iechyd a Diogelwch ar gyfer 2021/2022.

Y Camau Nesaf

8. Bydd y tîm Lles, Iechyd a Diogelwch yn parhau i gefnogi'r busnes i sicrhau bod risgiau Lles, Iechyd a diogelwch yn cael eu rheoli'n effeithiol gan CNC. Wrth edrych ymlaen, bydd angen i CNC gynnal a hefyd ddatblygu a gwella ein diwylliant cryf o fonitro a dysgu ym maes Lles, Iechyd a diogelwch ymhellach. Bydd hyn yn parhau i fod yn elfen allweddol o'n strategaeth i symud ymlaen yn y dyfodol.
9. Bydd y tîm Lles, Iechyd a Diogelwch yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd a'r gwersi a ddysgwyd wrth ddatblygu'n strategaeth a'n cynllun gweithredu ar gyfer y dyfodol.

Goblygiadau Ariannol

10. Cydnabyddir bod camreoli Lles, Iechyd a Diogelwch yn golygu goblygiadau ariannol sylweddol. Mae'r tîm Lles, Iechyd a Diogelwch yn parhau i gyflwyno systemau newydd er mwyn rheoli'n risgiau Lles, Iechyd a Diogelwch a lleihau unrhyw gostau o ganlyniad. Yn ogystal â diogelu'n staff a'r rhai sy'n gweithio ar ac yn defnyddio'r ystad y mae CNC yn ei rheoli, gallai goblygiadau ariannol sylweddol godi yn sgil methiannau i weithredu system Lles, Iechyd a Diogelwch gadarn.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

11. Heb ei gwblhau ar gyfer yr adroddiad hwn.

Mynegai Atodiadau

- Atodiad 1: Adroddiad Lles, Iechyd a Diogelwch Blynyddol – 2021/2022.



Annex 1 – WH&S Annual Report 2021/2022

Summary

This is the annual report to inform of the Wellbeing, Health and Safety (WH&S) developments in 2021/2022 including

- Improvements to our safety management systems
- Performance
- Actions/initiatives that have been put in place.

Overview

The new NRW Wellbeing, Health and Safety Strategy and Improvement Plan for 2021 – 2024 were approved in September 2021. These documents describe the strategic direction for wellbeing, health and safety over the next three years. They detail how NRW intends to organise itself to maintain legal compliance as a minimum and promote a positive, sustainable wellbeing, health and safety culture to continually improve performance.

Good health and wellbeing is increasingly being acknowledged as a vital element in supporting and developing a workforce. Not only are there positive benefits to staff but there are also financial and reputational benefits to the organisation. NRW recognises that an important aspect is the promotion and maintenance of the physical and psychological health, wellbeing and safety of its entire organisation. In order to deliver NRW WH&S objectives, it is vitally important that NRW has a highly motivated, empowered, engaged and healthy workforce.

NRW is seeking to gain registration to both the International Occupational Health and Safety Management Standard ISO 45001:2018 and the Corporate Health Standard gold/platinum award. Working towards, securing and maintaining these standards will be a clear demonstration of NRW's commitment to recognised best practice, enhancing our reputation with staff and new and existing stakeholders, such as the Health & Safety Executive and the Forest Industry Safety Accord, including those in industry and business.

The new WH&S Strategy clearly demonstrate that NRW values its staff and customers and wants them to be safe and thrive because of the positive culture and benefits of working to support the natural resources of Wales. Put simply, it's about NRW being a great place to work and a great organisation to do business with.

The key priorities that were identified to be taken forward in 2021/2022 were:

- The Wellbeing Health and Safety Policy is revised and implemented.
- Health and safety training requirements for all NRW staff are more clearly defined.
- All leaders and managers commit more fully to, and are accountable for, the management of wellbeing health and safety.
- Occupational health and safety risks are managed and controlled in a sensible, proportionate, and enabling manner.
- Improved wellbeing, health and safety promotion, communication, and consultation mechanisms.
- Revised risk assessment process within NRW.
- NRW successfully achieving registration to ISO 45001.
- NRW to maintain the Corporate Health Standard Silver award and await assessment for the Gold level award assessment by Public Health Wales.

Headlines from 2021/2022 include:

- **Serious Incident Reviews (SIR)** –We reviewed three serious incidents and near misses using the serious incident procedure. These incidents involved forestry work activities, a transport incident and a fatal accident to one of NRW's contractors.
- **RIDDOR Reportable LTI's and Injuries.** Seven RIDDOR reported incidents and three lost time incidents (LTIs) for 2021/2022, this is an increase on last year. As expected, incident and near miss reporting increased on last year as Covid-19 restrictions eased and we opened up more.
- We have continued to deliver **training for managers and team leaders** on reporting and investigating incidents. The importance of managing health and safety risks and supporting staff have been delivered through campaigns and engagement activities co-ordinated by the WH&S team.
- **ISO 45001.** ISO 45001:2018 is a standard for the management of occupational health and safety. The framework of ISO 45001: 2018 enables organisations to provide safe and healthy workplaces by preventing work-related injury and ill health, as well as by proactively improving its Occupational H&S performance. NRW attained registration to ISO 45001:2018 in December 2021.
- **Covid-19.** Advice and guidance given to the business during this unprecedented time, which included a Covid 19 functional risk assessment, lateral flow testing guidance and task specific Covid 19 risk assessments.
- **Corporate Health Standard.** The application for the Corporate Health Standard award for gold level was submitted in March 2021. Public Health Wales have been unable to undertake the assessments due to the pandemic as resources were required in that area.
- **Pre-qualification Questionnaires.** A total of 42 pre-qualification questionnaires were assessed, for a number of different teams. This assessment is required as part of health and safety legislation and ensures that our contractors and customers have been assessed prior to undertaking any work on NRW estate.
- More detail on the headlines is provided below.

National Wellbeing, Health & Safety Committee

The National Wellbeing, Health & Safety committee met four times in 2021/2022 to discuss issues raised, update on progress and provide guidance and recommendations, addressing wellbeing, health and safety matters at a strategic level. Topics have included:

- Review of the Strategic Risk Register, particularly the WHS risks
- Incident reporting and analysis of data
- Discussion and review of current Serious Incident Reviews, with monitoring of actions
- Consideration of Internal and external audit findings and recommendations
- Feedback from Regional Forums and Trade Union representatives

In 2021/2022, all the WH&S forums continued with the action focussed approach developed previously, raising awareness of their existence and playing a role in delivery of the strategy and improvement plan items. They also focussed their attention on local initiatives and development of action plans on priority issues, which they had identified, and which complemented and supported the work led by the corporate wellbeing, health and safety team.

Performance – health and safety

Headline accident and near miss statistics

- RIDDOR reportable LTI's and Injuries with no lost time reports to staff have increased this year, with Near Miss reporting by staff also increasing in comparison to the last financial year. This is likely to be as a result of restrictions in place on work and travel throughout the year due to the ongoing pandemic lifting.
- Incidents and near misses relating to contractors have remained fairly static, but members of the public injuries and near misses reported have also reduced.
- The WH&S team continue to deliver training for managers and team leaders on reporting and investigating incidents.
- The importance of managing health and safety risks and supporting staff have been delivered through campaigns and engagement by the WH&S team.
- It is also pleasing to note that there has been continued efforts by the local WH&S forums to improve the quantity and quality of incident reports and to ensure incidents are investigated and closed off by line managers.

	2021/2022	2020/2021	2019-2020	2018-2019	2017-2018	2016-2017
RIDDOR – staff	7	3	6	2	8	9
Lost time injuries – staff	3	1	4	5	8	4
Injuries, no lost time - staff	51	19	121	53	59	68
Near miss – staff	156	109	183	163	201	232

Serious incident reviews	4	4	5	2	3	9
Injuries - contractors	3*	5*	5	9	9	8
Injuries – public	38	18	53	53	95	70
Near miss – contractors	62	46	50	40	44	62
Near miss – public	30	23	33	20	39	27
Property Damage	36	35	32	43	48	63
Hazards Reported	166	65	83	103	78	6

* Includes 1 RIDDOR Reportable injury to a contractor. This will have been reported to HSE by the contractor but has been included in our statistics to ensure a suitable investigation/review takes place.

- Reporting of Injuries, Diseases and Dangerous Occurrences Regulations 2013 (RIDDOR) incident is a particular type of incident that is required to be reported to the Health and Safety Executive (HSE)
- A lost time injury (LTI) is where a member of staff is injured during the course of their work and they have subsequently had time off or been on light duties as a result of their injuries (reportable under RIDDOR if over 7 days). Lost Time starts the first day after the person was injured. The LTI figure does not include LTI's that became RIDDOR reportable.
- An injury with no lost time (Non-LTI) is where a member of staff is injured during the course of their work but only needed minor 1st aid treatment and subsequently have not had any time off work.
- A Near Miss is an unplanned or uncontrolled event that does not cause injury, ill health or damage, but could do so.
- Member of public injuries relate predominantly to mountain bike accidents on our purpose-built trails, and slips, trips and falls on walking trails. Trails are risk assessed and routinely inspected periodically and are also inspected following an accident.
- Public near misses are predominately public incursions on to live harvesting sites or illegal off-road motorcyclists abusing contractors/members of the public.

We have had seven RIDDOR reportable incidents in this reporting period that relate to employees:

- 2nd June 2021 – Slip, trip, fall leading to lower limb sprain/strain and over 7-day injury.
- 23rd August 2021 – Struck by moving vehicle causing leg contusions/bruising and over 7-day injury.
- 23rd September 2021 – Manual handling incident leading lower limb strain/sprain and over 7-day injury.
- 3rd November 2021, Slip, trip, fall leading to lower limb strain/sprain and over 7-day injury.
- 20th December 2021 – Occupational disease, Hand Arm Vibration Syndrome from powered tool use.
- 23rd December 2021 – Occupational disease, Hand Arm Vibration Syndrome from powered tool use.
- 29th March 2022 – Slip, trip, fall leading to lower limb sprain/strain and over 7-day injury.

There has been one RIDDOR Reportable incident to a contractor (reported by Euroforest Ltd):

- 13th October 2021 – Fatality of contractor struck by falling object (tree).

Lost Time Incidents that are not RIDDOR reportable

- 12th May 2021 – Staff member tripped whilst crossing road and twisted ankle.
- 27th July 2021 – Staff member strained back whilst lifting/carrying during a fish count.
- 11th November 2021 – Staff member travelling in NRW vehicle was hit head on by an oncoming vehicle on wrong side of road.

Serious Incident Reviews

Six serious incident reviews were opened in 2021/2022 and two fully investigated using our serious incident review process, with the WH&S Lead Specialist Advisors in conjunction with the Trade Unions undertaking the investigations. There were three fatal accidents to members of the public and these continue to be investigated by the Police and the Coroner. A full investigation cannot be undertaken until these have been concluded. Details on the six serious incident reviews are set out below:

• Near Miss Afan Forest Park – Members of the Public

A near miss incident occurred on the forest road in Afan Forest Park. Harvesting works were being undertaken on the steep slope directly above the forest road. The chainsaw operator lost control of a tree during felling and the tree slid down the bank onto the forest road below. Two members of the public who were walking along the forest road reported that they were almost struck by the tree. A Serious Incident Review was conducted in conjunction with the Standing Sales contractor. The Serious incident report is currently being finalised.

• Failure of work equipment – NRW Fleet Vehicles

A Serious Incident Review was undertaken in relation to a failure of work equipment which resulted in a staff member being injured. The incident occurred with a fleet vehicle and the failure of the handbrake mechanism. The decision was taken remove the make/model of

vehicle from service to allow them all to be inspected by manufacturer. The Serious Incident Report is currently being finalised and actions being assigned.

- **Fatal contractor accident on NRW Estate**

Sadly, there was a fatal accident at Coed Taff Forest, which is within the NRW estate. The coupe within Coed Taff Forest was sold as part of a timber sales contract and was a standing sales site.

The Police and Health and Safety Executive (HSE) are currently investigating the site to ascertain what happened.

- **Fatal accidents to member of the public on NRW Estate**

Sadly, there were three fatal accidents involving members of the public on the NRW estate.

These fatal accidents are currently being investigated by the Police and the Coroner, therefore a full investigation cannot be undertaken until these have been concluded.

One was a fall from height and two were drownings.

Serious Incident Reviews have been opened and paused for all three fatal incidents and will be updated once the coroner's inquests have concluded.

Performance – Wellbeing and health

Occupational health statistics

- **Summary of annual activity**

Our occupational health data for the reported year indicates that 36.5% of our management referrals are related to mental health issues (an 8.5% decrease on last year). 26.5% of those mental health related referrals were confirmed as perceived work-related stress and multifactorial stress/anxiety. Perceived work-related stressors were reported to be organisational change, unmanageable workloads, workplace conflict, job evaluation.

Summary 2021/2022	Comparison from 2020/2021
134 referrals/reviews	+39 (95)
63 HAVS screening	+13 (50)
6 HAVS Tier 4 assessments	+4 (2)
